



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings

Dydd Mawrth, 28 Chwefror 2012
Tuesday, 28 February 2012

Cynnwys
Contents

| | |
|-----|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 3 | Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister |
| 35 | Cwestiwn Brys: Firws Schmallenberg Urgent Question: The Schmallenberg Virus |
| 38 | Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement |
| 43 | Datganiad: Diwygio Lles Statement: Welfare Reform |
| 59 | Datganiad: Cronfa Twf Economaidd Cymru Statement: The Wales Economic Growth Fund |
| 76 | Y Fframwaith Iechyd Rhyngwladol Drafft The Draft International Health Framework |
| 98 | Adroddiad Blynyddol Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru The Equality and Human Rights Commission Wales's Annual Report |
| 120 | Cyfnod Pleidleisio Voting Time |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

The Presiding Officer: Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Y Llywydd: Prynawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Blaenoriaethau ar gyfer Cwm Cynon

I. Christine Chapman: Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cwm Cynon. OAQ(4)0380(FM)

The First Minister (Carwyn Jones): Our priority for Cynon Valley, as in other parts of Wales, is to implement the programme for government.

Christine Chapman: I was delighted recently to attend the official opening of the £3 million extension block at Penywaun Primary School in my constituency. This is a welcome investment in the education of children from an area that is marked by especially high levels of deprivation. I was struck by the enthusiasm of the pupils for their new, inspirational school building. First Minister, the new building is a visible display of the commitment of the Welsh Government's work with Rhondda Cynon Taf County Borough Council to improve the educational opportunities of children from the Cynon Valley. Will you confirm that this will remain a priority for your Government in this Assembly term?

The First Minister: Yes, absolutely. It is a firm commitment of this Government, as evidenced by the manifesto upon which we stood in May, to ensure that there is at least sufficient funding available for education, because we know that education is important in terms of improving people's skills and making Wales a more attractive place to invest.

Andrew R.T. Davies: At lunchtime, like many Members, I attended a motor neurone disease event. In its report, the organisation called for the implementation of the

Priorities for the Cynon Valley

I. Christine Chapman: What are the Welsh Government's priorities for the Cynon Valley. OAQ(4)0380(FM)

Y Prif Weinidog (Carwyn Jones): Ein blaenoriaeth ar gyfer Cwm Cynon, fel mewn rhannau eraill o Gymru, yw gweithredu'r rhaglen lywodraethu.

Christine Chapman: Roeddwn wrth fy modd yn ddiweddar i fynychu agoriad swyddogol yr estyniad £3 miliwn i Ysgol Gynradd Penywaun yn fy etholaeth. Mae hwn yn fuddsoddiad i'w groesawu mewn addysg plant o ardal a nodweddir gan lefelau arbennig o uchel o amddifadedd. Cefais fy nharo gan frwdfrydedd y disgyblion am eu hadeilad ysgol newydd, ysbrydoledig. Brif Weinidog Cymru, mae'r adeilad newydd yn enghraifft weladwy o ymrwymiad Llywodraeth Cymru drwy ei gwaith gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i wella cyfleoedd addysgol i blant o Gwm Cynon. A wnewch chi gadarnhau y bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer eich Llywodraeth yn ystod tymor hwn y Cynulliad?

Y Prif Weinidog: Gwnaf, ar bob cyfrif. Mae'n ymrwymiad cadarn gan y Llywodraeth hon, fel y dangoswyd yn y maniffesto a oedd yn sail i'n hymgyrch ym mis Mai, i sicrhau bod o leiaf cyllid digonol ar gael ar gyfer addysg, oherwydd gwyddom fod addysg yn bwysig o ran gwella sgiliau pobl a gwneud Cymru yn lle mwy atyniadol i fuddsoddi ynddo.

Andrew RT Davies: Amser cinio, fel llawer o Aelodau, roeddwn mewn digwyddiad clefyd niwron echddygol. Yn ei adroddiad, galwodd y sefydliad am weithredu'r

neuroscience review and the recommendations that were presented to the Government. Many sufferers of this disease in South Wales Central, and the Cynon Valley in particular, would benefit from the implementation of the neuroscience review; when will your Government implement those recommendations to benefit patients who suffer from motor neurone disease?

The First Minister: All recommendations arising from that review will be considered and we will look to examine them carefully in due course.

Leanne Wood: First Minister, last October, I raised with you my concerns about investment in our cities failing to trickle up to the Valleys, particularly the northernmost points of the Valleys. At that time, I asked you to read my policy document, called 'A Greenprint for the Valleys', and you replied at that time that there was no doubt that you would then read it. First Minister, have you read the document, as promised? If so, can you tell us which ideas in it you could roll out now to create sustainable jobs in the Cynon Valley?

The First Minister: I certainly read some of it with interest, but as I do not have a vote in the Plaid Cymru leadership election contest, I cannot say that I have read it all. [*Laughter.*] Nevertheless, it remains the case that we will consider any innovative ideas that will help to stimulate the Welsh economy.

The Presiding Officer: Order. I remind Members that, further down the agenda, we have a number of closed questions about specific geographical areas, and I will try to keep supplementary questions to those geographical areas if I possibly can.

Haemoffilia

2. Julie Morgan: *Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i wella gwasanaethau yng Nghymru i gleifion sydd â haemoffilia. OAQ(4)0378(FM)*

The First Minister: In November 2011, the Minister for Health and Social Services published a report containing a number of

adolygiad niwrowyddorau a'r argymhellion a gyflwynwyd i'r Llywodraeth. Byddai llawer sy'n dioddef o'r clefyd hwn yng Nghanol De Cymru, a Chwm Cynon yn arbennig, yn elwa o weithredu'r adolygiad niwrowyddorau; pryd y bydd eich Llywodraeth yn gweithredu'r argymhellion hynny er mwyn bod o fudd i gleifion sy'n dioddef o glefyd niwronau motor?

Y Prif Weinidog: Bydd yr holl argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad hwnnw yn cael eu hystyried a byddwn yn edrych arnynt yn ofalus maes o law.

Leanne Wood: Brif Weinidog, fis Hydref diwethaf, soniais wrthy ch am fy mhryderon nad yw'r buddsoddiad yn ein dinasoedd yn cyrraedd y Cymoedd, yn enwedig rhannau mwyaf gogleddol o'r Cymoedd. Ar y pryd, gofynnais ichi ddarllen fy nogfen bolisi o'r enw 'Cynllun Gwyrdd i'r Cymoedd', a'ch ateb ar y pryd oedd y byddech yn ddi-os yn ei darllen. Brif Weinidog Cymru, a ydych wedi darllen y ddogfen, fel yr addawyd? Os felly, a allwch ddweud wrthym pa syniadau ynddi a allech eu cyflwyno yn awr i greu swyddi cynaliadwy yng Nghwm Cynon?

Y Prif Weinidog: Rwyf yn sicr wedi darllen peth ohoni â diddordeb, ond gan nad oes gennyf bleidlais yn etholiad arweinyddiaeth Plaid Cymru, ni allaf honni fy mod wedi ei darllen i gyd. [*Chwerthin.*] Serch hynny, mae'n dal yn wir dweud y byddwn yn ystyried unrhyw syniadau arloesol a fydd yn help i ysgogi economi Cymru.

Y Llywydd: Trefn. Hoffwn atgoffa'r Aelodau fod gennym nifer o gwestiynau caeedig am ardaloedd daearyddol penodol ymhellach i lawr yr agenda, a byddaf yn ceisio cadw cwestiynau atodol i'r ardaloedd daearyddol hynny os y gallaf.

Haemophilia

2. Julie Morgan: *What plans does the First Minister have to improve services in Wales for patients suffering from haemophilia. OAQ(4)0378(FM)*

Y Prif Weinidog: Ym mis Tachwedd 2011, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol adroddiad yn

recommendations on improving services for people with inherited bleeding disorders. Additional funding of £96,369 has been provided on a recurrent basis to support counselling services for those with inherited bleeding disorders.

Julie Morgan: Thank you for that response. I visited the haemophilia unit in the Heath hospital last week and, after discussion with the consultant and patients, I learned how important it is for patients to receive physiotherapy. I understand that there is only one specialist physiotherapist for haemophilia patients in Wales. What can the First Minister do to improve access to physiotherapy for haemophilia patients?

The First Minister: We want to ensure that there are adequate and good services available to those who suffer from haemophilia. Local health boards are currently looking at service redesign, as Members will know, which should provide an opportunity to address some of the issues that have been raised.

Darren Millar: First Minister, some patients suffering from severe bleeding disorders such as haemophilia live in rural parts of Wales, including parts of north Wales where, due to the very rural landscape, travelling regularly to treatment centres can be difficult. The ministerial task and finish group report on haemophilia services in 2011 found that many rural patients prefer, where possible, to be managed locally to having to travel significant distances for specialist care. Will you outline what your Government is doing to ensure local access to services, particularly against the backdrop of your significant cuts to the health budget?

The First Minister: Here we go again with the party opposite. They seem to be immune to what is happening over the border and all the trouble over there, but there we are. With regard to where we are in Wales, we will always seek to ensure that services can be delivered as locally as possible provided it is safe.

cynnwys nifer o argymhellion ar wella gwasanaethau i bobl ag anhwylderau gwaedu a etifeddwyd. Darparwyd cyllid ychwanegol o £96,369 ar sail reolaidd i gefnogi gwasanaethau cwnsela i'r rhai ag anhwylderau gwaedu a etifeddwyd.

Julie Morgan: Diolch am yr ymateb hwnnw. Ymwelais â'r uned hemoffilia yn ysbyty'r Mynydd Bychan yr wythnos diwethaf ac, ar ôl trafodaeth â'r ymgynghorydd a chleifion, dysgais pa mor bwysig ydyw i gleifion gael ffisiotherapi. Rwy'n deall mai dim ond un ffisiotherapydd arbenigol sydd ar gyfer cleifion hemoffilia yng Nghymru. Beth all y Prif Weinidog ei wneud i wella mynediad at ffisiotherapi i gleifion haemoffilia?

Y Prif Weinidog: Rydym am sicrhau bod gwasanaethau digonol a gwasanaethau da ar gael i'r rhai sy'n dioddef o hemoffilia. Mae byrddau iechyd lleol ar hyn o bryd yn ystyried ailgynllunio gwasanaethau, fel y gŵyr yr Aelodau, a ddylai roi cyfle i fynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd.

Darren Millar: Brif Weinidog Cymru, mae rhai cleifion sy'n dioddef o anhwylderau gwaedu difrifol fel hemoffilia yn byw mewn rhannau gwledig o Gymru, gan gynnwys rhannau o'r gogledd, ac, oherwydd y tirwedd gwledig iawn, mae'n gallu bod yn anodd iddynt deithio yn rheolaidd i ganolfannau triniaeth. Canfu adroddiad gan y grŵp gorchwyl a gorffen gweinidogol ar wasanaethau hemoffilia yn 2011 fod yn well gan gleifion gwledig, lle y bo modd, gael gofal yn lleol yn hytrach na gorfod teithio pellterau sylweddol i gael gofal arbenigol. A wnewch chi amlinellu beth y mae eich Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau mynediad lleol at wasanaethau, yn enwedig yn erbyn y cefndir o'ch toriadau sylweddol i'r gyllideb iechyd?

Y Prif Weinidog: Mae'r blaid gyferbyn wrthi eto. Ymddengys eu bod yn ddall i'r hyn sy'n digwydd dros y ffin a'r holl drafferth yno, ond dyna ni. O ran ein sefyllfa yng Nghymru, byddwn bob amser yn ceisio sicrhau y gellir darparu gwasanaethau mor lleol â phosibl, ar yr amod ei fod yn ddiogel.

Lindsay Whittle: First Minister, can you state what levels of payment have been made to haemophiliacs as a result of compensation for receiving contaminated blood? Is there a list of patients waiting for this?

The First Minister: No. We look to provide compensation where appropriate. You will know that, on 14 October, the UK Government announced that it would review the support available to individuals infected with hepatitis C and/or HIV by NHS-supplied blood transfusions. In March last year, the then health Minister agreed to implement in Wales a number of the recommendations made by the review. Those recommendations have been taken forward.

Vaughan Gething: I recently met with a constituent of mine, a Mr Thomas, who is one of thousands of haemophiliacs affected by the contaminated blood scandal. This has obviously had a devastating impact on many families across Wales and the rest of the UK. Will the Welsh Government raise this matter with counterparts in devolved Governments and the UK Government to review the current position with regard to treatment, particularly in light of the Penrose inquiry ongoing in Scotland?

The First Minister: We will always look to see how treatment can be improved and at how people can have their conditions properly managed or cured in years to come. That was done when we looked at how best to help those people who had suffered as a result of receiving contaminated blood products.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

Arweinydd Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones): A yw'r Prif Weinidog yn derbyn ei bod hi'n hynod o bwysig bod y Llywodraeth yn defnyddio arian cyfalaf i hybu'r economi wrth i gymaint o bobl golli eu swyddi?

Y Prif Weinidog: Ydw, ac rydym wedi gwneud hynny.

Ieuan Wyn Jones: Roeddwn yn disgwyl ichi

Lindsay Whittle: Brif Weinidog, a allwch ddweud pa iawndal a gafodd hemoffiligion oherwydd iddynt dderbyn gwaed wedi'i lygru? A oes rhestr o gleifion yn aros am hyn?

Y Prif Weinidog: Na. Rydym yn darparu iawndal lle bo'n briodol. Byddwch yn gwybod bod Llywodraeth y DU, ar 14 Hydref, wedi cyhoeddi y byddai'n adolygu'r cymorth sydd ar gael i unigolion a heintiwyd â hepatitis C ac/neu HIV gan drallwysiadau gwaed a gyflenwyd gan y GIG. Ym mis Mawrth y llynedd, cytunodd y Gweinidog dros iechyd ar y pryd i weithredu nifer o'r argymhellion a wnaed gan yr adolygiad yng Nghymru. Mae'r argymhellion hynny wedi'u gweithredu.

Vaughan Gething: Yn ddiweddar, cyfarfûm â Mr Thomas, un o'm hetholwyr, sy'n un o filoedd o hemoffiliogon yr effeithwyd arno gan y sgandal gwaed llygredig. Mae hyn yn amlwg wedi cael effaith ddinistriol ar lawer o deuluoedd ledled Cymru a gweddill y DU. A fydd Llywodraeth Cymru yn codi'r mater hwn gyda chymheiriaid mewn Llywodraethau datganoledig a Llywodraeth y DU i adolygu'r sefyllfa bresennol o ran triniaeth, yn enwedig yng ngoleuni ymchwiliad Penrose sy'n mynd yn ei flaen yn yr Alban ar hyn o bryd?

Y Prif Weinidog: Byddwn bob amser yn ystyried sut y gellir gwella'r driniaeth a sut y gall cyflwr pobl gael ei reoli'n briodol neu ei wella mewn blynyddoedd i ddod. Gwnaethpwyd hynny pan wnaethom edrych ar y ffordd orau o helpu'r bobl hynny a ddioddefodd o ganlyniad i gael cynhyrchion gwaed wedi'u llygru.

Questions Without Notice from the Party Leaders

The Leader of Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones): Does the First Minister accept that it is very important that the Government uses capital funds to boost the economy when so many people are losing their jobs?

The First Minister: Yes, and we have done just that.

Ieuan Wyn Jones: I took it that you would

roi ateb cadarnhaol i'r cwestiwn cyntaf, Brif Weinidog. A gaf i holi, felly, pam mae'r Llywodraeth mor araf yn ceisio cael arian ychwanegol at y bloc er mwyn hybu'r sector adeiladau a pheirianneg sifil? Hyd yma, nid ydym wedi gweld un geiniog ychwanegol a hithau'n flwyddyn ers yr etholiad. A fedrwyd chi roi sicrwydd y bydd arian ychwanegol at y bloc ar gael yn y flwyddyn ariannol bresennol?

Y Prif Weinidog: Mae nifer fawr o brosiectau adeiladu wde'i dechrau yn flwyddyn ariannol bresennol ac mae gwaith yn mynd rhagddo. Hoffwn atgoffa'r Aelod am yr hyn sydd wedi digwydd yng Nghymru. Mae'n gwybod bod pecyn wedi'i gyflwyno i hybu twf busnesau yng Nghymru; mae gennym becyn o £38.9 miliwn i ysgogi'r economi; mae £90 miliwn wedi'i wario fel cyllid cyfalaf o'r hyn a gadwyd yn ganolog; ac, ar ben hynny, mae gennym Dwf Swyddi Cymru, Sgiliau twf Cymru a chymorth i awdurdodau lleol i fenthylg arian.

Ieuan Wyn Jones: Mae'r Prif Weinidog wedi osgoi ateb y cwestiwn. Yr oedd y cwestiwn yn ymwneud â chael arian yn ychwanegol at y bloc. Mae'r ddau ohonom yn gwybod bod gwariant cyfalaf y Llywodraeth wedi cyrraedd £2 biliwn ychydig flynyddoedd yn ôl. Eleni, mae'r ffigur yn £1.3 biliwn, sy'n golygu bod llai o arian cyfalaf. Rydych chi wedi dweud eich bod chi am gael rhagor o arian cyfalaf tu hwnt i'r bloc. Serch hynny, yn hytrach na gweithredu, rydym wedi clywed am y cynllun buddsoddi isadeiledd a fydd wedi'i gyflwyno erbyn diwedd y flwyddyn, eich bod chi dal yn edrych ar ystod o gyfleoedd er mwyn sicrhau rhagor o arian cyfalaf, a'ch bod chi wedi cynnal arolwg pellach o'r polisi caffael. Mae hynny'n golygu eich bod chi'n dda iawn am oedi a chynnal archwiliadau, heb weithredu rhyw lawer. Brif Weinidog, rydych yn dweud taw chi sy'n gyfrifol yn bersonol am waith yr uned weithredu. Onid yw hi'n amser i'r uned ddechrau gweithredu?

Y Prif Weinidog: Petai'n wir i ddweud nad ydym yn gweithredu, ni fyddem wedi gweld nifer y bobl ddi-waith yn gostwng yn y ddau fis diwethaf. Mae hynny'n dangos bod polisiau'r Llywodraeth yn gweithio. Nid yw

give a positive response to the first question, First Minister. May I ask you therefore why the Government is so slow in bringing additional capital funds into the block in order to promote the construction and civil engineering sector? To date, not a single penny has been added and it is now a year since the election. Can you give us an assurance that funding in addition to the block will be made available in the current financial year?

The First Minister: There are many construction projects under way in the current financial year and work is ongoing. However, I remind the Member what has happened in Wales. He knows that a package has been put together to promote business growth in Wales; there is a stimulus package for the economy of £38.9 million; £90 million has been spent as capital funding from what was retained centrally; and, on top of that, there is Jobs Growth Wales, Skills Growth Wales and help for local authorities to borrow money.

Ieuan Wyn Jones: However, what the First Minister has done is avoid the question. The question was whether you will have additional funds to the block. We both know that, a few years back, the Government's capital expenditure was £2 billion. This year, it is £1.3 billion, which means that there is less capital funding available. You have said that you want more capital funding outwith the block. However, rather than action, we have been told that the infrastructure investment programme will be in place by the end of the year, that you are still looking at a range of opportunities to secure additional capital, and that you have conducted a further review of the procurement policy. That means that you are very good at delaying and carrying out inquiries but not so good at taking action. First Minister, you say that you are personally responsible for the action of the delivery unit. Is it not time for the delivery unit to start delivering?

The First Minister: Were it true that we are not taking action, we would not have seen the reduction in the number of unemployed people that we have in the past two months. This demonstrates that Government policies

hynny'n golygu nad oes modd i ffigurau newid yn y dyfodol, ond mae'n wir dweud bod y ffigurau diweithdra diweddaraf yng Nghymru yn well na'r rhai yn yr Alban. Yn fy marn i, mae popeth rydym wedi'i ddatgan wedi cael effaith yn barod, ac edrychwn ymlaen at glywed rhagor o ddatganiadau fel yr un cafodd ei wneud yr wythnos diwethaf ynglŷn â 600 o swyddi newydd yng Nghaerdydd gan Conduit.

The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies): First Minister, you recently announced that you will be going to the United States of America on a trade mission. Which airport will you be flying from?

The First Minister: I suspect that it will be Heathrow.

Andrew R.T. Davies: Thank you for that answer. Does that not mean that the case to establish a direct link from Cardiff airport is made by your remarks? The First Minister from Wales is unable to leave Cardiff airport to go on a trade mission to the United States. [*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order.

Andrew R.T. Davies: Your Government's report in the third Assembly identified that this link could be established for a rather modest sum of money with significant payback to the economy of south Wales. Will you not now pursue that case and establish a North American air link direct from Cardiff airport?

The First Minister: The Member is very correct to point out that I am not flying between Cardiff and New York direct, because there is no flight. That is something that we would like to see rectified, but the reality is that we would like to see many routes emerging from Cardiff airport, but the airport must get its act together—I have said this many times. Last week, I went to the airport and the main entrance was shut. People could not go in through the main entrance; they had to go through the side entrance. It is important that the airport puts itself in a position where it is attractive to new airlines, and, unfortunately, that is not

are working. That is not to say that figures will not change in the future, but it is true that Wales's latest unemployment statistics are better than those of Scotland. In my view, everything that we have announced has already had an effect, and we look forward to further announcements such as that made last week by Conduit of 600 new jobs in Cardiff.

Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies): Brif Weinidog, gwnaethoch gyhoeddi'n ddiweddar y byddwch yn mynd i Unol Daleithiau America ar daith fasnach. O ba faes awyr y byddwch yn hedfan?

Y Prif Weinidog: Rwyf yn amau y byddaf yn hedfan o Heathrow.

Andrew R.T. Davies: Diolch ichi am yr ateb hwnnw. Onid yw hynny'n golygu bod y ddadl dros sefydlu cyswllt uniongyrchol o faes awyr Caerdydd wedi ei gwneud gan eich sylwadau? Nid yw Prif Weinidog Cymru yn gallu gadael maes awyr Caerdydd i fynd ar daith fasnach i'r Unol Daleithiau. [*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn.

Andrew R.T. Davies: Nododd adroddiad eich Llywodraeth yn y trydydd Cynulliad y gellid sefydlu'r cyswllt hwn am swm cymharol fach o arian gyda budd sylweddol i economi de Cymru. Oni wnewch yn awr fynd ar drywydd hynny a sefydlu cyswllt awyr uniongyrchol i Ogledd America o faes awyr Caerdydd?

Y Prif Weinidog: Mae'r Aelod yn gwbl gywir i ddweud nad wyf yn hedfan yn uniongyrchol i Efrog Newydd o Gaerdydd, gan nad oes cyswllt uniongyrchol. Mae hynny'n rhywbeth yr hoffem ei weld, ond y gwir amdani yw y byddem yn hoffi gweld llawer o lwybrau yn tyfu o faes awyr Caerdydd, ond rhaid i'r maes awyr gael trefn arno'i hun—dywedais hyn sawl gwaith. Yr wythnos diwethaf, euthum i'r maes awyr ac roedd y brif fynedfa ar gau. Nid oedd pobl yn gallu mynd i mewn drwy'r brif fynedfa, a bu'n rhaid iddynt fynd drwy'r fynedfa ochr. Mae'n bwysig bod y maes awyr yn rhoi ei hun mewn sefyllfa lle mae'n atyniadol i

the case at present.

Andrew R.T. Davies: First Minister, you will know that a significant North American carrier would be ready to start that route tomorrow if the route establishment grant was forthcoming from the Welsh Government. The British Chamber of Commerce, in talking about inward investment, noted that 92% of business leaders from emerging markets in North America identified direct air links as a key factor to their considering investment in Wales and other parts of the United Kingdom. The chairman of the Scottish Government's council of economic advisers told Scottish Ministers that there is a need to increase the direct routing of aeroplanes into Scottish airports to increase its offering. If you look at Cardiff Business School, which has highlighted that our inward investment offering has become the second least attractive of the nations and regions of the United Kingdom, would you not agree with us that it is now a timely moment to seriously consider establishing a North American air link? Will you establish a time frame and say that the air link will be in place by the end of this Assembly term, as a report by the previous Government indicated that this route was viable?

The First Minister: We know that the route is not viable out of Bristol, because it was tried and it did not work. We know that, in order for the route to begin, it would cost several millions of pounds for it to be indemnified in the first few years of its life. There is much more work to do on the infrastructure of the airport, in my view, to make it attractive to airlines, rather than simply looking at bringing in new routes and paying for them. Ultimately, that does not create sustainable routes for the future. The Member talks about the fact that, in his words, we are not doing well with regard to investment. I wonder whether he would agree with the following comment that there are

'reasons for optimism and it is to be welcomed that there are signs of a growing resilience amongst small and medium enterprises in Wales'.

gwmniau awyrennau newydd, ond, yn anffodus, nid yw hynny'n wir ar y funud.

Andrew R.T. Davies: Brif Weinidog, gwyddoch y byddai cludwr sylweddol o Ogledd America yn barod i ddechrau'r llwybr hwnnw yfory pe bai grant sefydlu llwybr yn dod gan Lywodraeth Cymru. Nododd Siambr Fasnach Prydain, wrth sôn am fewnffuddsoddi, bod 92% o arweinwyr busnes o farchnadoedd sy'n dod i'r amlwg yng Ngogledd America wedi nodi bod cysylltiadau awyr uniongyrchol yn ffactor allweddol iddynt ystyried buddsoddi yng Nghymru a rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Dywedodd cadeirydd cyngor ymgynghorwyr economaidd Llywodraeth yr Alban wrth Weinidogion yr Alban fod angen cynyddu nifer y llwybrau awyrennau uniongyrchol i feysydd awyr yr Alban i wella ei gynnydd. Mae Ysgol Fusnes Caerdydd wedi amlygu mai ein cynnydd buddsoddiad mewnol yw'r ail leiaf atyniadol ymysg cenhedloedd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, felly oni fydddech yn cytuno â ni ei bod yn hen bryd edrych o ddirif ar sefydlu cyswllt awyr â Gogledd America? A wnewch chi sefydlu amserlen a dweud y bydd y cyswllt awyr yn ei le erbyn diwedd tymor y Cynulliad hwn, gan fod adroddiad gan y Llywodraeth flaenorol wedi dangos fod y llwybr hwn yn ymarferol?

Y Prif Weinidog: Gwyddom nad yw'r llwybr yn ymarferol allan o Fryste, gan iddo gael ei dreialu ac ni weithiodd. Er mwyn dechrau'r llwybr, gwyddom y byddai'n costio sawl miliwn o bunnoedd iddo gael indemnïad ym mlynnyddoedd cyntaf ei fywyd. Mae llawer mwy o waith i'w wneud ar isadeiledd y maes awyr, yn fy marn i, i'w wneud yn atyniadol i gwmniau awyrennau, yn hytrach na dim ond ystyried cyflwyno llwybrau newydd a thalu amdanynt. Yn y pen draw, nid yw hynny'n creu llwybrau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae'r Aelod yn dweud, yn ei eiriau ei hun, nad ydym yn gwneud yn dda o ran buddsoddi. Tybed a fyddai'n cytuno â'r sylw canlynol fod

rhesymau dros fod yn optimistaidd ac mae i'w groesawu bod arwyddion o wytnwch cynyddol ymhlith busnesau bach a chanolig yng Nghymru.

I hope that he agrees with that, because he said it.

The Presiding Officer: I call on Peter Black to ask questions on behalf of the Leader of the Welsh Liberal Democrats.

Peter Black: First Minister, as you know, many people are concerned about the effects of the closure by Betsi Cadwaladr University Local Health Board of minor injuries units in Colwyn Bay and Flint. On 17 January, during First Minister's questions, you said:

'It is not at all to do with finance'

and

'That was not done as a result of a financial problem'.

Do you stand by that assessment?

The First Minister: Yes.

Peter Black: Thank you for that answer, First Minister. You will know that north Wales Assembly Members received notification from Betsi Cadwaladr LHB of the closures on 21 December, and that the closures took effect the next day with no additional notice to the community health council. The letter said that

'the expected rise in demand over winter combined with issues with recruitment, staff sickness and the financial position mean that action must be taken'.

This letter directly contradicts your statement that these closures are not driven by financial problems. Do you still stand by your statement?

1.45 p.m.

The First Minister: They are driven by recruitment, which is what the letter actually said. Having read it out yourself, you will know that. The reality is that there are severe problems in recruiting accident and emergency staff in Wales, although not just those staff. I know of one vacancy in Prince Philip Hospital in Llanelli that had to be advertised five times. It took a year to fill the

Rwyf yn gobeithio ei fod yn cytuno â hynny, gan mai ei eiriau ef oeddent.

Y Llywydd: Galwaf ar Peter Black i ofyn cwestiynau ar ran Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

Peter Black: Brif Weinidog, fel y gwyddoch, mae llawer o bobl yn poeni am effaith cau unedau mân anafiadau ym Mae Colwyn a'r Fflint gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. Ar 17 Ionawr, yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog, dywedasoch:

'Nid yw'n ymwneud â chyllid o gwbl'

a

'Nid problem ariannol a oedd yn gyfrifol'.

A ydych yn glynu wrth yr asesiad hwnnw?

Y Prif Weinidog: Ydw.

Peter Black: Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Byddwch yn gwybod bod Aelodau Cynulliad y gogledd wedi cael hysbysiad gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr am y cau ar 21 Rhagfyr, a bod y cau wedi digwydd y diwrnod canlynol heb unrhyw hysbysiad ychwanegol i'r cyngor iechyd cymuned. Mae'r llythyr yn dweud bod

y cynnydd disgwylidig yn y galw dros y gaeaf, ynghyd â materion recriwtio, salwch staff a'r sefyllfa ariannol yn golygu bod yn rhaid gweithredu.

Mae'r llythyr hwn yn gwrth-ddweud yn uniongyrchol eich datganiad nad yw'r cau yn cael ei gymell gan broblemau ariannol. A ydych yn dal yn glynu wrth eich datganiad?

Y Prif Weinidog: Maent yn cael eu cymell gan recriwtio, sef yr hyn a ddywedodd y llythyr mewn gwirionedd. Gan eich bod wedi ei ddarllen eich hun, byddwch yn gwybod hynny. Y gwir amdani yw bod problemau dirfawr o ran recriwtio staff damweiniau ac achosion brys yng Nghymru, ond nid y staff hynny yn unig. Gwn am un swydd wag yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn Llanelli yr oedd

vacancy even though it was advertised across the world. It has nothing to do with money; it has to do with the fact that there are vacancies that remain unfilled. That is why we have launched a recruitment campaign in order to make Wales more attractive to senior practitioners and accident and emergency doctors in particular. There is a shortage of accident and emergency doctors across the whole of the UK at the moment.

Peter Black: Thank you for that, First Minister. I understand the issue with regard to recruitment, but the letter did specifically refer to the financial position and you know that two further minor injury units in south-west Wales—in Tenby and Pembroke Dock—have been closed since the new year. They are now due to reopen on the first day of the financial year in April. Are we supposed to believe that these closures are not due to financial issues?

The First Minister: The Member himself has read out a letter in which recruitment is identified as an issue that has caused the closure of these accident and emergency departments. So, that is about recruitment, exactly as I said it was, and not finance. The reality of the situation is that we have many vacancies in the NHS in Wales that are fully financed but we do not have the people to fill them, which is why we have launched the recruitment campaign.

Ffyniant Economaidd Canolbarth a Gorllewin Cymru

3. William Powell: *Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o ffyniant economaidd Canolbarth a Gorllewin Cymru. OAQ(4)0388(FM)*

The First Minister: Over the short to medium term, the performance of Mid and West Wales is heavily influenced by wider economic conditions, but we do keep the economic performance of all parts of Wales under review on an ongoing basis.

William Powell: Thank you for that answer, First Minister. I am sure that you will agree with me that an up-to-date and fit-for-purpose

yn rhaid ei hysbysebu bum gwaith. Cymerodd flwyddyn i lenwi'r swydd wag er iddi gael ei hysbysebu ledled y byd. Nid oes ganddo ddim i'w wneud ag arian; mae'n ymwneud â'r ffaith bod swyddi gwag o hyd heb eu llenwi. Dyna pam rydym wedi lansio ymgyrch recriwtio er mwyn gwneud Cymru yn fwy deniadol i uwch ymarferwyr a meddygon damweiniau ac achosion brys yn benodol. Mae prinder meddygon damweiniau ac achosion brys ledled y DU gyfan ar hyn o bryd.

Peter Black: Diolch ichi am hynny, Brif Weinidog. Rwyf yn deall y mater ynghylch recriwtio, ond roedd y llythyr yn cyfeirio'n benodol at y sefyllfa ariannol, a gwyddoch fod dwy uned mân anafiadau yn ne-orllewin Cymru—yn Ninbych y Pysgod a Doc Penfro—wedi bod ar gau ers y flwyddyn newydd. Maent yn ailagor yn awr ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn ariannol ym mis Ebrill. A ydym i fod i gredu nad yw'r rhain wedi cau oherwydd materion ariannol?

Y Prif Weinidog: Mae'r Aelod ei hun wedi darllen llythyr sy'n nodi recriwtio fel mater sydd wedi peri i'r adrannau damweiniau ac achosion brys hyn gau. Felly, mae hynny'n ymwneud â recriwtio, yn union fel y dywedais ei fod, ac nid â chyllid. Y gwir amdani yw bod sawl swydd wag yn y GIG yng Nghymru wedi eu hariannu'n llawn, ond nid oes gennym y bobl i'w llenwi, a dyna pam rydym wedi lansio'r ymgyrch recriwtio.

The Economic Vibrancy of Mid and West Wales

3. William Powell: *What assessment has the First Minister made of the economic vibrancy of Mid and West Wales. OAQ(4)0388(FM)*

Y Prif Weinidog: Yn ystod y tymor byr i'r tymor canolig, mae perfformiad Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cael ei ddylanwadu'n drwm gan amodau economaidd ehangach, ond rydym yn cadw perfformiad economaidd bob rhan o Gymru o dan adolygiad parhaus.

William Powell: Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno â mi fod polisi

energy generation policy is a vital ingredient in promoting economic growth. This morning at the meeting of the Petitions Committee at the University of Wales Trinity Saint David in Carmarthen, we were presented with a copy of a letter from your successor as Minister for environment, Jane Davidson, to our colleague Rhodri Glyn Thomas, written in 2009, which promised a full review of technical advice note 8 with an extensive public consultation. When will that review take place?

The First Minister: TAN 8 has very little effect on, for example, the plans for larger windfarms in Powys. The UK Government has made it clear that it will use the national planning policy statement, which could put windfarms anywhere, even in the national parks. We do not support that. We take the view that planning policy in Wales should be devolved for renewable energy projects up to 100 MW. That remains our position; I do not see why Wales should be disadvantaged compared to the rest of the UK.

Rebecca Evans: First Minister, wildlife tourism can help to promote economic vibrancy and provides a strong economic incentive to protect and invest in biodiversity. How is the Welsh Government promoting wildlife tourism in Mid and West Wales?

The First Minister: The attraction of Wales's natural environment is fully integrated into Visit Wales's marketing activities for Wales as a whole. For example, the front page of the Visit Wales website has a link to information on our national parks and wildlife.

Paul Davies: Rwy'n falch bod eich Llywodraeth wedi cydnabod bywiogrwydd economi rhan o'm hetholaeth drwy glustnodi'r Hafan, o amgylch Aberdaugleddau, fel ardal fenter posibl. Rwy'n deall fod y Gweinidog busnes ar hyn o bryd mewn trafodaethau â rhanddeiliaid eraill ynglŷn â'r mater, ond bydd sefydlu ardal fenter yn hanfodol i'r economi lleol. A

cynhyrchu ynni sydd wedi ei ddiweddarau ac sy'n addas at y diben yn elfen hanfodol o hyrwyddo twf economaidd. Y bore yma yng nghyfarfod y Pwyllgor Deisebau ym Mhrifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin, cyflwynwyd copi i ni o lythyr gan eich rhagflaenydd fel Gweinidog yr amgylchedd, Jane Davidson, i'n cyd-Aelod, Rhodri Glyn Thomas, a ysgrifennwyd yn 2009, a oedd yn addo cynnal adolygiad llawn ar nodyn cyngor technegol 8 gydag ymgynghoriad cyhoeddus helaeth. Pryd fydd yr adolygiad hwnnw'n digwydd?

Y Prif Weinidog: Nid yw TAN 8 yn cael fawr o effaith ar, er enghraifft, y cynlluniau ar gyfer ffermydd gwynt mwy ym Mhowys. Mae Llywodraeth y DU wedi ei gwneud yn glir y bydd yn defnyddio'r datganiad polisi cynllunio cenedlaethol, a allai arwain at roi ffermydd gwynt yn unrhyw le, hyd yn oed yn y parciau cenedlaethol. Nid ydym yn cefnogi hynny. Rydym o'r farn y dylai polisi cynllunio yng Nghymru gael ei ddatganoli ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy hyd at 100 MW. Dyna yw ein safbwynt o hyd; ni welaf pam y dylai Cymru fod o dan anfantais o'i chymharu â gweddill y DU.

Rebecca Evans: Brif Weinidog, gall twristiaeth bywyd gwyllt helpu i hyrwyddo bywiogrwydd economaidd ac mae'n rhoi cymhelliad economaidd cryf i warchod a buddsoddi mewn bioamrywiaeth. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo twristiaeth bywyd gwyllt yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

Y Prif Weinidog: Mae atyniad amgylchedd naturiol Cymru wedi cael ei integreiddio'n llawn yng ngweithgareddau marchnata Croeso Cymru ar gyfer Cymru gyfan. Er enghraifft, mae tudalen flaen gwefan Croeso Cymru yn cynnwys linc i wybodaeth am ein parciau cenedlaethol a bywyd gwyllt.

Paul Davies: I am pleased that your Government has recognised the vibrancy of part of my constituency by delineating the Haven, around Milford Haven, as a possible enterprise zone. I understand that the Minister for business is currently in discussions with other stakeholders about this issue, but establishing an enterprise zone will be crucial to the local economy. Can the First

all y Prif Weinidog gadarnhau y bydd ef a'i Lywodraeth yn gwneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau y bydd hyn yn digwydd? Hefyd, efallai gall roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr am gynnydd y trafodaethau sydd wedi'u cynnal hyd yn hyn.

Y Prif Weinidog: Rydym wedi cynnal trafodaethau gyda nifer o adrannau, yn enwedig yn Whitehall, ac mae'r mater hwn yn symud yn ei flaen. Gwyddom pa mor bwysig yw cael ardal fenter fel hon yn aber y ddau Gleddau—os gallaf ei alw'n hynny; nid y dref ond yr ardal—er mwyn sicrhau dyfodol i'r economi hwnnw.

Simon Thomas: Brif Weinidog, un o'r problemau sy'n wynebu busnesau yn y rhanbarth hon yw benthyg gan fanciau. Mae benthyg gan fanciau'r stryd fawr yn broblem o hyd, yn enwedig i fusnesau bach. Pa gamau rydych yn eu cymryd fel Llywodraeth i wella'r sefyllfa hon? A ydych yn edrych ar y posibilrwydd o sefydlu banc busnes amgen ar lefel gydweithredol a fydd yn galluogi busnesau Cymru i fenthyg i'w gilydd?

Y Prif Weinidog: Rwyf wedi darllen yr erthygl hwn ar WalesHome, felly rwy'n gwybod beth sydd ynddo. Un peth diddorol, er na fyddwn wedi ei ddisgrifio fel cronfa cyfoeth sofran, efallai, fyddai ystyried cronfa cysylltiedig â phrosiectau ynni yng Nghymru i sicrhau lles cymunedol. Mae hynny'n rhywbeth rydym yn cyd-fynd arno o ran sicrhau bod pobl Cymru yn gweld arian yn sgîl datblygiadau ynni yng Nghymru.

Blaenoriaethau ar gyfer y Gogledd

4. Mark Isherwood: *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer gogledd Cymru dros y chwe mis nesaf. OAQ(4)0384(FM)*

The First Minister: They are to implement the programme for government.

Mark Isherwood: I am sure that one of your priorities will relate to the effective working of local government, with the local government elections so near to us now. How, therefore, do you respond to the Public Services Ombudsman for Wales's decision at the end of last week to drop a case against

Minister therefore confirm that he and his Government will do everything in their power to ensure that this does happen? Perhaps he could also give the Chamber an update on the progress of the discussions that have taken place to date.

The First Minister: We have held discussions with a number of departments, in Whitehall in particular, and this is being progressed. We know how important it is to have an enterprise zone such as this in the Haven—that is, not Milford Haven the town, but the area—in order to ensure the future of that economy.

Simon Thomas: First Minister, one of the problems facing businesses in this region is borrowing from banks. Borrowing from high street banks is still a problem, particularly for small businesses. What steps are you taking as a Government to improve this situation? Are you looking at the possibility of establishing an alternative business bank at a co-operative level that will enable Welsh businesses to lend to each other?

The First Minister: I have read this article on WalesHome. One interesting thing, although I would not necessarily have described it as a sovereign wealth fund, would be to consider the creation of a fund related to energy projects in Wales in order to ensure community benefits. We agree with that in terms of ensuring that the people of Wales see money from energy projects in Wales.

Priorities for North Wales

4. Mark Isherwood: *Will the First Minister outline his priorities for north Wales for the next six months. OAQ(4)0384(FM)*

Y Prif Weinidog: Y flaenoriaeth yw gweithredu'r rhaglen lywodraethu.

Mark Isherwood: Rwyf yn siŵr y bydd un o'ch blaenoriaethau yn ymwneud â sicrhau bod llywodraeth leol yn gweithredu'n effeithiol, o ystyried bod etholiadau llywodraeth leol mor agos atom bellach. Sut, felly, rydych yn ymateb i benderfyniad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

Anglesey councillor Elwyn Schofield on the grounds that the evidence was contradictory and largely uncorroborated? This case was brought by the Welsh Government-appointed former interim managing director, who also produced terms of engagement, obliging council group leaders to sign them, which forced them to publicly and robustly condemn this councillor and other named councillors. That ultimately led to the appointment of commissioners, the postponement of local elections and drastic local boundary changes.

The First Minister: I do not wish to comment on something that has been done by the ombudsman or findings made by the ombudsman. Ultimately, that is a matter for the local authority involved.

Kenneth Skates: First Minister, a recent report by the Daycare Trust has highlighted that nursery costs across the UK have risen by nearly 6% in the last year, and that the average cost for a 25-hour week of part-time care now exceeds £100 in some parts of Wales. The study also found that there is a particular lack of childcare for disabled children and parents who work outside normal working hours. More than half of local authorities said that parents had reported a shortage in childcare in the previous 12 months. With fewer families getting help with childcare bills as a result of the UK Government's cuts to tax credits, what is the Welsh Government doing to support hard-working families in areas such as north-east Wales and, in general, the Welsh economy through more affordable healthcare?

The First Minister: In our childcare policy statement, 'Nurturing Children, Supporting Families', we made clear a commitment to improving the quality, affordability and accessibility of childcare in Wales, and we are investing £55 million of additional funding, as well as £6 million in capital funding, to expand the Flying Start programme, in accordance with our manifesto.

Cymru ddiwedd wythnos diwethaf i ollwng achos yn erbyn cynghorydd yn Ynys Môn, Elwyn Schofield, ar y sail bod y dystiolaeth yn anghyson a heb ei chadarnhau i raddau helaeth? Cafodd yr achos hwn ei ddwyn gan gyn-gyfarwyddwr rheoli dros dro Llywodraeth Cymru, a wnaeth lunio telerau ymgysylltu hefyd. Gorfododd arweinwyr grwpiau'r cyngor i'w llofnodi ac roeddent yn eu gorfodi i gondemnio'r cynghorydd hwn a chynghorwyr eraill a enwyd yn gyhoeddus a chadarn. Arweiniodd hynny yn y pen draw at benodi comisynwyr, gohirio etholiadau lleol a newidiadau sylweddol i ffiniau lleol.

Y Prif Weinidog: Nid wyf am wneud sylw am rywbeth a wnaed gan yr ombwdsmon neu am ganfyddiadau'r ombwdsmon. Yn y pen draw, mae hynny'n fater i'r awdurdod lleol o dan sylw.

Kenneth Skates: Brif Weinidog, tynnodd adroddiad diweddar gan y Daycare Trust sylw at y ffaith bod costau gofal meithrin ledled y DU wedi codi bron i 6% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a bod y gost ar gyfartaledd ar gyfer wythnos 25 awr o ofal rhan-amser bellach yn fwy na £100 mewn rhai rhannau o Gymru. Canfu'r astudiaeth hefyd fod diffyg penodol o ran gofal i blant anabl a rhieni sy'n gweithio y tu allan i oriau gwaith arferol. Dywedodd mwy na hanner o awdurdodau lleol bod rhieni'n dweud bod prinder gofal plant yn y 12 mis blaenorol. Gyda llai o deuluoedd yn cael help gyda biliau gofal plant o ganlyniad i doriadau Llywodraeth y DU i gredydau treth, beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi teuluoedd sy'n gweithio'n galed mewn ardaloedd megis gogledd-ddwyrain Cymru ac, yn gyffredinol, economi Cymru drwy ddarparu gofal iechyd mwy fforddiadwy?

Y Prif Weinidog: Yn ein datganiad polisi gofal plant, 'Meithrin Plant, Cefnogi Teuluoedd', rydym yn gwneud ymrwymiad clir i wella ansawdd, fforddiadwyedd a hygrychedd gofal plant yng Nghymru, ac rydym yn buddsoddi £55 miliwn o arian ychwanegol, yn ogystal â £6 miliwn o gyllid cyfalaf, i ehangu'r rhaglen Dechrau'n Deg, yn unol â'n manifesto.

The Presiding Officer: In north Wales.

Y Llywydd: Yn y gogledd.

The First Minister: Across Wales, of which north Wales is a part, Llywydd.

Y Prif Weinidog: Ledled Cymru, ac y mae gogledd Cymru yn rhan ohoni, Lywydd.

Llyr Huws Gruffydd: Wrth ymweld â nifer o fusnesau ar draws gogledd Cymru dros y misoedd diwethaf, mae pwnc ardrethi busnes wedi cael ei godi gyda mi ac wedi bod yn flaenllaw. Y pwynt penodol oedd bod y lefel o werth ardrethiannol i fod yn gymwys ar gyfer rhyddhad adrethi yn rhy isel. Pa ystyriaeth mae'r Llywodraeth wedi ei rhoi i ehangu'r cynllun i gynnwys busnesau sydd â gwerth ardrethiannol uwch? Mae'r neges glir yw y bydd nifer o fusnesau, siopau yng nghanol trefi yn enwedig, yn annhebygol o oroesi heb y fath gefnogaeth.

Llyr Huws Gruffydd: In visiting a number of businesses across north Wales over the past few months, the issue of business rates has been raised with me and has been very prominent. The specific point was that the level of rateable value to qualify for rate relief is too low. What consideration has the Government given to expanding the rate relief scheme to include businesses with a higher rateable value? The clear message is that many businesses, shops in town centres in particular, are unlikely to survive without such support.

Y Prif Weinidog: Rydym wedi rhoi cefnogaeth i fusnesau bach dros y blynyddoedd ac roedd datganiad ynglŷn â hynny yn ystod y gyllideb cyn Nadolig. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni ystyried y ffaith bod llai o arian ar gael i ehangu'r cynllun yn y ffordd y byddai'r Aelod yn ei hoffi.

The First Minister: We have given support to small businesses over the years, and there was a statement on that made during the budget before Christmas. However, we have to consider that there is less money available now to expand the scheme in the way that the Member would wish.

Gwasanaethau Iechyd

Health Services

5. Paul Davies: *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella gwasanaethau iechyd yng ngorllewin Cymru. OAQ(4)0385(FM)*

5. Paul Davies: *What is the Welsh Government doing to improve health services in west Wales. OAQ(4)0385(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae ein cynlluniau a'n blaenoriaethau ar gyfer y gwasanaeth iechyd ar draws Cymru ar gael yn ein rhaglen lywodraethu.

The First Minister: Our plans and priorities for the health service for the whole of Wales can be found in our programme for government.

Paul Davies: Cefais yr anrhydedd yn ddiweddar o noddi digwyddiad yn y Senedd ynglŷn ag arthritis gwynegol. Un o'r materion a godwyd yn y digwyddiad hwn oedd bod cleifion sydd yn byw mewn ardaloedd gwledig yn tueddu wynebu teithiau hir i gael mynediad at y driniaeth briodol. Rwy'n derbyn bod adolygiad ar hyn o bryd o wasanaethau, ond rwy'n siŵr bod y Prif Weinidog yn cytuno ei fod yn hanfodol bod gwasanaethau fel hyn ar gael i bobl gyda chlefydau fel hyn yn lleol. A all y Prif Weinidog ddweud wrthym beth mae ef a'i Lywodraeth yn ei wneud i sicrhau nad yw cleifion sy'n byw mewn ardal wledig fel sir

Paul Davies: I had the privilege recently of sponsoring an event here in the Senedd on rheumatoid arthritis. One issue that was raised in the event was that patients in rural areas tend to face long journeys to access appropriate treatment. I accept that there is a review of services under way, and I am sure that the First Minister would agree that it is crucial that such services are available to people with such conditions locally. Can the First Minister tell us what he and his Government are doing to ensure that patients living in rural areas such as Pembrokeshire are not disadvantaged because of their geographical location?

Benfro dan anfantais oherwydd eu lleoliad daearyddol?

Y Prif Weinidog: Mae cynlluniau ad-drefnu yn cael eu hystyried yn gyhoeddus ar hyn o bryd. Bydd unrhyw gynlluniau yn cael eu ystyried gan ddoctoriaid eu hunain drwy'r fforwm clinigol a chan Gweinidogion Cymru. Rydym wastad yn anelu at sicrhau'r gwasanaeth mwyaf lleol, gan gofio bod rhaid iddo fod yn dda.

Rebecca Evans: First Minister, I welcome the Welsh Government's action to address the serious medical staff recruitment challenges in Wales. I also welcome the Government's new focus on workforce planning. How do you envisage that alleviating the particular staffing issues in west Wales?

The First Minister: Members will have heard me say on several occasions that it has been the case for many years that it is difficult to attract staff further west. That has been the case for many years. It is not something that this Government wants to remain the case, which is why, as I have already mentioned in the Chamber this afternoon, we have launched a recruitment campaign to attract senior staff in particular to hospitals in south Wales west of Morriston, which has historically been very difficult to do. In that way, we will be able to secure the future of services in the longer term.

Hosbisau

6. Antoinette Sandbach: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i hosbisau yng ngogledd Cymru. OAQ(4)0375(FM)*

The First Minister: We support independent hospices in Wales, including five in north Wales, with central funding to meet the cost of core specialist consultant-led palliative and end-of-life care services that they provide on behalf of the NHS.

Antoinette Sandbach: Claire House Children's Hospice provides an invaluable service for families in north Wales, providing

The First Minister: Reconfiguration schemes are currently being considered publicly. Any schemes will be considered by doctors themselves through the clinical forum and by Welsh Ministers. We always look to ensure the most local service possible, bearing in mind that it must be a good service.

Rebecca Evans: Brif Weinidog, rwyf yn croesawu camau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r heriau difrifol o ran recriwtio staff meddygol yng Nghymru. Rwyf hefyd yn croesawu ffocws newydd y Llywodraeth ar gynllunio'r gweithlu. Sut rydych yn rhagweld y bydd hynny'n lliniaru'r materion staffio penodol yn y gorllewin?

Y Prif Weinidog: Bydd yr Aelodau wedi fy nghlywed yn dweud droeon y bu'n anodd denu staff ymhellach i'r gorllewin ers nifer o flynyddoedd. Bu hynny'n wir ers nifer o flynyddoedd. Nid yw'n rhywbeth y mae'r Llywodraeth yn awyddus i'w weld yn parhau, a dyna pam, fel rwyf wedi sôn eisoes yn y Siambr y prynhawn yma, rydym wedi lansio ymgyrch recriwtio i ddenu staff uwch yn benodol i ysbytai'r de i'r gorllewin o Dreforys, a fu'n anodd iawn i'w wneud yn hanesyddol. Yn y ffordd honno, byddwn yn gallu sicrhau dyfodol gwasanaethau yn y tymor hwy.

Hospices

6. Antoinette Sandbach: *Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's support for hospices in north Wales. OAQ(4)0375(FM)*

Y Prif Weinidog: Rydym yn cefnogi hosbisau annibynnol yng Nghymru, gan gynnwys pump yn y gogledd, gyda chyllid canolog i dalu costau gwasanaethau arbenigol craidd ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd bywyd o dan arweiniad ymgynghorwyr a ddarperir ganddynt ar ran y GIG.

Antoinette Sandbach: Mae hosbis plant Claire House yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i deuluoedd yn y gogledd, gan

care at the hospice and in the community through its hospice-to-home scheme. However, despite regularly providing care that saves the Welsh NHS considerable sums each year, it has not received a penny from your Government in the past two years. First Minister, will you agree to visit Claire House hospice to thank it for the excellent work being done there, and will your Government give consideration to providing paediatric palliative care funding through the health board that would follow the child, giving families a choice in where care is provided?

The First Minister: Well, we would not fund Claire House, because it is not in Wales. Clearly, that puts a limit on what funding we could provide. The hospice does provide a service to a very small number of children from north Wales, specifically those on the eastern border—the average is around two per annum, but referrals are made as and when patient needs arise. It is right to say that the main provider of children’s palliative care is Hope House in Conwy, as well as in Oswestry. There is provision to enable children from the north of Wales to go to Claire House, but funding a hospice that is outside Wales would not be within the realm of this Government.

Alun Ffred Jones: Â siarad o brofiad personol, rwyf wedi gweld gwerth y gofal lliniarol a gynigir gan y gwahanol fathau o hosbisau, boed hynny’n ofal yn y cartref neu ofal ysbaid. Yr hyn sy’n amlwg yw bod diffyg cysondeb hyd yn oed ar draws gogledd Cymru yn y ddarpariaeth. Cafodd hynny ei danlinellu’r bore yma mewn cyfarfod grŵp trawsbleidiol, lle cafwyd yr un math o apêl. Felly, os mai gwasanaeth cenedlaethol yw’r gwasanaeth iechyd, a gofal lliniarol yn rhan allweddol ohono, pryd y gallwn ddisgwyl cysondeb ar draws Cymru ac ar draws y gogledd yn y maes arbennig hwn?

Y Prif Weinidog: Mae adroddiad, ‘Marw gydag Urddas’, sydd wedi ystyried y gwaith sylweddol sydd wedi digwydd i helpu pobl sydd yn y sefyllfa hon. Mae’r ffocws yn awr ar sicrhau ein bod yn edrych ar helpu pobl fel plant sydd wedi colli rhieni a’r rhai sydd o bosibl wedi llithro drwy’r rhwyd o ran yr help oedd ar gael.

ddarparu gofal yn yr hosbis a’r gymuned drwy ei gynllun o’r hosbis i’r cartref. Fodd bynnag, er y ffaith ei fod yn darparu gofal yn rheolaidd sy’n arbed symiau sylweddol i GIG Cymru bob blwyddyn, nid yw wedi cael ceiniog gan eich Llywodraeth yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Brif Weinidog, a wnewch chi gytuno i ymweld â hosbis Claire House i ddiolch iddi am y gwaith rhagorol sy’n cael ei wneud yno, ac a wnaiff eich Llywodraeth ystyried darparu cyllid gofal lliniarol pediatriig drwy’r bwrdd iechyd a fyddai’n dilyn y plentyn, gan roi dewis i deuluoedd o ran lle y mae’r gofal yn cael ei ddarparu?

Y Prif Weinidog: Wel, ni fyddem yn ariannu Claire House, gan nad yw yng Nghymru. Yn amlwg, mae hynny’n cyfyngu ar yr arian y gallem ei ddarparu. Mae’r hosbis yn darparu gwasanaeth i nifer fach iawn o blant o’r gogledd, yn benodol y rhai ar y ffin ddwyreiniol—y cyfartaledd yw tua dau y flwyddyn, ond mae atgyfeiriadau’n cael eu gwneud yn ôl anghenion cleifion. Mae’n gywir dweud mai’r prif ddarparwr gofal lliniarol i blant yw Tŷ Gobaith yng Nghonwy, yn ogystal ag yng Nghroesoswallt. Mae darpariaeth i alluogi plant o’r gogledd i fynd i Claire House, ond ni fyddai ariannu hosbis sydd y tu allan i Gymru o fewn gallu’r Llywodraeth hon.

Alun Ffred Jones: Speaking from personal experience, I have seen the value of the palliative care provided by various hospices, be it home care or respite care. It has become apparent that there is a lack of consistency even across north Wales in the provision. That was highlighted this morning in a cross-party group meeting in which the same kind of appeal was made. Therefore, if the health service is a national service, and palliative care is a crucial part of that, when can we expect to see consistency across Wales and across north Wales in this particular area?

The First Minister: There is a report, ‘Dying Well Matters’, which has considered the significant amount of work to help people in this situation. The focus now is on ensuring that we look at helping people such as children who have lost their parents and those who have perhaps fallen through the net in terms of the help available.

O ran cyllido, mae arian sylweddol ar gael i hosbisau, ac rydym eisiau sicrhau bod yr adroddiad y soniais amdano yn cael ei gario drwodd a'i gwblhau.

Regarding funding, significant amounts of funds are available for hospices, and we want to ensure that the report that I referred to earlier is carried out and fulfilled.

Blaenoriaethau ar gyfer y GIG

Priorities for the NHS

7. Elin Jones: *Beth yw blaenoriaethau'r Prif Weinidog ar gyfer y GIG yng Nghymru. OAQ(4)0374(FM)*

7. Elin Jones: *What are the First Minister's priorities for the NHS in Wales. OAQ(4)0374(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae'r blaenoriaethau ar gael yn ein rhaglen lywodraethu.

The First Minister: The priorities can be found in our programme for government.

Elin Jones: Brif Weinidog, cyn etholiad y llynedd, gwnaethoch gyhuddo Plaid Cymru o godi bwganod pan wnaethom rybuddio am y posibilrwydd o israddio ysbytai cyffredinol. Mae o leiaf llond wyth bws o bobl o Aberystwyth, Llanidloes, Machynlleth a Thywyn yn dod i risiau'r Senedd yfory—nid oes un o'r bysys hynny, gyda llaw, wedi cael ei drefnu gan Blaid Cymru—a'u pryder hwy yw cynlluniau i israddio a chanoli gwasanaethau oddi wrth Ysbyty Cyffredinol Bronglais. A fyddwch chi hefyd yn cyhuddo'r wyth llond bws o bobl hynny—a mwy—o godi bwganod yfory?

Elin Jones: First Minister, before the election last year, you accused Plaid Cymru of scaremongering when we warned about the possibility of downgrading general hospitals. At least eight busloads of people from Aberystwyth, Llanidloes, Machynlleth and Towyn will be coming to the steps of the Senedd tomorrow—none of those buses are organised by Plaid Cymru, by the way—and their concerns are around plans to downgrade and centralise services from Bronglais General Hospital. Will you also be accusing those eight buses full of people—and more—of scaremongering tomorrow?

2.00 p.m.

Y Prif Weinidog: Rydych yn dal i godi bwganod fel plaid. Rydych chi'n dal i wneud hynny. Beth yw'r gwir am y sefyllfa? Mae cynlluniau wedi eu doddi o flaen pobl sy'n cael eu hystyried yn gyhoeddus ar hyn o bryd. Bydd doctoriaid yn edrych ar unrhyw gynlluniau ac, wrth gwrs, bydd Gweinidogion yn gwneud hefyd. Hoffwn wneud un peth yn gwbl glir i'r Aelod: ni fyddwn ni byth, fel Llywodraeth, yn cadarnhau neu'n cefnogi unrhyw wasanaeth os nad yw'n saff. Byddaf yn dweud hynny yn Saesneg hefyd.

The First Minister: You are still scaremongering as a party. You are continuing to do so. What is the truth of the matter? Plans have been set out in front of people that are being considered publicly at the moment. Doctors will look at any plans and, of course, Ministers will also do so. I would like to make one thing completely clear to the Member: we would never, as a Government, confirm or support any service that was not safe. I will say that in English as well.

We would never, as a Government, support a service that would put patients' safety at risk.

Ni fyddai'r Llywodraeth fyth yn cefnogi gwasanaeth sy'n peryglu diogelwch cleifion.

Rydym ni i gyd yn deall beth yw dalgyloch Bronglais. Ar hyn o bryd, mae buddsoddiad yn cael ei roi i mewn i Fronglais ar gyfer adran argyfwng newydd ac adran famolaeth newydd. A yw'r Aelod wir yn dweud wrth bobl Cymru, ar ôl y buddsoddiad sydd wedi'i

We all understand Bronglais's catchment area. At the moment, investment is being made in Bronglais in a new emergency department and a new maternity department. Is the Member really telling the people of Wales that, after the investment that has been

wneud gan Lywodraeth Cymru, y bydd yr adrannau hynny yn cau? A yw hi wir yn dweud hynny wrth bobl Ceredigion? Rydym yn gwybod bod cystadleuaeth ar gyfer arweinyddiaeth Plaid Cymru ar hyn o bryd. Rwy hefyd yn deall bod etholiadau lleol yn digwydd yng Ngheredigion, ond er mwyn y tad, dywedwch y gwir wrth bobl.

Jenny Rathbone: The four-hour waiting time target for accident and emergency departments is seen by some health boards as a perverse incentive to keep people waiting in ambulances before being allocated a place in accident and emergency departments. There was a case of that in the local press in Cardiff last week. What can the Welsh Government do about this, given that it is a poor use of ambulances' time?

The First Minister: It is a priority for us. It is important that health boards work in joint partnership with the Welsh Ambulance Services NHS Trust to reduce the number of delays. Unfortunately, there will be occasions when there is a delay in handing over patients to hospital staff, although we recognise that excessive patient handover delays are unacceptable.

Russell George: A number of buses are coming to the Senedd from my constituency tomorrow concerning the same issue, First Minister. As regards the health reforms in Hywel Dda Local Health Board, the board seems reluctant to engage properly with the public. It has not held any stakeholder listening exercises in north Powys, which has effectively disenfranchised thousands of people in my constituency who rely heavily on Bronglais. In a public meeting that I attended the other week, over 500 people voted to call on the Minister for health to authorise the preparation of a health service for mid Wales in mid Wales. Would you agree with them, First Minister?

The First Minister: The problem with that is that you are suggesting that people in Welshpool would have to go to Bronglais. That clearly is not the intention and I doubt

made by the Welsh Government, those departments will close? Is she really telling the people of Ceredigion that? We know that there is a competition for the leadership of Plaid Cymru at the moment. I also understand that there are local government elections taking place in Ceredigion, but for goodness' sake, tell people the truth.

Jenny Rathbone: Mae rhai byrddau iechyd yn ystyried y targed amser aros o bedair awr ar gyfer adrannau damweiniau ac achosion brys yn gymhelliad gwrthnysig i gadw pobl mewn ambiwlansys cyn rhoi lle iddynt mewn adrannau damweiniau ac achosion brys. Roedd achos o'r fath yn y wasg leol yng Nghaerdydd yr wythnos diwethaf. Beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud am hyn, o ystyried ei fod yn ddefnydd gwael o amser ambiwlansys?

Y Prif Weinidog: Mae hynny'n flaenoriaeth i ni. Mae'n bwysig bod byrddau iechyd yn gweithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru i leihau nifer yr achosion o oedi. Yn anffodus, bydd achlysuron pan fydd oedi wrth drosglwyddo cleifion i staff yr ysbyty. Serch hyn, rydym yn cydnabod bod oedi gormodol wrth drosglwyddo cleifion yn annerbyniol.

Russell George: Mae nifer o fysiau yn dod o fy etholaeth i'r Senedd yfory ynghylch yr un mater, Brif Weinidog. O ran y diwygiadau iechyd ym Mwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, ymddengys nad yw'r bwrdd yn barod i ymgysylltu'n briodol â'r cyhoedd. Nid yw'r bwrdd wedi cynnal unrhyw ymarferion gwranddo gyda rhanddeiliaid yng ngogledd Powys, sydd, i bob pwrpas, wedi difreinio miloedd o bobl yn fy etholaeth sy'n dibynnu'n helaeth ar Fronglais. Mewn cyfarfod cyhoeddus yr oeddwn yn bresennol ynddo'r wythnos o'r blaen, pleidleisiodd dros 500 o bobl i alw ar y Gweinidog iechyd i awdurdodi'r gwaith o baratoi gwasanaeth iechyd ar gyfer canolbarth Cymru yng nghanolbarth Cymru. A ydych chi'n cytuno â hwy, Brif Weinidog?

Y Prif Weinidog: Y broblem gyda hynny yw eich bod yn awgrymu y byddai pobl yn y Trallwng yn gorfod mynd i Fronglais. Mae'n amlwg nad dyna'r bwriad ac rwy'n amau mai

that it is the intention of the people who suggested it in the first place. Bronglais's catchment area is wide. It includes northern Ceredigion, western Montgomeryshire and southern Gwynedd. I think that we all understand that. That is why Bronglais's position as an important district general hospital is not under threat. There is no downgrading, and there will be no downgrading of Bronglais. It is an important hospital and we all understand that.

Let us look at the figures: £32 million is being invested in the hospital, including a new maternity unit, a new emergency unit and a new day surgery unit. Again, I ask the question: does that suggest that those services will disappear? Of course it does not. All that I ask is that people are told the truth. There are people writing to me to say that they have been told that Bronglais hospital will close. That is untrue. People have written to me saying that the accident and emergency department will close completely. That has never been suggested by anybody. I cannot speak for other political parties, but it has never been suggested by anybody. People have written to me suggesting that there will be no provision of maternity care at all in Bronglais. Who on earth is saying that to people? I think that the party opposite have something to explain in that regard.

All that we ask is that people examine the proposals and express their views—as is right in a democracy. I cannot accept that Hywel Dda Local Health Board has not consulted: it has done so at length and painfully, from its point of view. We, as a Government, will be guided by what doctors say. If the party opposite is not interested in what doctors say, that is a matter for its members; if it is not interested in safe services, that is a matter for its members. We will be guided by what is safe for the people of Aberystwyth and the wider area, recognising the importance of the hospital and recognising that the people of Ceredigion deserve levels of service that are acceptable, and that is what will guide us: safe, excellent and acceptable services. That is what the health service and the whole of Wales needs.

dyna oedd bwriad y rhai a awgrymodd hyn yn y lle cyntaf. Mae dalgylch Bronglais yn eang. Mae'n cynnwys gogledd Ceredigion, gorllewin Sir Drefaldwyn a de Gwynedd. Rwy'n credu ein bod i gyd yn deall hynny. Dyna pam nad yw statws Bronglais fel ysbyty cyffredinol dosbarth pwysig o dan fygythiad. Nid oes israddio, ac ni fydd unrhyw israddio ar ysbyty Bronglais. Mae'n ysbyty pwysig ac rydym i gyd yn deall hynny.

Gadewch inni edrych ar y ffigurau: mae £32 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn yr ysbyty, gan gynnwys uned mamolaeth newydd, uned frys newydd ac uned llawdriniaeth ddydd newydd. Unwaith eto, rwy'n gofyn y cwestiwn: a yw hynny'n awgrymu y bydd y gwasanaethau hynny'n diflannu? Wrth gwrs nad yw. Yr oll rwy'n ei ofyn yw i bobl ddweud y gwir. Mae rhai wedi ysgrifennu ataf i ddweud eu bod wedi cael gwybod y bydd ysbyty Bronglais yn cau. Nid yw hynny'n wir. Mae rhai wedi ysgrifennu ataf yn dweud y bydd yr adran damweiniau ac achosion brys yn cau yn gyfan gwbl. Ni awgrymwyd hynny gan unrhyw un erioed. Ni allaf siarad ar ran pleidiau gwleidyddol eraill, ond ni awgrymwyd hynny gan unrhyw un. Mae rhai wedi ysgrifennu ataf yn awgrymu na fydd unrhyw ddarpariaeth gofal mamolaeth ym Mronglais. Pwy ar wyneb y ddaear sy'n dweud hyn wrth bobl? Credaf fod gan y blaid gyferbyn ryw beth i esbonio yn hynny o beth.

Y cyfan rydym yn gofyn yw bod pobl yn edrych ar y cynigion ac yn mynegi eu barn—fel sy'n briodol mewn democratiaeth. Ni allaf dderbyn nad yw Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wedi ymgynghori: mae'r bwrdd wedi gwneud hynny yn faith ac yn boenus, o'i safbwynt ef. Caiff y Llywodraeth ei harwain gan yr hyn sydd gan feddygon i'w ddweud. Os nad oes gan y blaid gyferbyn ddiddordeb yn yr hyn sydd gan feddygon i'w ddweud, mae hynny'n fater i'w haelodau; os nad oes ganddi ddiddordeb mewn gwasanaethau diogel, mae hynny'n fater i'w haelodau. Yr hyn fydd yn ein harwain ni yw beth sy'n ddiogel i bobl Aberystwyth a'r ardal ehangach, gan gydnabod pwysigrwydd yr ysbyty a chydabod bod pobl Ceredigion yn haeddu lefel o wasanaeth sy'n dderbyniol, a dyna beth fydd yn ein harwain: gwasanaethau

diogel, rhagorol a derbyniol. Dyna'r hyn sydd ei angen ar y gwasanaeth iechyd ac ar Gymru gyfan.

Peter Black: In Swansea, the local health board is using a private hospital for operations and allowing it to use its facilities. It is using a private dental hospital for operations and using the private finance initiative to fund doctors' surgeries. Therefore, why do you have this ideological problem with the IVF clinic in Singleton, which is privately funded, and why are you using scarce resources to build your own version of that clinic when there is a perfectly good facility there, which has been used until now?

Peter Black: Yn Abertawe, mae'r bwrdd iechyd lleol yn defnyddio ysbyty preifat ar gyfer triniaethau gan ganiatáu i'r ysbyty hwnnw ddefnyddio ei gyfleusterau. Mae'r bwrdd yn defnyddio ysbyty deintyddol preifat ar gyfer triniaethau ac yn defnyddio'r fenter cyllid preifat i ariannu meddygfeydd. Pam, felly, mae gennych broblem ideolegol â'r clinig IVF yn Singleton, sy'n cael ei ariannu'n breifat, a pham eich bod yn defnyddio adnoddau prin i adeiladu eich fersiwn eich hun o'r clinig hwnnw pan fod cyfleuster cwbl dda yno eisoes, y'i defnyddiwyd yn iawn tan nawr?

The First Minister: We believe that the new clinic will provide a better service for those who need services from the IVF clinic, and it will deliver better value as well. It is important that we are able to ensure that we get the best value from the health service. That is sensible. However, it is also important that we get the best service, and that is why this new service is planned.

Y Prif Weinidog: Rydym o'r farn y bydd y clinig newydd yn rhoi gwasanaeth gwell i'r rhai sydd angen gwasanaethau gan y clinig IVF, a bydd yn sicrhau gwell gwerth hefyd. Mae'n bwysig ein bod yn gallu sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau o'r gwasanaeth iechyd. Mae hynny'n synhwyrol. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn cael y gwasanaeth gorau hefyd, a dyna pam mae cynllunio ar gyfer y gwasanaeth newydd hwn.

Lynne Neagle: The dangerous health reforms being pushed through by the Tory-led Government in Westminster could have serious repercussions for the NHS in Wales, in terms of cross-border issues, funding and Barnett implications, as well as the proposed abolition of several England-Wales health bodies. Constituents of mine are very worried about what the Tories are planning for England, and I urge Members across this Chamber to seriously consider the statement of opinion that I tabled on that earlier today.

Lynne Neagle: Gallai'r diwygiadau iechyd peryglus sy'n cael eu gwthio gan y Llywodraeth a arweinir gan y Torïaid yn San Steffan effeithio'n ddifrifol ar y GIG yng Nghymru, o ran materion trawsffiniol, goblygiadau cyllido a Barnett, yn ogystal â'r bwriad i ddiddymu sawl corff iechyd sy'n perthyn i Gymru a Lloegr. Mae rhai o'm hetholwyr yn bryderus iawn am yr hyn y mae'r Torïaid yn ei gynllunio ar gyfer Lloegr, ac rwy'n annog yr Aelodau ar draws y Siambr hon i ystyried yn ddifrifol y datganiad barn a gyflwynais yn gynharach heddiw.

First Minister, do you agree that as well as utterly condemning what the Tories are doing to the NHS over the border, we need to be on our guard in Wales and do everything that we can to mitigate any impact that this Bill may have on patients in Wales?

Brif Weinidog, a ydych yn cytuno, yn ogystal â chondemnio'n llwyr yr hyn y mae'r Torïaid yn ei wneud i'r GIG dros y ffin, bod angen inni fod yn wyladwrus yng Nghymru a gwneud popeth a allwn i liniaru ar unrhyw effaith y gall y Bil ei chael ar gleifion yng Nghymru?

The First Minister: Absolutely. We reject any suggestion that GP commissioning is the

Y Prif Weinidog: Yn bendant. Rydym yn gwrthwynebu unrhyw awgrym mai

way forward for Wales. The way forward for Wales is to ensure that people in all parts of Wales have access to a service that is as local and as safe as possible, and we understand that whenever there are suggestions of service change people get worried, especially if they are told things that are on the margins of truth. Nevertheless, people are worried. We will give this pledge to the people of Wales: the services that they require will be available to them and those services will be safe; we will not support any service that is not safe; we will not support any structure that provides a service that is not safe; and, we want services that are excellent for the whole of Wales.

Awtistiaeth

8. Angela Burns: *A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi unigolion sydd ag awtistiaeth yng Nghymru. OAQ(4)0386(FM)*

The First Minister: Much has been achieved since we published our world-leading autism spectrum disorder action plan. We have established an autistic spectrum disorders infrastructure within statutory authorities, delivered awareness raising across the professions, and supported local and regional projects to identify future developments.

Angela Burns: Last year, in response to my colleague Paul Davies, you pointed to the allocation of

'over £2 million this year to take forward our strategic action plan.'

You have just outlined some of the wins that you believe that that strategic action plan has made. Will you be asking your delivery unit to review the spend of that £2 million, and will you be able to provide us with details of how and where that £2 million was spent on taking the action plan forward, because what we see on the street is not necessarily reflected in the comments that you have just made?

comisiynu meddygon teulu yw'r ffordd ymlaen i Gymru. Y ffordd ymlaen i Gymru yw sicrhau bod pobl ym mhob rhan o Gymru yn cael mynediad at wasanaeth sydd mor lleol a diogel â phosibl, ac rydym yn deall bod pobl yn poeni pryd bynnag y ceir awgrym o newid i wasanaeth, yn enwedig pan fyddant yn clywed pethau nad ydynt yn gwbl gywir. Serch hynny, mae pobl yn poeni. Rhoddwn yr addewid hwn i bobl Cymru: bydd y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt ar gael iddynt a bydd y gwasanaethau hynny yn ddiogel; ni fyddwn yn cefnogi unrhyw wasanaeth nad yw'n ddiogel; ni fyddwn yn cefnogi unrhyw strwythur sy'n darparu gwasanaeth nad yw'n ddiogel; ac, rydym eisiau gwasanaethau sydd yn rhagorol ar gyfer Cymru gyfan.

Autism

8. Angela Burns: *Will the First Minister provide an update on steps the Welsh Government is taking to support individuals with autism in Wales. OAQ(4)0386(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae llawer wedi'i gyflawni ers inni gyhoeddi ein cynllun gweithredu ar gyfer anhwylderau'r sbectrwm awtistig sy'n arwain y byd. Rydym wedi sefydlu seilwaith anhwylderau yn y sbectrwm awtistig mewn awdurdodau statudol, codi ymwybyddiaeth ar draws y proffesiynau a chefnogi prosiectau lleol a rhanbarthol i nodi datblygiadau yn y dyfodol.

Angela Burns: Y llynedd, mewn ymateb i fy nghydweithiwr Paul Davies, bu i chi gyfeirio at ddyraniad o

dros £2 miliwn eleni i fwrw ymlaen â'n cynllun gweithredu strategol.

Rydych newydd amlinellu'r hyn rydych chi'n credu yw rhai o lwyddiannau'r cynllun gweithredu strategol. A fyddwch yn gofyn i'ch uned gyflawni i adolygu'r gwariant o £2 miliwn, ac a fydd modd i chi roi manylion i ni am sut a ble y gwariwyd y £2 miliwn ar roi'r cynllun ar waith, oherwydd nid yw'r hyn a welwn ar y stryd yn cael ei adlewyrchu yn y sylwadau rydych newydd eu gwneud?

The First Minister: Yes, of course: Members are entitled to see how money is spent.

Rebecca Evans: The ASD strategic action plan for Wales has succeeded in prompting some local authorities to mainstream autism-awareness training for teachers, headteachers and other school employees. This simple cost-effective action delivers huge improvements, both for pupils with ASD and for the wider school community. Will the First Minister join me in commending existing good practice, and urge all local authorities to proactively support mainstream schools and their employees to better meet the needs of pupils with autism?

The First Minister: Absolutely. That good practice has to be rolled out across the whole of Wales to ensure that there is a proper service in place for pupils with autism.

Bethan Jenkins: In Neath Port Talbot, local taxi drivers were not given notice of tenders to take those with autism to schools in the local area. When the authority took out that new contract, many of the taxi firms that were taking the children to school at the time lost out due to competition. Subsequently, the new taxi firms realised that it was not affordable, due to petrol prices, to take those children to school. In the meantime, many parents in Neath Port Talbot are angry because many of the taxi drivers who had nurtured good relationships with the children, who were having difficulty in accessing the taxis in a cohesive way, are not being retained due to these sensitive difficulties. Will you put pressure on local councils to take regard of these situations, because young people with autism are trying to put their trust in people, only to have that relationship taken away in an instant?

The First Minister: I ask the Member to write to me with further detail on that matter, and I will investigate it formally.

Y Prif Weinidog: Wrth gwrs: mae gan Aelodau hawl i weld sut y caiff arian ei wario.

Rebecca Evans: Mae'r cynllun gweithredu strategol anhwylderau yn y sbectrum awtistig (ASD) ar gyfer Cymru wedi llwyddo i annog rhai awdurdodau lleol i brif ffrydio hyfforddiant ymwybyddiaeth ynghylch awtistiaeth i athrawon, prifathrawon a gweithwyr eraill sy'n cael eu cyflogi gan ysgolion. Mae'r cam syml, cost-effeithiol hwn yn sicrhau gwelliannau enfawr i ddisgyblion ag ASD ac i gymuned ehangach yr ysgol. A wnaiff y Prif Weinidog ymuno â mi wrth gymeradwyo'r arfer da presennol, ac annog pob awdurdod lleol i fynd ati i gefnogi ysgolion prif ffrwd a'u gweithwyr i wella'r modd y maent yn diwallu anghenion disgyblion ag awtistiaeth?

Y Prif Weinidog: Yn sicr. Rhaid cyflwyno'r arfer da hwnnw ar draws Cymru gyfan er mwyn sicrhau bod gwasanaeth priodol ar waith i ddisgyblion ag awtistiaeth.

Bethan Jenkins: Yng Nghastell-nedd Port Talbot, ni roddwyd hysbysiad i yrwyr tacsï lleol o dendrau i fynd â'r sawl sydd ag awtistiaeth i ysgolion yn yr ardal leol. Pan ddechreuodd yr awdurdod y contract newydd hwn, bu i lawer o'r cwmnïau tacsï a oedd yn mynd â'r plant i'r ysgol ar yr adeg honno golli allan o ganlyniad i gystadleuaeth. Yn dilyn hynny, sylweddolodd y cwmnïau tacsï newydd nad oedd yn fforddiadwy i fynd â'r plant i'r ysgol o ganlyniad i brisiau petrol. Yn y cyfamser, mae llawer o rieni yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ddig oherwydd nad yw'r gywyr tacsï a oedd wedi meithrin perthynas dda â'r plant a oedd yn cael anhawster i gael mynediad at dacsï mewn ffordd gydlynol yn cael eu cadw oherwydd yr anawsterau sensitif hyn. A wnewch chi roi pwysau ar gynghorau lleol i ystyried sefyllfaoedd o'r fath, gan fod pobl ifanc ag awtistiaeth yn ceisio ymddiried mewn pobl, dim ond i'r berthynas honno gael ei thynnu oddi wrthynt mewn eiliad?

Y Prif Weinidog: Rwy'n gofyn i'r Aelod ysgrifennu ataf â mwy o fanylion ar y mater hwnnw, a byddaf yn ymchwilio i'r mater yn ffurfiol.

Gorllewin Cymru

9. Rebecca Evans: *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru dros y chwe mis nesaf. OAQ(4)0376(FM)*

The First Minister: Our priority for Mid and West Wales, as in other parts of Wales, is to implement the programme for government.

Rebecca Evans: Yesterday, a coalition of voluntary organisations published 'Access Denied', a report on transport poverty in Wales. The report shows that many people feel excluded and isolated, and are unable to access jobs, healthcare and social opportunities because of the cost or unavailability of transport. How will the Welsh Government address transport poverty in Mid and West Wales?

The First Minister: The prioritisation of the national transport plan has brought forward investment that will make the transport system in Wales work better to help to tackle poverty, to increase wellbeing and to assist economic growth. For example, the Minister for Local Government and Communities has provided £400,000 over the next three years to fund the expansion of the Bwcabus network to rural Carmarthenshire and Ceredigion by investing in three new vehicles.

Paul Davies: Fel yr ydym wedi clywed yn barod, un o flaenoriaethau'r Prif Weinidog ar gyfer y gorllewin a chanolbarth Cymru yw gwella'r gwasanaeth iechyd. Fel y dywedais yn gynharach, mae adolygiadau o wasanaethau iechyd yn digwydd ar hyn o bryd. Wrth adolygu gwasanaethau iechyd, mae'n bwysig cydnabod y gwahaniaethau rhwng ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol. A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau y bydd ef a'i Lywodraeth yn sicrhau na fydd y dull un-maint-i-bawb yn cael ei orfodi ar fyrddau iechyd, oherwydd, yn naturiol, mae anghenion cymunedau gwledig yn wahanol i anghenion cymunedau trefol?

Y Prif Weinidog: Mae'n iawn dweud bod yn

9. Rebecca Evans: *Will the First Minister outline his priorities for Mid and West Wales for the next six months. OAQ(4)0376(FM)*

Y Prif Weinidog: Ein blaenoriaeth yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, fel mewn rhannau eraill o Gymru, yw gweithredu'r rhaglenn lywodraethu.

Rebecca Evans: Ddoe, bu i goalisiwn o sefydliadau gwirfoddol gyhoeddi 'Access Denied', adroddiad ar dlodi trafndiaeth yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn dangos bod llawer o bobl yn teimlo'n ynysig ac wedi eu cau allan, ac nad oes modd iddynt gael mynediad at swyddi, gofal iechyd na chyfleoedd cymdeithasol oherwydd cost neu ddiffyg trafndiaeth. Sut y bydd Llywodraeth Cymru'n mynd i'r afael â thlodi trafndiaeth yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

Y Prif Weinidog: Mae blaenoriaethu'r cynllun trafndiaeth cenedlaethol wedi cyflwyno buddsoddiad a fydd yn helpu'r system drafndiaeth yng Nghymru i weithio'n well wrth fynd i'r afael â thlodi, i gynyddu lles ac i gynorthwyo twf economaidd. Er enghraifft, mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi darparu £400,000 dros y tair blynedd nesaf i ariannu'r gwaith o ymestyn rhwydwaith Bwcabus i ardaloedd gwledig Sir Gaerfyrddin a Cheredigion drwy fuddsoddi mewn tri cherbyd newydd.

Paul Davies: As we have already heard, one of the First Minister's priorities for west and mid Wales is to improve the health service. As I said earlier, reviews of health services are ongoing at present. In reviewing health services, it is important that we recognise the differences that exist between rural and urban areas. Will the First Minister confirm that he and his Government will ensure that the one-size-fits-all approach will not be imposed on health boards, because, naturally, the needs of rural communities are different to those of urban communities?

The First Minister: It is right to say that

rhaid i bobl mewn ardaloedd gwledig wneud mwy o deithio na phobl mewn ardaloedd trefol. Mae'n wir dweud na fydd rhai gwasanaethau ond ar gael mewn ysbytai mawr; rydym i gyd yn deall hynny. Er enghraifft, mae'n rhaid i niwrolawdriniaeth ddigwydd mewn ysbyty mawr. Wedi dweud hynny, fel rwyf wedi dweud sawl gwaith yn y Siambr y prynhawn yma, lle mae'n bosibl darparu gwasanaeth yn lleol gan feddygon lleol neu mewn ysbytai lleol—nid dim ond ysbytai sy'n bwysig, er eu bod yn bwysig—mae'n bwysig sicrhau bod gwasanaethau ar gael i bobl yn y ffordd fwyaf lleol posibl. Lle mae'n bosibl sicrhau gwasanaeth lleol a saff, dyna fydd ein nod.

Simon Thomas: First Minister, the protest about Bronglais hospital tomorrow will be led by Lord Elystan-Morgan, the author of your rural health plan. Is he scaremongering? Your MP and AM in Llanelli are standing up for every service to be kept at Prince Philip Hospital. Are they scaremongering? The meeting that Russell George referred to was chaired by your candidate in Ceredigion, Richard Boudier. Is he scaremongering? Every service mentioned today that is provided in Bronglais, such as the maternity service, the accident and emergency service and the current surgeries, are deemed to be safe. Will you keep them?

The First Minister: Given the fact that a new emergency unit and a new maternity unit are being built there, does the Member really think that those services are going to disappear when such investment has been made in them? We have said many times that Bronglais is important, not just to Aberystwyth, but to a wide area. We will always look to provide safe and excellent services, as I have already said. We will always look to ensure that services are appropriate, as people deserve that much. However, I emphasise once again that, for some reason, many people in the area think that the hospital is going to close. For some reason, many people in the area think that a raft of services is going to disappear. That simply is not the case. I understand that people are concerned—I have said that before—but we want to ensure that Bronglais

people in rural areas have to do more travelling than people in urban areas. It is true to say that some services will only be available in large hospitals; we all understand that. For example, neurosurgery has to take place in a large hospital. Having said that, as I have said several times in the Chamber this afternoon, where it is possible to provide services locally using local doctors or in local hospitals—it is not only the hospitals that are important, although they are important—it is important to ensure that services are available to people as locally as possible. Where it is possible to ensure a local and safe service, that will be our aim.

Simon Thomas: Brif Weinidog, yr Arglwydd Elystan-Morgan, awdur eich cynllun iechyd gwledig, fydd yn arwain y brotest yfory am ysbyty Bronglais. A yw'n codi bwganod? Mae eich Aelod Seneddol a'ch Aelod Cynulliad yn Llanelli yn dadlau dros gadw pob gwasanaeth yn Ysbyty'r Tywysog Philip. A ydynt yn codi bwganod? Cadeirydd y cyfarfod y cyfeiriodd Russell George ato oedd eich ymgeisydd yng Ngheredigion, Richard Boudier. Y yw e'n codi bwganod? Tybir bod pob gwasanaeth a ddarperir ym Mronglais y bu sôn amdanynt heddiw, er enghraifft y gwasanaeth mamolaeth, y gwasanaeth damweiniau ac achosion brys a'r meddygfeydd presennol yn ddiogel. A wnewch chi eu cadw?

Y Prif Weinidog: O ystyried y ffaith bod uned frys newydd ac uned mamolaeth newydd yn cael eu hadeiladu yno, a yw'r Aelod wir yn meddwl y bydd y gwasanaethau hynny'n diflannu ar ôl y fath fuddsoddiad? Rydym wedi dweud sawl gwaith bod Bronglais yn bwysig, nid yn unig i Aberystwyth, ond i ardal eang. Byddwn bob amser yn edrych i ddarparu gwasanaethau diogel ac ardderchog, fel y dywedais eisoes. Byddwn bob amser yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau yn briodol, gan fod pobl yn haeddu hynny. Fodd bynnag, rwy'n pwysleisio unwaith eto, am ryw reswm, fod llawer o bobl yn yr ardal yn credu y bydd yr ysbyty yn cau. Am ryw reswm, mae llawer o bobl yn yr ardal yn credu y bydd lluo o wasanaethau'n diflannu. Yn syml, nid yw hynny'n wir. Rwy'n deall bod pobl yn poeni—rwyf wedi dweud hynny o'r blaen—

goes from strength to strength as a hospital. It does not help that your party continues to say that the hospital is going to be downgraded. It is wrong and it is untrue—the hospital is not being downgraded. It is a matter for you if you want to play politics with this, but for goodness' sake, stop saying that Bronglais is going to be downgraded. Bronglais is an important hospital, and the people of Aberystwyth and the wider area deserve to know the full picture, not the one you are painting.

ond rydym eisiau sicrhau bod ysbyty Bronglais yn mynd o nerth i nerth. Nid yw'n helpu bod eich plaid yn parhau i ddweud y bydd yr ysbyty'n cael ei israddio. Mae hynny'n anghywir ac nid yw'n wir—nid yw'r ysbyty'n cael ei israddio. Mater i chi ydyw os ydych chi eisiau chwarae gwleidyddiaeth â hyn, ond er mwyn popeth, rhowch y gorau i ddweud y bydd Bronglais yn cael ei israddio. Mae Bronglais yn ysbyty pwysig, ac mae pobl Aberystwyth a'r ardal ehangach yn haeddu gweld y darlun llawn, nid yr un yr ydych chi'n ei beintio.

2.15 p.m.

Ffyniant Rhanbarth Canol De Cymru

Prosperity of the South Wales Central Region

10. Andrew R.T. Davies: *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau ffyniant rhanbarth Canol De Cymru. OAQ(4)0377(FM)*

10. Andrew R.T. Davies: *Will the First Minister outline the steps the Welsh Government is taking to ensure the prosperity of the South Wales Central region. OAQ(4)0377(FM)*

The First Minister: Our focus is on creating prosperity for the whole of Wales by strengthening the conditions for job creation and retention and investing in infrastructure, skills and innovation.

Y Prif Weinidog: Rydym yn canolbwyntio ar greu ffyniant i Gymru gyfan drwy gryfhau'r amodau er mwyn creu swyddi a chadw a buddsoddi mewn isadeiledd, sgiliau ac arloesedd.

Andrew R.T. Davies: Thank you, First Minister, for that answer. Last week, in reply to a question in the Chamber, you said that the attracting of 600 new jobs to a call centre in Cardiff was as a result of the enterprise zone that you had announced. I have pressed you time and again about what inducements you are able to offer to bring companies to the Cardiff enterprise zone—something that we welcome. Are you now in a position to highlight the incentives that you are offering companies to come to the Cardiff enterprise zone?

Andrew R.T. Davies: Diolch, Brif Weinidog, am yr ateb hwnnw. Yr wythnos diwethaf, mewn ymateb i gwestiwn yn y Siambr, dywedasoch fod denu 600 o swyddi newydd i ganolfan alwadau yng Nghaerdydd yn ganlyniad i'r ardal fenter yr oeddech wedi'i chyhoeddi. Rwyf wedi pwysio arnoch dro ar ôl tro ynghylch pa gymhellion rydych yn gallu eu cynnig i ddenu cwmnïau i ardal fenter Caerdydd—rhywbeth yr ydym yn ei groesawu. A ydych mewn sefyllfa erbyn hyn i allu sôn am y cymhellion yr ydych yn eu cynnig i gwmnïau i ddod i ardal fenter Caerdydd?

The First Minister: We had hoped that we had made progress on capital allowances but the Treasury has now gone back on what it said to begin with, which does not particularly help us. However, I am sorry that the Member feels that he cannot welcome the creation of 600 jobs in the middle of Cardiff, and that he cannot welcome the fact that unemployment has gone down for the last

Y Prif Weinidog: Roeddem yn credu ein bod wedi gwneud cynnydd ar lwfansau cyfalaf ond mae'r Trysorlys wedi mynd yn ôl ar yr hyn a ddywedodd i ddechrau, sy'n fawr o help i ni. Fodd bynnag, mae'n ddrwg gennyf nad yw'r Aelod yn teimlo y gall groesawu creu 600 o swyddi yng nghanol Caerdydd, ac nad yw'n gallu croesawu'r ffaith bod diweithdra wedi gostwng yn y ddau fis

two months, even as it has risen elsewhere in the UK. However, I welcome the words that he used in his press release, when he said that there was more optimism now and that small and medium-sized enterprises are looking to do better. I agree with him on that.

Vaughan Gething: I welcome the recent announcement by Conduit that it will create 600 jobs on Dumballs Road, in the ward of Butetown in my constituency, which is one of the more economically depressed parts of our country, not just the capital city. First Minister, have you or the Welsh Government had any discussions about ensuring that, when these jobs come to Cardiff, there are local employment benefits for the surrounding communities?

The First Minister: Absolutely. We need to ensure that we maximise the position when jobs are announced anywhere in Wales. I expect that a significant number of these new jobs will be filled by local people.

Leanne Wood: First Minister, in the coming years the vast potential for generating renewable energy off the Welsh coast will be key to this country's prosperity. The coastal communities fund, established by the UK Government, has agreed with the principle that coastal communities should benefit from the profits generated by local developments. As far as Plaid Cymru is concerned, the donation of 50% of those profits does not go far enough, because, under that arrangement, the Crown Estate, rather than the democratically elected Welsh Government, would control the assets, and the UK Government would tell us where the money should be spent. First Minister, do you agree that the people of Wales should have full control over their natural resources and benefit from 100% of those profits? If you agree, will you make representations on the matter?

The First Minister: We have done it on many occasions, as you know. It is our policy that all renewable energy projects up to 100 MW should be devolved, whether they are onshore or offshore.

diwethaf, er i ddiweithdra godi mewn mannau eraill o'r DU. Fodd bynnag, croesawaf y geiriau a ddefnyddiodd yn ei ddatganiad i'r wasg, pan ddywedodd fod mwy o optimistiaeth yn awr, a bod busnesau bach a chanolig yn gobeithio gwneud yn well. Rwy'n cytuno ag ef ar hynny.

Vaughan Gething: Croesawaf y cyhoeddiad diweddar gan Conduit y bydd yn creu 600 o swyddi yn Dumballs Road, yn ward Butetown yn fy etholaeth i, sydd yn un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn ein gwlad, heb sôn am y brifddinas. Brif Weinidog, a ydych chi neu Lywodraeth Cymru wedi cynnal unrhyw drafodaethau ynglŷn â sicrhau, pan fydd y swyddi hyn yn dod i Gaerdydd, bod manteision cyflogaeth lleol i'r cymunedau cyfagos?

Y Prif Weinidog: Yn sicr. Mae angen inni sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'r sefyllfa pan fydd swyddi'n cael eu cyhoeddi yn unrhyw le yng Nghymru. Disgwyliaf y bydd nifer sylweddol o'r swyddi newydd hyn yn cael eu cymryd gan bobl leol.

Leanne Wood: Brif Weinidog, yn y blynyddoedd i ddod, bydd y potensial enfawr ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy oddi ar arfordir Cymru yn allweddol i ffyniant y wlad. Mae'r gronfa cymunedau arfordirol, a sefydlwyd gan Lywodraeth y DU, wedi cytuno â'r egwyddor y dylai cymunedau arfordirol elwa o'r elw a gynhyrchir gan ddatblygiadau lleol. Cyn belled ag y mae Plaid Cymru yn y cwestiwn, nid yw rhoi 50% o'r elw hwnnw yn mynd yn ddigon pell, oherwydd, o dan y trefniant hwnnw, Ystâd y Goron fyddai'n rheoli'r asedau yn hytrach na Llywodraeth ddemocrataidd ac etholedig Cymru, a Llywodraeth y DU fyddai'n dweud wrthym ble y dylai'r arian gael ei wario. Brif Weinidog, a ydych yn cytuno y dylai pobl Cymru gael rheolaeth lawn dros ei hadnoddau naturiol ac y dylai elwa 100% o'r elw hwnnw? Os ydych yn cytuno, a wnewch chi gyflwyno sylwadau ar ran Cymru ar y mater?

Y Prif Weinidog: Rydym wedi gwneud hyn ar sawl achlysur, fel y gwyddoch. Ein polisi yw y dylai pob prosiect ynni adnewyddadwy hyd at 100 MW gael ei ddatganoli, boed ar y tir neu ar y môr.

Eluned Parrott: South Wales Central includes some of the richest and poorest parts of Wales. While the creation of enterprise zones in Cardiff and St Athan is welcome, towns such as Barry and Pontypridd are struggling and fear that they will be left out in the cold. What targeted strategies will the Welsh Government use to help boost the local economies that are outside Wales's enterprise zones?

The First Minister: Not everywhere can be within an enterprise zone, but as you have heard the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science say in weeks gone by, she is looking at other ways to help towns that are not within enterprise zones. However, they will have benefitted in years gone by under other regeneration schemes—last year and in previous years.

Blaenoriaethau ar gyfer Tor-faen

11. Lynne Neagle: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer Tor-faen yn 2012. OAQ(4)0391(FM)

The First Minister: Our priority, as in other parts of Wales, is to implement the programme for government.

Lynne Neagle: First Minister, we have already talked a lot about the health service today and you know that I view the specialist and critical care centre, due to be sited in Cwmbran, as fundamental to the future delivery of healthcare, not just in Torfaen but in the wider Gwent region. While I recognise that the Welsh Government is dealing with a crippling 40% capital cut forced on us by the Tories in Westminster, what assurances can you offer me today that this vital project is proceeding according to plan?

The First Minister: I know the Member has made reference to this matter many times in the Chamber; it is something that she holds dear and for which she has fought strongly, as far as her constituents are concerned. The next stage, however, is to ensure that the

Eluned Parrott: Mae Canol De Cymru yn cynnwys rhai o'r mannau cyfoethocaf a thlotaf yng Nghymru. Er bod creu ardaloedd menter yng Nghaerdydd a Sain Tathan i'w groesawu, mae trefi fel y Barri a Phontypridd yn cael trafferth ac yn ofni y byddant yn cael eu hanghofio amdanynt. Pa strategaethau â thargedau fydd Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i helpu i roi hwb i economi leol yr ardaloedd hynny sydd y tu allan i ardaloedd menter Cymru?

Y Prif Weinidog: Ni all pob man fod mewn ardal fenter, ond fel yr ydych wedi clywed y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn ei ddweud yn ystod yr wythnosau diweddar, mae hi'n edrych ar ffyrdd eraill i helpu trefi nad ydynt mewn ardaloedd menter. Fodd bynnag, byddant wedi elwa mewn blynyddoedd a fu o dan gynlluniau adfywio eraill—y llynedd ac yn y blynyddoedd blaenorol.

nad oedd y dystiolaeth a gasglwyd yn llawn gefnogi'r honiadau yn y gŵyn nac yn rhyddhau'r Cynghorydd Schofield yn llwyr o'r honiadau yn ei erbyn. Ar y cyfan roedd y dystiolaeth yn anghyson ac i raddau helaeth heb ei chadarnhau. Yn yr amgylchiadau hyn daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd cyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Safonau nac i Banel Dyfarnu Cymru yn briodol.

Mae adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ym mis Mawrth 2011 yn datgan:

Roedd y telerau gweithredu a oedd yn rhwymo'r gynghrair yn ddadleuol,

ac eto roedd ganddynt gefnogaeth gref y rheolwr gyfarwyddwr dros dro. Roedd y sawl a oedd â'r cyflog uchaf erioed i was sifil yng Nghymru ar y pryd yn costio—

Y Llywydd: Trefn. Rydych chi'n cychwyn araith fawr.

Janet Finch-Saunders: Iawn.

Y Llywydd: Na, nid yw'n iawn. Peidiwch â nodio'ch pen. Rydych chi'n cychwyn araith fawr; felly, dewch â'ch cyfraniad i ben, os gwelwch yn dda.

Janet Finch-Saunders: Weinidog, mae pobl Ynys Môn yn haeddu datganiad yn awr am sut y gall Llywodraeth Cymru gyfiawnhau ei chefnogaeth i'r telerau gweithredu yng ngoleuni adroddiad yr ombwdsmon.

Jane Hutt: Mae hyn oll yn fater i'r ombwdsmon. Nid yw'n briodol i Weinidogion wneud sylwadau am gasgliad yr ombwdsmon, ac nid oes ganddynt bwerau i ymyrryd.

Alun Ffred Jones: Rydym wedi clywed yr anesmwythyd ynghylch diwygio'r gwasanaethau iechyd, ac mae llawer wedi mynegi pryder wrthyf am rôl Ysbyty Gwynedd yn y dyfodol. Un datblygiad cadarnhaol yw'r cynlluniau i ddatblygu canolfan addysgu yng ngogledd Cymru, a fyddai'n gallu denu uwch-feddygon ymgynghorol ac israddedigion i'r gogledd.

Medical Sciences. We need a clear statement from the Government on these matters. There are issues to do with the sale of the old technium building to the university. There are issues to do with funding for the School of Medical Sciences. We need a statement as to whether the Minister for Health and Social Services and the Government are in favour of a teaching facility in north Wales. People in north-east Wales deserve to know, and I respectfully ask for a statement on the matter in the near future.

Jane Hutt: I am glad that you are welcoming the teaching hub in north Wales. It is part of the provision that we have for educating our medical students. It is, obviously, an important issue for the Minister for Health and Social Services.

Andrew R.T. Davies: Many serious issues have been raised on this statement, but I would like to ask, in a light-hearted way, the Leader of the House to congratulate the Assembly rugby team on beating the House of Commons and the House of Lords on Saturday and on the fact that, over the last five or six years, it has raised £10,000 for Bowel Cancer UK. It is a very worthy cause that, as Members from previous Assemblies will know, is identified very much with the founder of the rugby team, the former Assembly Member, Glyn Davies.

Jane Hutt: I thought that Andrew R.T. Davies, the leader of the opposition, was going to come to his feet to congratulate our team on their fantastic sporting prowess on Saturday and on our team's good showing on Sunday in the Cardiff and Liverpool football match. It is important to recognise that the Bowel Cancer UK charity benefited from the match. I do not know whether the leader of the opposition took part in that rugby match. I have seen you on the field before—*[Interruption.]* It was quite a picture. I am not sure whether many of my colleagues behind me were engaged in the game, but I am sure that it was a very good match.

Mae Prifysgol Bangor wedi sefydlu'r Ysgol Gwyddorau Meddygol. Mae angen datganiad clir gan y Llywodraeth ar y materion hyn. Mae materion sy'n ymwneud â gwerthu hen adeilad y technium i'r brifysgol. Mae materion yn ymwneud â chyllido'r Ysgol Gwyddorau Meddygol. Mae angen datganiad arnom ar a yw'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Llywodraeth o blaid cael cyfleuster addysgu yn y gogledd. Mae pobl yn y gogledd-ddwyrain yn haeddu gwybod, a gofynnaf â pharch am ddatganiad ar y mater yn y dyfodol agos.

Jane Hutt: Rwy'n falch eich bod yn croesawu'r ganolfan addysgu yn y gogledd. Mae'n rhan o'r ddarpariaeth sydd gennym i addysgu ein myfyrwyr meddygol. Yn amlwg, mae'n fater pwysig i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Andrew R.T. Davies: Mae llawer o faterion difrifol wedi eu codi ynghylch y datganiad hwn, ond hoffwn ofyn, mewn ffordd ysgafn, i Arweinydd y Tîm longyfarch tîm rygbi'r Cynulliad ar guro Tîm Cyffredin a Thîm Arglwyddi ddydd Sadwrn ac ar y ffaith ei fod wedi codi £10,000 i Bowel Cancer UK yn ystod y pump neu chwe blynedd diwethaf. Mae'n achos teilwng iawn, ac, fel y bydd Aelodau o'r Cynulladau blaenorol yn gwybod, mae wedi ei gysylltu â Glyn Davies, sylfaenydd y tîm rygbi, a chyn-Aelod Cynulliad.

Jane Hutt: Roeddwn i'n meddwl y byddai Andrew R.T. Davies, arweinydd yr wrthblaid, yn codi ar ei draed i longyfarch ein tîm ar eu doniau chwaraeon gwych ddydd Sadwrn ac ar lwyddiant ein tîm ddydd Sul yng ngêm pêl-droed Caerdydd a Lerpwl. Mae'n bwysig cydnabod i elusen Bowel Cancer UK elwa o'r gêm. Nid wyf yn gwybod a wnaeth arweinydd yr wrthblaid chwarae yn y gêm rygbi. Rwyf wedi eich gweld ar y cae cyn hyn—*[Torri ar draws.]* Roedd yn dipyn o olygfa. Nid wyf yn siŵr a oedd rhai o'm cydweithwyr y tu ôl i mi'n chwarae, ond rwy'n siŵr bod y gêm yn un dda.

Datganiad: Diwygio Lles **Statement: Welfare Reform**

The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews): In January this year, I issued a written statement to the Assembly, highlighting the Welsh Government's concerns about the UK Government's Welfare Reform Bill and its wider welfare agenda. At that time, I confirmed the action that this Government had taken to establish a ministerial task and finish group for welfare reform. This group, which I chair, is remitted to assess and monitor the cumulative impact of the UK Government's welfare reform on our policies and services. To further this work, the task and finish group has commissioned a programme of work to analyse the impact of the welfare reforms in Wales. Today I have published the findings from the first stage of this analysis. The analysis to date has largely drawn on evidence published by the Institute for Fiscal Studies, which has assessed the combined impact of the tax and benefit changes announced by the UK Government.

The Welsh Government is not opposed to the principle of welfare reform. We would welcome a simpler, more transparent benefits system that makes work pay and provides genuine support to individuals to help them to find and keep work. Enabling people to work would be of immense benefit to Wales. We accept that individuals that are able to work need to take responsibility for finding employment. However, as I have previously said, the power to create jobs does not generally lie with the unemployed. The Welsh Government remains absolutely committed to encouraging and supporting people into work. This is why we have pledged to create thousands of job opportunities through Jobs Growth Wales.

I believe that the key findings from stage 1 of the analysis justify the Welsh Government's grave concern about the scope and scale of changes that the UK Government is driving through within its wider welfare reform agenda. Wales has a higher dependence on welfare benefits than Great Britain as whole. The latest statistics show that 18.4% of the working-age population in Wales was

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews): Ym mis Ionawr eleni, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig i'r Cynulliad yn tynnu sylw at bryderon Llywodraeth Cymru am Fil Diwygio Lles Llywodraeth y DU a'i hagenda lles ehangach. Ar y pryd, bu i mi gadarnhau bod y Llywodraeth hon wrthi'n sefydlu grŵp gorffen a gorchwyl ar ddiwygio lles. Gwaith y grŵp hwn, yr wyf yn gadeirydd arno, yw asesu a monitro effaith gronnu diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar ein polisiau a'n gwasanaethau. Er mwyn ymestyn y gwaith hwn, mae'r grŵp gorchwyl a gorffen wedi comisiynu rhaglen waith i ddadansoddi effaith y diwygiadau lles yng Nghymru. Heddiw, rwyf wedi cyhoeddi canfyddiadau cam cyntaf y dadansoddiad hwn. Mae'r dadansoddiad hyd yma yn deillio i raddau helaeth o dystiolaeth a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, sydd wedi asesu effaith gyfunol y newidiadau i dreth a budd-daliadau a gyhoeddwyd gan Llywodraeth y DU.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn erbyn yr egwyddor o ddiwygio lles. Byddem yn croesawu system budd-daliadau symlach, fwy tryloyw, sy'n gwneud i waith dalu ac sy'n rhoi cymorth go iawn i unigolion i'w helpu i ddod o hyd i waith ac i'w gadw. Byddai galluogi pobl i weithio o fudd mawr i Gymru. Rydym yn derbyn bod angen i unigolion sy'n gallu gweithio fod yn gyfrifol am ddod o hyd i waith. Fodd bynnag, fel y dywedais o'r blaen, nid yw'r pŵer i greu swyddi yn gyffredinol gyda'r di-waith. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau yn gwbl ymrwymedig i annog a chefnogi pobl i weithio. Dyma pam rydym wedi ymrwymo i greu miloedd o gyfleoedd gwaith drwy Twf Swyddi Cymru.

Rwyf o'r farn bod canfyddiadau allweddol cam 1 y dadansoddiad yn cyfiawnhau pryder dwys Llywodraeth Cymru am gwmpas a maint y newidiadau y mae Llywodraeth y DU yn eu gwthio yn eu blaen drwy ei hagenda diwygio lles ehangach. Mae Cymru'n dibynnu'n helaethach ar fudd-daliadau lles na Phrydain Fawr ar gyfartaledd. Mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos bod 18.4%

claiming welfare benefits, compared to the Great Britain average of 14.5%. This, of course, means that any negative implications of the changes will have a disproportionately higher impact in Wales. The main reason for the higher benefit claimant rate in Wales is the higher proportion of people claiming disability and sickness benefits. These are some of the most vulnerable people in society, who are completely dependent upon welfare payments to maintain a quality of life. For many, work is genuinely not an option.

Analysis by the IFS following the 2010 spending review suggests that, on average, households in Wales can expect to lose 4.1% of their income as a result of the tax and benefit changes. That compares to a UK average loss of 3.8%. Notwithstanding the impact on Wales as a whole, the south Wales Valleys and the inner city areas of Cardiff, Newport and Swansea are most likely to be disproportionately impacted by the benefit changes. The poorest households with children are estimated to lose the largest proportion of their income as a result of the tax and benefit changes. In particular, non-working lone parents and workless couples with children are expected to suffer a disproportionate financial hit. Families with children aged under five and families with more than two children are expected to be particularly badly affected. The IFS and the Treasury estimate that the reforms will increase relative child poverty in the UK by around 100,000 in 2012-13. The Welsh Government provisionally estimates that the reforms could increase relative child poverty in Wales by around 6,000 in 2012-13. Clearly, the loss of benefit income will also have an impact on the Welsh economy. It is difficult to calculate this, as economists suggest the multiplier effect could be between one and one and a half times the overall benefit loss.

Stage 2 of our analysis will be an extensive piece of research, examining likely

o'r boblogaeth oedran gweithio yng Nghymru yn hawlio budd-daliadau lles, o'i gymharu â chyfartaledd Prydain Fawr, sef 14.5%. Mae hyn, wrth gwrs, yn golygu y bydd unrhyw oblygiadau negyddol i'r newidiadau yn cael effaith anghymesur fwy yng Nghymru. Y prif reswm mae cyfradd uwch yn hawlio budd-daliadau yng Nghymru yw bod cyfran uwch yn hawlio budd-daliadau anabledd a salwch. Dyma rai o'r bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas, sy'n gwbl ddibynnol ar daliadau lles i gynnal eu hansawdd bywyd. I lawer, y gwir yw nad yw gweithio yn opsiwn iddynt.

Mae dadansoddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn dilyn adolygiad o wariant 2010 yn awgrymu y gall aelwydydd yng Nghymru ddisgwyl colli 4.1% o'u hincwm ar gyfartaledd o ganlyniad i'r newidiadau i dreth a budd-daliadau. Mae hynny'n cymharu â cholled gyfartalog o 3.8% ar gyfer y DU. Er gwaethaf yr effaith ar Gymru gyfan, Cymoedd y de a'r ardaloedd yng nghanol dinasoedd Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe sydd fywaf tebygol o ddioddef effaith anghymesur o ganlyniad i'r newidiadau i fudd-daliadau. Amcangyfrifir mai'r aelwydydd tlotaf lle mae plant a fydd yn colli'r gyfran fwyaf o'u hincwm o ganlyniad i'r newidiadau i dreth a budd-daliadau. Yn benodol, mae disgwyl y bydd rhieni sengl heb waith a chyplau heb waith sydd â phlant yn dioddef ergyd ariannol anghymesur. Mae disgwyl y bydd effaith arbennig o ddrwg ar deuluoedd sydd â phlant o dan bump oed a theuluoedd sydd â mwy na dau o blant. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid a'r Trysorlys yn amcangyfrif y bydd y diwygiadau yn peri cynnydd o 100,000 yn y niferoedd sydd mewn tloidi plant cymharol yn y DU yn 2012-13. Mae Llywodraeth Cymru'n amcangyfrif ar hyn o bryd y gallai'r diwygiadau beri cynnydd o tua 6,000 yn y niferoedd sydd mewn tloidi plant cymharol yng Nghymru yn 2012-13. Yn amlwg, bydd colli'r incwm a ddaw o fudd-daliadau yn cael effaith ar economi Cymru hefyd. Mae'n anodd cyfrifo hyn, gan fod economegwyr yn awgrymu y gallai'r effaith lluosydd fod rhwng un ac un a hanner gwaith y gollod gyffredinol o ran budd-daliadau.

Bydd Cam 2 ein dadansoddiad yn ddarn helaeth o ymchwil, gan archwilio'r ymateb

behavioural responses to the changes. As this is a non-devolved matter, the Welsh Government believes that we should not carry the financial burden of changes instigated in Whitehall. Nevertheless, we intend to respond to these challenges in a progressive manner, continuing to protect vulnerable members of society and striving to lift people out of poverty. A good example of this will be our replacement of council tax benefit. As part of the wider reforms, the UK Government is abolishing council tax benefit and, from April 2013, responsibility for providing support for council tax in Wales will be passed to the Welsh Government. Furthermore, the funding available to Wales to provide this support will be significantly reduced by the UK Government. Welsh Ministers have previously expressed profound concerns about these significant changes and the timing and financial constraints within which they are being forced through. However, without some form of council tax support, nearly a quarter of Wales's most vulnerable households will experience severe financial hardship. Therefore, we have a moral obligation to develop a viable and affordable system of council tax support that best meets the needs of the Welsh people. The Minister for Local Government and Communities is working closely with local government in Wales to achieve this.

The UK Government is also abolishing the social fund community care grants and crisis loans with an associated transfer of responsibility to the Welsh Government. Without successor arrangements, there will be a significant adverse impact on many of our most vulnerable groups, who will have nowhere else to go to access affordable emergency grants or loans. We issued a public consultation on options for developing new arrangements on 6 January.

We are focused on our commitment in our programme for government to take action that will both mitigate, as much as we can, the negative implications of the welfare reform changes, and tackle the longer-term causes of poverty.

tebygol o ran ymddygiad i'r newidiadau. Gan fod hwn yn fater nad yw wedi'i ddatganoli, mae Llywodraeth Cymru yn credu na ddylem ysgwyddo baich ariannol newidiadau sy'n deillio o Whitehall. Serch hynny, rydym yn bwriadu ymateb i'r heriau hyn mewn modd blaengar, gan barhau i ddiogelu aelodau bregus cymdeithas ac ymdrechu i gael pobl allan o dlodi. Enghraifft dda o hyn yw'r hyn y byddwn yn ei gyflwyno yn lle'r budd-dal treth gyngor. Fel rhan o'r diwygiadau ehangach, mae Llywodraeth y DU yn diddymu'r budd-dal treth gyngor ac, o fis Ebrill 2013 ymlaen, bydd y cyfrifoldeb am roi cymorth mewn perthynas â'r dreth gyngor yng Nghymru yn cael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru. Ar ben hynny, bydd Llywodraeth y DU yn lleihau'r cyllid sydd ar gael i Gymru i gynnig y cymorth hwn yn sylweddol. Mae Gweinidogion Cymru wedi mynegi pryderon dwys o'r blaen am y newidiadau sylweddol hyn ac am yr amseriad a'r cyfyngiadau ariannol sy'n bodoli wrth iddynt gael eu gwthio drwodd. Fodd bynnag, heb ryw fath o gymorth i dalu'r dreth gyngor, bydd bron chwarter o gartrefi mwyaf bregus Cymru'n profi caledi ariannol difrifol. Felly, mae gennym rwymedigaeth foesol i ddatblygu system ymarferol a fforddiadwy o roi cymorth i dalu'r dreth gyngor sy'n diwallu anghenion pobl Cymru orau. Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau'n gweithio'n agos â llywodraeth leol yng Nghymru i gyflawni hyn.

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn dileu grantiau gofal cymunedol y gronfa gymdeithasol a'r benthyciadau argyfwng gan drosglwyddo cyfrifoldeb cysylltiedig i Lywodraeth Cymru. Heb drefniadau olynol, bydd effaith andwyol sylweddol ar lawer o'n grwpiau mwyaf bregus, na fydd ag unrhyw le arall i droi i gael grantiau neu fenthyciadau argyfwng. Bu i ni gyflwyno ymgynghoriad cyhoeddus ar opsiynau i ddatblygu trefniadau newydd ar 6 Ionawr.

Rydym yn canolbwyntio ar ein hymrwymiad yn ein rhaglen lywodraethu i weithredu mewn modd a fydd yn lliniaru goblygiadau negyddol y diwygiadau lles gymaint ag y gallwn, ac yn mynd i'r afael ag achosion tymor hir tlodi.

The Presiding Officer: I remind Members that the idea of a statement is for a statement to be made and for backbench Members now to question the Minister, not to make long speeches. I am sitting here looking at all of you who are turning over two or three pages. Please make a short preamble and ask serious questions; I have a long list of speakers, as you can imagine, and I will cut Members off.

Mark Isherwood: You state that the Welsh Government is not opposed to the principle of welfare reform. Do you agree with James Purnell, Labour's former UK Secretary of State for Work and Pensions, that the proposed universal credit, planned to merge many benefits into one, is a good reform? Do you agree with the statement by Ed Miliband last month that there need to be big changes in welfare, that we need to restore greater responsibility into the system and that anybody who can work, should work?

You state that the Welsh Government remains absolutely committed to encouraging and supporting people into work through the jobs growth fund. As the lead agent for the work programme in Wales, how will the Welsh Government integrate the jobs growth fund into the work programme to avoid duplication and to maximise joint working and the investment going in? What action has the Welsh Government taken to provide claimants of jobseeker's allowance and employment and support allowance with support through the work programme based on individual need and rewards to providers for helping harder-to-help people and for keeping people in work?

You state that Wales has a higher dependence on welfare benefits than Great Britain as a whole. What action is the Welsh Government taking to ensure that war widows, those with disabilities and those receiving working tax credits take advantage of the special fund established by the UK Government to exempt them from the cap on benefits? What action has the Welsh Government taken to help families affected by changes to local housing allowance via the transitional arrangements implemented by the UK Government, which

Y Llywydd: Hoffwn atgoffa'r Aelodau mai'r bwriad pan geir datganiad yw i'r datganiad gael ei wneud ac yna i Aelodau'r meinciau cefn gwestiynu'r Gweinidog, ac nid gwneud areithiau hir. Rwy'n eistedd yma'n edrych ar bob un ohonoch sy'n troi dwy neu dair tudalen. Rhewch ragymadrodd byr a gofynnwch gwestiynau difrifol, os gwelwch yn dda; mae gennyf restr hir o siaradwyr, fel y gallwch ddychmygu, a byddaf yn barod i ddiffodd eich meicroffonau.

Mark Isherwood: Rydych yn dweud nad yw Llywodraeth Cymru yn erbyn yr egwyddor o ddiwygio lles. A ydych yn cytuno â James Purnell, cyn-Ysgrifennydd Gwladol Gwaith a Phensiynau'r DU, o'r Blaid Lafur, bod y credyd cyffredinol arfaethedig, a gynlluniwyd i uno nifer o fudd-daliadau, yn ddiwygio da? A ydych yn cytuno â'r datganiad a wnaeth Ed Miliband fis diwethaf fod angen gwneud newidiadau mawr o ran lles, fod angen i ni adfer mwy o gyfrifoldeb yn y system ac y dylai unrhyw un sy'n gallu gweithio, weithio?

Rydych yn dweud bod Llywodraeth Cymru yn parhau yn gwbl ymrwymedig i annog a chefnogi pobl i weithio drwy'r gronfa twf swyddi. Fel asiant pennaf y rhaglen waith yng Nghymru, sut y bydd Llywodraeth Cymru'n integreiddio'r gronfa twf swyddi yn rhan o'r rhaglen waith i osgoi dyblygu ac i wneud y gorau o weithio ar y cyd a'r buddsoddi sy'n digwydd? Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cymryd i roi cymorth, drwy'r rhaglen waith, i'r rheini sy'n hawlio'r lwfans ceisio gwaith a'r lwfans cyflogaeth a chymorth, yn seiliedig ar anghenion unigol ac ar wobrwyo darparwyr sy'n helpu'r bobl sy'n anos i'w helpu ac am gadw pobl mewn gwaith?

Rydych yn dweud bod Cymru'n dibynnu mwy ar fudd-daliadau lles nag y mae Prydain Fawr yn gyffredinol. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i sicrhau bod gweddwon rhyfel, pobl sydd ag anableddau a phobl sy'n derbyn credydau treth gwaith yn manteisio ar y gronfa arbennig a sefydlwyd gan Lywodraeth y DU i'w heithrio o'r cap ar fudd-daliadau? Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cymryd i helpu teuluoedd yr effeithir arnynt gan newidiadau i'r lwfans tai lleol drwy'r

has worked to make every such family in England known, so that it could start working with them a year before the cap came in?

On a similar housing note, how will you ensure that a default mechanism in the universal credit allowing direct payments to a landlord when a tenant moves into arrears is fully utilised in Wales? What action has the Welsh Government taken since the National Landlords Association said a year ago that it had already built new restrictions into the local housing allowance, but that change needed to be managed with local authorities? It said that the supply would only adjust if we did something then, a year ago, requiring a new way of working and true partnership with landlords to deliver a period of transition.

I have nearly finished, Presiding Officer—

The Presiding Officer: You have only had eight questions so far.

Mark Isherwood: Minister, how do you reconcile your opposition to regional pay with Labour's call for a regional benefits cap, meaning that benefits would be determined by region? Given that 71% of people receiving disability living allowance receive the benefit for life, without systematic checks to see whether their condition has changed, do you support the replacement of this with personal independence payments, new face-to-face assessments and regular reviews to ensure that support is going to where it is most needed? Do you support the UK Government's commitment to continuing to spend over £40 billion a year on disabled people and their services? Finally, do you welcome action by the UK Government to cut income tax for 25 million people, taking 1.1 million of the low paid out of tax altogether, to extend free childcare, to increase entitlement to free education and care for three and four-year-olds, to extend entitlement to the most disadvantaged two-year-olds and to increase the child tax credit?

trefniadau trosiannol a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU, sydd wedi gweithio i sicrhau bod pob teulu o'r fath yn Lloegr yn hysbys, er mwyn iddi allu dechrau gweithio gyda nhw flwyddyn cyn cyflwyno'r cap?

Ar nodyn tebyg yn ymwneud â thai, sut y byddwch yn sicrhau bod dull rhagosodedig yn y credyd cyffredinol sy'n caniatáu taliadau uniongyrchol i landlord pan fydd tenant mewn ôl-ddyled yn cael ei ddefnyddio'n llawn yng Nghymru? Beth y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud ers i Gymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid ddweud flwyddyn yn ôl ei bod eisoes wedi gwneud cyfyngiadau newydd yn rhan o'r lwfans tai lleol, ond bod angen rheoli newid gydag awdurdodau lleol? Dywedodd y byddai'r cyflenwad ond yn addasu pe baem yn gwneud rhywbeth yn ei gylch bryd hynny, sef blwyddyn yn ôl, gan ofyn am ddull newydd o weithio mewn gwir bartneriaeth â landlordiaid i ddarparu cyfnod o drawsnewid.

Rwyf bron wedi gorffen, Lywydd—

Y Llywydd: Dim ond wyth cwestiwn rydych wedi eu gofyn hyd yn hyn.

Mark Isherwood: Weinidog, sut yr ydych yn cysoni eich gwrthwynebiad i gyflogau rhanbarthol â'r ffaith bod Llafur yn galw am gapio budd-daliadau'n rhanbarthol, sy'n golygu y byddai budd-daliadau'n cael eu pennu yn ôl rhanbarth? O ystyried bod 71% o'r rheini sy'n derbyn lwfans byw i'r anabl yn cael y budd-dal drwy gydol eu bywyd, heb wirio systematig i weld a yw eu cyflwr wedi newid, a ydych yn cefnogi'r syniad o gyflwyno taliadau annibyniaeth bersonol yn lle'r lwfans, ynghyd ag asesiadau newydd wyneb yn wyneb ac adolygiadau rheolaidd i sicrhau bod cefnogaeth yn mynd i ble y mae'r angen mwyaf amdani? A ydych yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth y DU i barhau i wario dros £40 biliwn y flwyddyn ar bobl anabl a'u gwasanaethau? Yn olaf, a ydych yn croesawu'r hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei wneud i dorri treth incwm i 25 miliwn o bobl, gan eithrio 1.1 miliwn o'r rheini ar gyflogau isel rhag talu dim treth incwm, i ymestyn gofal plant am ddim, i gynyddu'r hawl i addysg am ddim a gofal i blant tair a phedair blwydd oed, i ymestyn yr hawl i'r plant dwy flwydd oed mwyaf difreintiedig, ac

i gynyddu credyd treth plant?

3.00 p.m.

Leighton Andrews: There was not a word from the opposition about those who will lose benefits; not a single word in recognition of those who will lose benefits under the UK Government's proposals. That is not just the evidence that we have published today as a Welsh Government; it is also the evidence that has been published today by a coalition of charities in Wales—Cuts Watch Cymru—that has identified the very specific losses that will be suffered across our communities. We have published analysis; the opposition is unable to respond or even to acknowledge those who will lose out as a result of these cuts.

One of the problems that we have in engaging with the UK Government on this is the reality that there are still so many unknowns as things are introduced. The Member referred to universal credits; there are big issues for us on passporting that we are still trying to get answers on from the UK Government. As far as the work programme is concerned, we have had meetings with those involved in it—we have a mechanism through the joint employment delivery board to do so, through which we can explore how our programmes work alongside the programmes of the Department for Work and Pensions, and that includes Jobs Growth Wales. As regards housing, my colleague the Minister for Housing, Regeneration and Heritage, is fully engaged in looking at the impact of those changes.

In respect of some of the wider issues that the Member raises, my party, and our Government, does not support a regional benefit cap, and we have made that absolutely clear in the past. What I find astonishing, however, is that there was no acknowledgement whatsoever of the individuals who are coming to us now in our surgeries and raising the difficulties that they are experiencing. Among them are ex-servicepeople—veterans—and many of us are taking up cases on their behalf, on their

Leighton Andrews: Nid oedd gair gan yr wrthblaid am y rhai a fydd yn colli eu budd-daliadau; dim un gair i gydnabod y rhai a fydd yn colli eu budd-daliadau o dan gynigion Llywodraeth y DU. Nid y dystiolaeth yr ydym ni wedi'i chyhoeddi heddiw fel Llywodraeth Cymru yw'r unig dystiolaeth; mae tystiolaeth hefyd wedi cael ei chyhoeddi heddiw gan gynghrair o elusennau yng Nghymru—Cuts Watch Cymru—sydd wedi nodi'r colledion penodol y bydd ein cymunedau yn eu dioddef. Mae gennym ni ddadansoddiad sydd wedi'i gyhoeddi; nid yw'r wrthblaid yn gallu ymateb na hyd yn oed cydnabod y rheini fydd ar eu colled o ganlyniad i'r toriadau hyn.

Un o'r problemau yr ydym yn eu cael wrth ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar hyn yw'r realiti fod cymaint o ffactorau anhysbys wrth i bethau gael eu cyflwyno. Cyfeiriodd yr Aelod at greydau cyffredinol; mae problemau mawr inni ynglŷn â pasbortio yr ydym yn dal i geisio cael atebion iddynt gan Lywodraeth y DU. Cyn belled ag y mae'r rhaglen waith yn y cwestiwn, rydym wedi cael cyfarfodydd â'r rhai sy'n ymwneud â hi—mae gennym fecanwaith drwy gyd-fwrdd cyflenwi rhaglenni cyflogaeth Cymru i wneud hynny, sy'n ein galluogi i edrych ar sut mae ein rhaglenni yn gweithio ochr yn ochr â rhaglenni'r Adran Gwaith a Phensiynau, ac mae hynny'n cynnwys Twf Swyddi Cymru. O ran tai, mae fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, yn ymwneud yn llawn â'r broses o edrych ar effaith y newidiadau hynny.

Mewn perthynas â rhai o'r materion ehangach a gododd yr Aelod, nid yw fy mhlaid i, nac ein Llywodraeth ni, yn cefnogi cap rhanbarthol ar fudd-daliadau, ac rydym wedi gwneud hynny'n gwbl glir yn y gorffennol. Yr hyn sy'n rhyfeddol, fodd bynnag, yw nad oedd cydnabyddiaeth o gwbl o'r unigolion sy'n dod atom ni yn ein cymorthfeydd ac yn codi'r anawsterau y maent yn eu cael. Yn eu plith mae cyn-aelodau o'r lluoedd arfog, ac mae llawer ohonom yn mynd ar drywydd eu hachosion

reassessment for disability benefits. There was not a single word in the comments by the opposition spokesperson about issues such as that.

The Presiding Officer: The opposition spokesperson actually did what I asked of him today, which was to ask questions, although he did ask 15 questions. I would like everyone else to continue with questions and not make personal comments on particular situations, otherwise, we will not get to everyone.

Lynne Neagle: Minister, I am saddened, but not surprised, that it is the poorest households with children that are set to lose most. If you go back to the time of the 2010 budget and the choices taken in the face of all those impact assessments, the Fawcett Society and others were warning us exactly of this.

The First Minister and the Deputy Minister for Children and Social Services have stated publicly on a number of occasions that the eradication of child poverty by 2020 remains a priority for the Welsh Government. Minister, what impact will the data that you have outlined today have on those vital plans? Also, it is clear from your statement that the cuts will hit hardest in places such as the south Wales Valleys and our inner-city areas; the very places that have not recovered from the hammering they received in the 1980s and 1990s. What more can we do to mitigate this disproportionate and unfair impact on our most deprived communities, and how can we ensure that Welsh Government support is targeted at the people and communities that need it most?

Finally, I want to raise the fact that it is clear from your statement that Welsh households are set to lose a greater proportion of their income because wages are lower here. Would you agree with me, Minister, that moves by the Tory-led Government to introduce regional pay will only serve to exacerbate this serious problem?

Leighton Andrews: My colleague the Member for Torfaen of course raises a whole series of issues that will affect her constituents and the constituents of all of us.

ar eu rhan, o ran eu hailasesiad am fudd-daliadau anabledd. Ni chafwyd yr un gair yn sylwadau llefarydd yr wrthblaid am faterion o'r fath.

Y Llywydd: Gwnaeth llefarydd yr wrthblaid yr hyn yr oeddwn wedi gofyn iddo ei wneud heddiw, sef gofyn cwestiynau, er iddo ofyn 15 ohonynt. Hoffwn i bawb arall barhau i ofyn cwestiynau ac i beidio â gwneud sylwadau personol ar sefyllfaoedd penodol, neu ni fydd digon o amser i bawb.

Lynne Neagle: Weinidog, rwyf yn drist, ond nid yn synnu, mai'r cartrefi tlotaf â phlant sy'n mynd i golli fwyaf. Os ewch yn ôl i amser cyllideb 2010 a'r dewisiadau a gymerwyd yn wyneb yr holl asesiadau effaith hynny, roedd Cymdeithas Fawcett ac eraill yn rhybuddio'r union bethau hyn wrthym.

Mae'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi datgan yn gyhoeddus ar nifer o achlysuron bod dileu tlodi plant erbyn 2020 yn parhau'n flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Weinidog, beth fydd effaith y data yr ydych wedi'u hamlinellu heddiw ar y cynlluniau hanfodol hynny? Hefyd, mae'n amlwg o'ch datganiad y bydd y toriadau'n taro waethaf mewn mannau megis Cymoedd de Cymru a'r ardaloedd yng nghanol ein dinasoedd; yr union fannau nad ydynt wedi gwella o'r driniaeth ddifrifol a gawsant yn y 1980au a'r 1990au. Beth arall y gallwn ni ei wneud i liniaru'r effaith anghymesur ac annheg ar ein cymunedau mwyaf difreintiedig, a sut y gallwn sicrhau bod cefnogaeth Llywodraeth Cymru yn cael ei thargedu at y bobl a'r cymunedau sydd ei hangen fwyaf?

Yn olaf, rwyf am godi'r ffaith ei bod yn glir o'ch datganiad bod aelwydydd Cymru yn colli cyfran fwy o'u hincwm oherwydd bod cyflogau'n is yma. A fydech yn cytuno â mi, Weinidog, y bydd cynlluniau'r Llywodraeth Dorïaidd i gyflwyno cyflogau rhanbarthol ond yn gwaethygu'r broblem ddifrifol hon?

Leighton Andrews: Mae fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Dor-faen, yn codi cyfres o faterion a fydd yn effeithio ar ei hetholwyr hi ac etholwyr pob un ohonom. Mae hi'n iawn i

She is right to reiterate our opposition to regional pay, and we continue to make that clear in our representations to the UK Government.

She is right about the challenges that there will be, of course, in meeting the child poverty eradication target by 2020. Those challenges will be exacerbated by the UK Government's proposals—there is no question about that—and the evidence that is coming out from the UK Government's own statistics demonstrates the difficulty of reaching those targets. We can, in this place, seek to mitigate that through some of the programmes that we are running, such as Flying Start, and our plans to double the spending on that scheme, which will have an impact on the lives of many children in our poorest communities. That is a genuine intervention by this Government, which the Member for Torfaen will recall was a manifesto commitment of our party at the last election. There are also ways in which Communities First partnerships and others, along with other third sector organisations, can encourage attempts to ensure the full take-up of benefits across all our communities. We, as a Government, will work with those.

Disproportionately, there will be an impact on communities in the south Wales Valleys and in the inner cities, as I have said. Also, there will be an impact throughout the whole of Wales and we should not forget that.

Leanne Wood: I would like to thank the Minister for his statement, even though it was grim to listen to. We all knew that people in Wales would fare worse from these welfare reforms, but to hear the evidence as presented, the picture is bleak indeed. These reforms will increase poverty in Wales. They will increase child poverty in Wales, against this Government's stated aim. The poorest people will pay for the mistakes of the bankers through these reforms and Plaid Cymru believes that that, in principle, is fundamentally wrong.

My questions, Minister, are as follows: in addition to one Minister taking responsibility

ailadrodd ein gwrthwynebiad i gyflogau rhanbarthol, ac rydym yn parhau i wneud hynny'n glir yn ein sylwadau i Lywodraeth y DU.

Mae hi'n iawn am yr heriau a fydd yn ein hwynebu, wrth gwrs, wrth fodloni'r targed o ddileu tlodi plant erbyn 2020. Bydd yr heriau hynny'n cael eu gwaethygu gan gynigion Llywodraeth y DU—nid oes amheuaeth am hynny—ac mae'r dystiolaeth sy'n dod o ystadegau Llywodraeth y DU ei hun yn dangos yr anhawster o ran cyrraedd y targedau hynny. Gallwn, yn y lle hwn, geisio lliniaru hynny drwy rai o'r rhaglenni yr ydym yn eu cynnal, megis Dechrau'n Deg, a'n cynlluniau i ddyblu'r gwariant ar y cynllun hwnnw, a fydd yn cael effaith ar fywydau llawer o blant yn ein cymunedau tlotaf. Mae hynny'n ymyriad gwirioneddol gan y Llywodraeth hon, a bydd yr Aelod dros Dorfaen yn cofio bod hwnnw'n ymrwymiad ym maniffesto ein plaid yn yr etholiad diwethaf. Mae yna hefyd ffyrdd y gall partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ac eraill, ynghyd â sefydliadau trydydd sector eraill, annog ymdrechion i sicrhau bod pawb yn manteisio ar fudd-daliadau yn ein cymunedau. Byddwn ni, fel Llywodraeth, yn gweithio gyda'r rheini.

Bydd effaith anghymesur ar gymunedau yng Nghymoedd y de ac yng nghanol ein dinasoedd, fel y dywedais. Hefyd, bydd effaith ar hyd a lled Cymru ac ni ddylem anghofio hynny.

Leanne Wood: Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad, er ei fod yn un digalon i wrando arno. Rydym i gyd yn gwybod y byddai pethau'n waeth ar bobl yng Nghymru o ganlyniad i'r diwygiadau lles hyn, ond ar ôl clywed y dystiolaeth a gyflwynwyd, mae'r darlun yn llwm yn wir. Bydd y diwygiadau hyn yn cynyddu tlodi yng Nghymru. Byddant yn cynyddu tlodi plant yng Nghymru, gan weithio yn erbyn nod y Llywodraeth hon. Y bobl dlotaf fydd yn talu am gamgymeriadau'r bancwyr drwy'r diwygiadau hyn ac mae Plaid Cymru yn credu bod hynny, mewn egwyddor, yn sylfaenol anghywir.

Weinidog, mae fy nghwestiynau fel a ganlyn: yn ogystal â chael un Gweinidog i gymryd

for making all representations to the UK Government on welfare reform and the budgetary and other impacts on Wales, will you also ask local authorities to appoint one person to do the same job? Will you also undertake to ensure that these people consult widely with those people affected by welfare reform, including stakeholder advisory groups? Do you intend to incorporate the likely impacts and policy responses into the new tackling poverty action plan, as well as new responsibilities like the devolution of the social fund and council tax relief? Will you agree to undertake an urgent exercise to establish the fiscal burden and liability transfer to the Welsh Government and local authorities that arise as a result of these reforms? Finally, Minister, I would like to know whether you would support calls for a full inquiry into the fraud allegations within the welfare-to-work industry? A4e paying out £9 million in dividends to one person makes the AWEMA scandal look like a typing error. Will you support the calls for an investigation as part of this Welsh Government's response to the welfare reform proposals?

Leighton Andrews: The Member for South Wales Central raises a number of important issues and, again, is right to stress the impact of the UK Government's proposals on our attempts to reduce child poverty in Wales. She raised, initially, a question in regard to the co-ordination of activity by local government, which I know comes directly from the Cuts Watch Cymru document today. That is something that we will want to take forward and I know that my colleague the Member for Cardiff West has a debate on the Cuts Watch Cymru report tomorrow afternoon. I will be responding at more length at that time.

In respect of the tackling poverty action plan, we have already been engaged as Ministers in looking collectively at how the welfare reform proposals impact on that. My colleague the Minister for Local Government and Communities will have more to say on that in due course, as he will on council tax relief following the consultation, and my other colleagues will have more to say on the

cyfrifoldeb am gyflwyno'r holl sylwadau i Lywodraeth y DU ar ddiwygio lles ac effeithiau cyllidebol ac effeithiau eraill ar Gymru, a wnewch chi hefyd ofyn i awdurdodau lleol benodi un person i wneud yr un swydd? A wnewch chi hefyd ymrwymo i sicrhau bod y bobl hyn yn ymgynghori'n eang â'r bobl hynny yr effeithir arnynt gan ddiwygio lles, gan gynnwys grwpiau rhanddeiliaid ymgynghorol? A ydych yn bwriadu ymgorffori'r effeithiau tebygol a'r ymatebion polisi yn y cynllun gweithredu newydd i fynd i'r afael â thlodi, yn ogystal â chyfrifoldebau newydd fel datganoli'r gronfa gymdeithasol a'r gostyngiad yn y dreth gyngor? A wnewch chi gytuno i ymgymryd ag ymarfer brys i sefydlu'r baich ariannol a'r trosglwyddo atebolrwydd i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Cymru sy'n codi o ganlyniad i'r diwygiadau hyn? Yn olaf, Weinidog, hoffwn wybod a fydddech yn cefnogi galwadau am ymchwiliad llawn i'r honiadau o dwyll yn y diwydiant o fudd-dâl-i-waith? Mae'r taliadau difidend o £9 miliwn a dalodd A4e i un person yn gwneud i sgandal AWEMA edrych fel gwall teipio. A wnewch chi gefnogi'r galwadau am ymchwiliad fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i'r cynigion diwygio lles?

Leighton Andrews: Mae'r Aelod dros Ganol De Cymru yn codi nifer o faterion pwysig ac, unwaith eto, mae'n iawn i bwysleisio effaith cynigion Llywodraeth y DU ar ein hymdrechion i leihau tlodi plant yng Nghymru. Gofynnodd ar y dechrau am gyd-drefnu gweithgarwch gan lywodraeth leol, sy'n rhywbeth rwy'n gwybod ddaeth yn uniongyrchol o ddogfen Cuts Watch Cymru heddiw. Mae hynny'n rhywbeth y byddwn am ei ddatblygu a gwn fod gan yr Aelod dros Orllewin Caerdydd ddadl ar adroddiad Cuts Watch Cymru brynhawn yfory. Byddaf yn ymateb yn llawnach bryd hynny.

O ran y cynllun gweithredu i fynd i'r afael â thlodi, rydym ni fel Gweinidogion eisoes wedi bod yn edrych ar y cyd ar sut y bydd y cynigion diwygio lles yn effeithio ar hynny. Bydd gan fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, fwy i'w ddweud am hynny maes o law, ac am y gostyngiad yn y dreth gyngor yn dilyn yr ymgynghoriad, a bydd gan fy nghydweithwyr

social fund as well.

I know that the Leader of the House and Minister for Finance is conscious of the potential impact on the Welsh budget of changes in benefits and other associated changes that the UK Government is looking at, and will forensically analyse the impact on the Welsh budget of any such changes. In respect of the issues around welfare-to-work, there are issues that are currently the subject of investigations elsewhere and on which it would be inappropriate for us to comment. I think that it is clear that the UK Government, which is responsible for the welfare-to-work programme, has its own responsibilities to ensure that such allegations are properly investigated.

Peter Black: May I welcome the Minister's statement and the clear declaration in this presentation that the Welsh Government is not opposed to the principle of welfare reform and welcomes a simpler, more transparent benefits system that makes work pay? We hope that the universal credit system will do exactly that—that is certainly its objective.

I share the Minister's concern for people who will lose out as a result of these reforms. That is one unfortunate impact of the reforms that I regret, and would like to avoid. I welcome any proposals by the Welsh Government to seek to mitigate the impact on the poorest in our society, who will be affected by these reforms. It is worth pointing out that this agenda was central to the previous Government's programme as well, and was encapsulated in a number of proposals in the Labour manifesto for the last general election, so I do not think that this is a case of the current UK Government ganging up on Wales; this is a universal approach to benefits, which do need reforming, and do need to be made more affordable, and changed so that we encourage people to go back to work. However, I take on board the Minister's point that the unemployed do not create jobs; that is very important.

The reference in the Minister's statement to council tax benefit is concerning, but I think

eraill fwy i'w ddweud am y gronfa gymdeithasol hefyd.

Rwy'n gwybod bod y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ yn ymwybodol o'r effaith bosibl ar gyllideb Cymru o'r newidiadau mewn budd-daliadau a newidiadau cysylltiedig eraill y mae Llywodraeth y DU yn edrych arnynt, a bydd yn dadansoddi'n fanwl effaith newidiadau o'r fath ar gyllideb Cymru. O ran y materion sy'n ymwneud â budd-dâl-i-waith, mae materion sydd ar hyn o bryd yn destun ymchwiliadau mewn manau eraill a byddai'n amhriodol inni wneud sylwadau. Rwy'n meddwl ei bod yn glir bod gan Lywodraeth y DU, sy'n gyfrifol am y rhaglen budd-dâl-i-waith, ei chyfrifoldebau ei hun i sicrhau bod honiadau o'r fath yn cael eu hymchwilio'n briodol.

Peter Black: A gaf i groesawu datganiad y Gweinidog a'r datganiad clir yn y cyflwyniad nad yw Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu'r egwyddor o ddiwygio lles a'i bod yn croesawu system fudd-daliadau symlach a mwy tryloyw i wneud i waith dalu? Rydym yn gobeithio y bydd y system credydau cyffredinol yn gwneud yr union beth hwnnw—dyna, yn sicr, yw ei hamcan.

Rwy'n rhannu pryder y Gweinidog am bobl a fydd yn colli allan o ganlyniad i'r diwygiadau hyn. Dyna un effaith anffodus o'r diwygiadau sy'n peri gofid i mi, ac yr hoffwn ei osgoi. Rwy'n croesawu unrhyw gynigion gan Lywodraeth Cymru i geisio lliniaru'r effaith ar y bobl dlotaf yn ein cymdeithas, y bydd y diwygiadau hyn yn effeithio arnynt. Mae'n werth nodi bod yr agenda hon yn ganolog i raglen y Llywodraeth flaenorol yn ogystal, a chafodd ei chrynhai mewn nifer o gynigion ym maniffesto'r Blaid Lafur ar gyfer yr etholiad cyffredinol diwethaf. Felly, nid wyf yn meddwl bod hyn yn achos o Lywodraeth bresennol y DU yn pigo ar Gymru; mae hwn yn ddull cyffredinol o ymdrin â budd-daliadau, sydd angen eu diwygio, eu gwneud yn fwy fforddiadwy, a'u newid fel ein bod yn annog pobl i fynd yn ôl i'r gwaith. Fodd bynnag, rwy'n derbyn pwynt y Gweinidog nad yw'r di-waith yn creu swyddi; mae hynny'n bwysig iawn.

Mae'r cyfeiriad yn natganiad y Gweinidog at fudd-daliadau'r dreth gyngor yn peri pryder,

that this is an opportunity to reform not just the way that council tax benefit works, but council tax itself, to make it more affordable and better focused on those who are able to pay. Will the Welsh Government look at that as part of its consultation, so that this is not just a limited reform, but could be a more wide-ranging reform? In terms of the transfer of responsibility for the social fund, community care grants and crisis loans to the Welsh Government, will the Minister give an indication as to when we are likely to see the outcome of that consultation, which was launched early in January? What proposals are likely to come from that, and what is the likely cost for the Welsh Government?

Leighton Andrews: In respect of the council tax benefit, I said in the statement that we believe as a Government that we have a moral obligation to develop a viable and affordable system of council tax support that best meets the needs of the Welsh people. The Minister for Local Government and Communities is of course working with local government colleagues to achieve that. It would be premature for us to comment in respect of the social fund, given that the consultation only commenced during January. We will follow our normal procedures in developing our response.

I have to say to the Member that, while I genuinely welcome his support for what we are doing as a Government in this regard, and for what we have said in the statement today and in previous statements, it has been entirely open to Members of Parliament in his party and Members of the House of Lords in his party to join with Members from my party and others to resist what the UK coalition Government is doing here. I think that the question that he will have to answer—and he had very few things to say in opposition to what this Welsh Government is doing—will be, ‘Where was he when we were standing up for Wales?’

Mick Antoniw: My constituency of Pontypridd is going to be particularly hard hit by these reforms. I believe that you have seen

and credaf fod hwn yn gyfle i ddiwygio nid yn unig y ffordd y mae budd-dal y dreth gyngor yn gweithio, ond y dreth gyngor ei hun, er mwyn ei gwneud yn fwy fforddiadwy gan ganolbwyntio fwy ar y rhai sy'n gallu talu. A fydd Llywodraeth Cymru yn edrych ar hynny fel rhan o'i ymgynghoriad, fel nad yw hyn yn ddiwygio cyfyngedig, ond yn broses ddiwygio fwy eang ei chwmpas? O ran trosglwyddo'r cyfrifoldeb am y gronfa gymdeithasol, grantiau gofal cymunedol a benthyciadau argyfwng i Lywodraeth Cymru, a wnaiff y Gweinidog roi syniad o pryd yr ydym yn debygol o weld canlyniad yr ymgynghoriad hwnnw, a gafodd ei lansio yn gynnar ym mis Ionawr? Pa gynigion sy'n debygol o ddod o hynny, a beth yw'r gost debygol i Lywodraeth Cymru?

Leighton Andrews: O ran budd-dal y dreth gyngor, dywedais yn y datganiad ein bod yn credu bod gennym fel Llywodraeth rwymedigaeth foisol i ddatblygu system ymarferol a fforddiadwy o gymorth y dreth gyngor sy'n diwallu anghenion pobl Cymru. Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn gweithio gyda chydweithwyr mewn llywodraeth leol i gyflawni hynny. Byddai'n gynamserol inni wneud sylwadau mewn perthynas â'r gronfa gymdeithasol, o ystyried bod yr ymgynghoriad ond wedi dechrau ym mis Ionawr. Byddwn yn dilyn ein gweithdrefnau arferol wrth ddatblygu ein hymateb.

Rhaid imi ddweud wrth yr Aelod, er fy mod yn wirioneddol groesawu ei gefnogaeth i'r hyn yr ydym yn ei wneud fel Llywodraeth yn hyn o beth, ac i'r hyn yr ydym wedi'i ddweud yn y datganiad heddiw ac mewn datganiadau blaenorol, mae wedi bod yn gwbl agored i Aelodau Seneddol ei blaid ac Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi ei blaid ymuno ag Aelodau o fy mhlaid i ac eraill i wrthsefyll yr hyn y mae Llywodraeth glymblaid y DU yn ei wneud. Credaf mai'r cwestiwn y bydd yn rhaid iddo ei ateb—ac ychydig iawn o bethau oedd ganddo i'w ddweud mewn gwrthwynebiad i'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud—fydd, ‘Ble oedd ef pan oeddem ni yn sefyll cornel Cymru?’

Mick Antoniw: Bydd fy etholaeth i, sef Pontypridd, yn cael ei tharo'n wael gan y diwygiadau hyn. Rwy'n credu eich bod wedi

the report that I prepared on the impact of the changes in housing benefit on my constituents. I have, in my constituency, quite a number of ex-servicemen who have fought for their country, suffered injury and problems such as post-traumatic stress disorder. What do you consider will be the impact upon them? Does this represent the ultimate betrayal of those ex-servicemen by the UK Government?

Leighton Andrews: I commend the Member for Pontypridd for the work that he has previously done on housing benefit and the report that he published, in consultation with organisations within his own constituency and more widely. He is absolutely right to raise the position of ex-servicepeople. I think that we all remember one political party proposing a veterans card at the last election and now that party's Government in Westminster is attacking the benefits of many thousands of ex-servicepeople who have served this country. Many of us are taking up their cases as they come to our surgeries. We are talking about people who sometimes have serious injuries, and are sometimes suffering from post-traumatic stress disorder. I have had cases in my constituency where people have had to continually appeal against the loss of benefits and have won those appeals. I am sure that my colleagues have had similar experiences. Therefore, my colleague the Member for Pontypridd is right to nail that issue today.

3.15 p.m.

William Graham: Do you not agree that, by exempting war widows, those with serious disabilities and those receiving working tax credits, from the proposed changes, the United Kingdom Government has listened to representations and acted to protect the most vulnerable in society?

Leighton Andrews: No.

Rebecca Evans: I am grateful to the Minister for his statement and for his ongoing commitment to mitigating the worst effects of the UK Government's reforms. Minister, you

gweld yr adroddiad a baratowyd ar effaith y newidiadau mewn budd-daliadau tai ar fy etholwyr. Mae gen i, yn fy etholaeth, gryn dipyn o gyn-aelodau o'r lluoedd arfog sydd wedi ymladd dros eu gwlad, ac wedi cael anaf neu broblemau fel anhwylder straen wedi trawma. Beth yn eich barn chi fydd yr effaith arnynt hwy? A yw hyn yn cynrychioli'r brad eithaf o'r cyn-aelodau hynny o'r lluoedd arfog gan Lywodraeth y DU?

Leighton Andrews: Rwy'n canmol yr Aelod dros Bontypridd am y gwaith y mae wedi'i wneud yn y gorffennol ar fudd-daliadau tai a'r adroddiad a gyhoeddodd, mewn ymgynghoriad â sefydliadau yn ei etholaeth a thu hwnt. Mae'n hollol iawn i sôn am sefyllfa cyn-aelodau o'r lluoedd arfog. Credaf ein bod i gyd yn cofio un blaid wleidyddol yn cynnig cerdyn cyn-filwyr yn yr etholiad diwethaf a bellach mae Llywodraeth y blaid honno yn San Steffan yn ymosod ar fudd-daliadau miloedd lawer o'r cyn-filwyr sydd wedi gwasanaethu'r wlad hon. Mae llawer ohonom yn mabwysiadu eu hachosion wrth iddynt ddod i'n cymorthfeydd. Rydym yn sôn am bobl sydd weithiau'n cael anafiadau difrifol, ac maent weithiau yn dioddef o anhwylder straen wedi trawma. Rwyf wedi cael achosion yn fy etholaeth i lle mae pobl wedi gorfod apelio'n barhaus yn erbyn colli budd-daliadau ac wedi ennill yr apeladau hynny. Rwyf yn siŵr bod fy nghyd-Aelodau wedi cael profiadau tebyg. Felly, mae fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Bontypridd, yn iawn i amlygu'r mater hwnnw heddiw.

William Graham: Onid ydych yn cytuno bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig, drwy eithrio gweddwon rhyfel, pobl sydd ag anableddau difrifol a phobl sy'n derbyn credydau treth gwaith rhag y newidiadau arfaethedig, wedi gwrandao ar sylwadau ac wedi gweithredu i amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas?

Leighton Andrews: Nac ydw.

Rebecca Evans: Rwyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ei ddatganiad ac am ei ymrwymiad parhaus i liniaru effeithiau gwaethaf diwygiadau Llywodraeth y DU.

have confirmed what many of us had feared would be true—that the poorest households with children will be among the hardest hit by these reforms. Disability charities have warned that disabled people will be another group of those hardest hit by these reforms. Will you provide further detailed analysis, either today or in a written statement, of what the welfare reforms will mean particularly for disabled people in Wales?

Last year, Philip Davies, a Conservative Member of Parliament, suggested that disabled people should work for less than the national minimum wage. We of course thought that this was some sort of sick joke, but it now appears to be UK Government policy, with plans to force some long-term sick and disabled people to work unpaid for an unlimited amount of time or face having their benefits cut. You say in your statement that you would welcome a simpler benefits system that would make work pay. Will you, therefore, join me in condemning this unfair Government policy and outline how the Welsh Government will use the Jobs Growth Wales initiative to help disabled people into paid work?

Finally, the long-term unemployed—those who have been out of work for three years or more—can expect to do six months mandatory unpaid work experience. The coalition said that this should be for community benefit, but these programmes are administered by private companies, one of which confirmed to *The Guardian* last week that it sends the individuals concerned to private companies for this work experience. Do you share the Conservative definition of community benefit as including providing unpaid labour for private companies, which should really be offering their workforce a wage?

Leighton Andrews: I thank the Member for Mid and West Wales for raising those issues. She has a long record in working with charities for disabled people, and she is right to raise the impact of benefit cuts on people with disabilities. We have heard, not least today, from a number of organisations in

Weinidog, rydych wedi cadarnhau yr hyn mae llawer ohonom wedi ofni fyddai'n cael ei wireddu—sef y bydd yr aelwydydd tlotaf â phlant ymysg y rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan y diwygiadau hyn. Rhybuddiodd elusennau anabledd y bydd pobl anabl yn grŵp arall a fydd yn dioddef fwyaf oherwydd y diwygiadau hyn. A wnewch chi roi dadansoddiad manwl pellach, naill ai heddiw neu mewn datganiad ysgrifenedig, o'r hyn y bydd y diwygiadau lles yn ei olygu, yn enwedig i bobl anabl yng Nghymru?

Y llynedd, awgrymodd Philip Davies, Aelod Seneddol Ceidwadol, y dylai pobl anabl weithio am lai na'r isafswm cyflog cenedlaethol. Roeddem wrth gwrs yn meddwl mai rhyw fath o jôc ddi-chwaeth oedd hon, ond ymddengys bellach ei fod yn bolisi Llywodraeth y DU, gan fod cynlluniau i orfodi rhai pobl â salwch hirdymor a phobl anabl i weithio'n ddi-dâl am gyfnod diderfyn neu wynebu torri eu budd-daliadau. Rydych yn dweud yn eich datganiad y byddech yn croesawu system fudd-daliadau symlach a fyddai'n gwneud i waith dalu. A wnewch chi, felly, ymuno â mi i gondemnio'r polisi annheg hwn gan y Llywodraeth, ac a wnewch amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio menter Twf Swyddi Cymru i helpu pobl anabl i gael gwaith â thâl?

Yn olaf, gall pobl sy'n ddi-waith yn y tymor hir—y rhai a fu allan o waith am dair blynedd neu fwy—ddisgwyl gwneud chwe mis gorfodol o brofiad gwaith di-dâl. Dywedodd y glymblaid y dylai hyn fod er budd y gymuned, ond mae'r rhaglenni hyn yn cael eu gweinyddu gan gwmnïau preifat, a chadarnhaodd un ohonynt wrth *The Guardian* yr wythnos diwethaf ei fod yn anfon yr unigolion dan sylw i gwmnïau preifat ar gyfer y profiad gwaith hwn. A ydych yn cydfynd â'r diffiniad Ceidwadol o fudd i'r gymuned fel un sy'n cynnwys darparu llafur di-dâl i gwmnïau preifat, a ddylai mewn gwirionedd gynnig cyflog i'w gweithlu?

Leighton Andrews: Diolch i'r Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru am godi'r materion hynny. Mae ganddi hanes hir o weithio gydag elusennau ar gyfer pobl anabl, ac mae'n iawn iddi amlygu effaith toriadau i fudd-daliadau ar bobl ag anabledau. Rydym wedi clywed, yn enwedig heddiw, gan nifer o

Wales representing groups such as those for disabled people about the impact of the cuts. As I said in the statement, one reason why Wales will be hardest hit is the number of people receiving sickness and disability benefits. Therefore, she is right to raise these issues.

The fuller statement that we have published today contains around 30 pages of in-depth analysis of the impact of these changes on Wales. I urge all Members to read that analysis, alongside the work produced by the small charities coalition and other organisations under the Cuts Watch Cymru banner today, which is important.

The Member raises the issue of the impact on disabled people, and it is also worth mentioning specifically the impact of these benefit cuts on people who suffer from mental health issues. I am sure that a number of us have had people come to us over time with particular issues that have been exacerbated by the repeated need to justify their issues in front of tribunals and so on. Therefore, I think that those issues are understood. In developing plans for Jobs Growth Wales, we will look at how we can work with charities representing disabled people to maximise the opportunities for them. That work is ongoing as we move towards the formal launch of Jobs Growth Wales in due course.

The Member is right to raise the issue of work experience; it has been revealing over the past week how many companies that are widely known in the high street have been seeking to withdraw from some schemes. She is also right to identify that at least one company admitted that it had sent people on work experience to private homes, which seemed a strange activity in relation to the people associated with that company. None of us are against genuine work experience, which will operate to enable people to become more ready for work. We have seen good schemes in the past, including Job Match, which we run as a Government, under which people have been given proper support to get them back to work. It is that proper support that we want to see.

sefydliadau yng Nghymru sy'n cynrychioli grwpiau fel y rhai ar gyfer pobl anabl am effaith y toriadau. Fel y dywedais yn y datganiad, un rheswm pam y bydd Cymru yn dioddef fwyaf yw nifer y bobl sy'n derbyn budd-daliadau salwch ac anabledd. Felly, mae'n iawn iddi godi'r materion hyn.

Mae'r datganiad llawnach o'r hyn rydym wedi ei gyhoeddi heddiw yn cynnwys tua 30 tudalen o ddadansoddiad manwl o effaith y newidiadau hyn ar Gymru. Rwyf yn annog pob Aelod i ddarllen y dadansoddiad hwnnw, ynghyd â'r gwaith a gyhoeddwyd heddiw gan y glymblaid elusennau bach a sefydliadau eraill o dan faner Cuts Watch Cymru, sy'n bwysig.

Mae'r Aelod yn amlygu'r effaith ar bobl anabl, ac mae hefyd yn werth nodi'n benodol effaith y toriadau i fudd-daliadau ar bobl sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl. Rwyf yn siŵr fod nifer ohonom wedi cael pobl yn dod atom dros gyfnod o amser â phroblemau penodol a waethygydd oherwydd galw parhaus i'w cyfiawnhau o flaen tribiwnlysoedd, ac yn y blaen. Felly, rwyf yn credu bod y materion hynny yn cael eu deall. Wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer Twf Swyddi Cymru, byddwn yn edrych ar sut y gallwn weithio gydag elusennau sy'n cynrychioli pobl anabl i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae'r gwaith hwnnw'n parhau wrth i ni symud tuag at lansio Twf Swyddi Cymru'n ffurfiol maes o law.

Mae'r Aelod yn iawn i amlygu profiad gwaith; mae'r ffaith bod llawer o gwmnïau stryd fawr adnabyddus wedi bod yn ceisio tynnu'n ôl o rai cynlluniau wedi datgelu llawer dros yr wythnos diwethaf. Mae hi hefyd yn iawn i nodi bod o leiaf un cwmni wedi cyfaddef iddo anfon pobl ar brofiad gwaith i gartrefi preifat, a oedd yn ymddangos yn weithgaredd rhyfedd i'r bobl sy'n gysylltiedig â'r cwmni hwnnw. Nid oes yr un ohonom yn erbyn profiad gwaith go iawn, sydd â'r bwriad o alluogi pobl i fod yn fwy parod ar gyfer gwaith. Rydym wedi gweld cynlluniau da yn y gorffennol, gan gynnwys cynllun Paru Swyddi, yr ydym yn ei gynnal fel Llywodraeth, lle mae pobl wedi cael cefnogaeth briodol i'w cael yn ôl i'r gwaith. Dyna'r math o gymorth priodol

rydym am ei weld.

Janet Finch-Saunders: Minister, in your statement on 9 January you said that

‘the Welsh Government welcomes many of the aspirations of the UK Government’s welfare reforms; specifically the intention to create a simpler, more transparent benefit system, in which work pays and poverty can be tackled’.

You mentioned the Institute for Fiscal Studies today. However, you neglected to mention that, when the IFS was carrying out its analysis of the tax and benefit changes, including the universal credit, to be introduced by 2014, it stated that the incentive to undertake paid work will be strengthened for the UK population as a whole. Do you agree with Ed Miliband, who said in January that there need to be big changes in welfare and that

‘the most important thing is that we restore a greater sense of responsibility to the system’?

Do you further agree that the best way to restore a sense of responsibility to the welfare system will be to ensure that no household on benefits receives more than the average working family? Finally, do you regret Labour’s support at Westminster for a move towards regional benefits?

Leighton Andrews: She always reads her briefing notes very well, Llywydd. The reality is that we do not support a regional benefit cap or regional benefits. The Institute for Fiscal Studies has made a number of statements in its analysis of the UK Government’s proposals. The analysis shows that, on average, households in Wales can expect to lose 4.1% of their income. Of the 12 regions and countries that it has analysed, households in Wales are expected to have the fifth largest average cash loss. It is from the institute’s analysis that we derive the conclusion that the impact of these welfare reforms is likely to be even more regressive in Wales.

Janet Finch-Saunders: Weinidog, yn eich datganiad ar 9 Ionawr dywedasoch fod

‘Llywodraeth Cymru yn croesawu nifer o’r dyheadau sydd gan Lywodraeth y DU o ran diwygio lles. Yn benodol, mae’n croesawu’r bwriad i greu system fudd-daliadau symlach, fwy tryloyw, lle bydd gwaith yn talu ffordd a lle bydd modd inni fynd i’r afael â thlodi’.

Soniasoch am y Sefydliad Astudiaethau Cyllid heddiw. Fodd bynnag, ni wnaethoch sôn bod y sefydliad, pan oedd yn cynnal ei ddadansoddiad o’r newidiadau i dreth a budd-daliadau, gan gynnwys y credyd cyffredinol, sydd i’w gyflwyno erbyn 2014, wedi dweud y bydd y cymhelliant i weithio am gyflog yn cael ei gryfhau i boblogaeth y DU yn ei gyfanrwydd. A ydych yn cytuno ag Ed Miliband, a ddywedodd ym mis Ionawr fod angen gwneud newidiadau mawr o ran lles ac mai

y peth pwysicaf yw ein bod yn adfer mwy o ymdeimlad o gyfrifoldeb yn y system?

A ydych hefyd yn cytuno mai’r ffordd orau i adfer ymdeimlad o gyfrifoldeb yn y system les bydd sicrhau nad oes unrhyw aelwyd ar fudd-daliadau yn cael mwy na’r teulu cyffredin sy’n gweithio? Yn olaf, a ydych yn difaru bod Llafur yn San Steffan wedi cefnogi’r syniad o fudd-daliadau rhanbarthol?

Leighton Andrews: Mae hi bob amser yn cael hwyl ar ddarllen ei nodiadau briffio, Lywydd. Y gwir yw nad ydym yn cefnogi capio budd-daliadau yn rhanbarthol na budd-daliadau rhanbarthol. Gwnaeth y Sefydliad Astudiaethau Cyllid nifer o ddatganiadau wrth ddadansoddi cynigion Llywodraeth y DU. Mae’r dadansoddiad yn dangos, ar gyfartaledd, y gall aelwydydd yng Nghymru ddisgwyl colli 4.1% o’u hincwm. O’r 12 o ranbarthau a gwledydd a ddadansoddiwyd ganddo, disgwylir i aelwydydd yng Nghymru ddioddef y bumed golled fwyaf ar gyfartaledd o ran arian parod. Oherwydd dadansoddiad y sefydliad, daethom i’r casgliad bod effaith y diwygiadau lles hyn yn debyg o fod hyd yn oed yn fwy o gam yn ôl yng Nghymru.

Jenny Rathbone: I note that your statement highlights that the inner-city areas of Cardiff, as well as the Valleys and Swansea, will be hardest hit by the cuts to incapacity and disability benefits. I am sure that I am not the only Assembly Member who is getting people turning up at surgeries who are destitute because Atos Healthcare has deemed that they are fit for work and are, therefore, no longer eligible for disability benefits. However, they do not know how to navigate their way to the jobcentre to sign on to get any other benefits. In the light of the proposed abolition of the crisis loans and the community social care funds, how are we going to prevent these people from turning to loan sharks?

Leighton Andrews: We have discussed the issue of payday loans in recent weeks, and the support that we, as a Government, are giving to the credit union movement in particular is one way of trying to ensure that people do not end up paying exorbitantly high rates of interest. I am sure that the Member for Cardiff Central, along with other Members, will be encouraging her constituents to look at the opportunities provided by local credit unions. We, as a Government, have supported credit unions over the last decade.

We know that many of the fit-for-work assessments are being challenged on appeal, and many of those appeals are being won—very often, with the support of caseworkers employed by Assembly Members. We have all, probably, had experience of going through that process. We can all see where the problems lie. We are trying to put in place what we can, through the credit union movement and others, to mitigate the impacts, but ultimate responsibility has to be laid at the door of the UK Government.

Andrew R.T. Davies: Minister, thank you for your statement this afternoon. I agree wholeheartedly that it is incumbent upon us, as Members, and our staff to assist people when they find that they have difficulties with their benefits and claims. However, what has to be welcomed is the simplification of the benefits system, with assistance being given to individuals rather than based on a

Jenny Rathbone: Rwyf yn sylwi bod eich datganiad yn amlygu y bydd ardaloedd canol dinas Caerdydd, yn ogystal â'r Cymoedd ac Abertawe, yn cael eu taro galetaf gan y toriadau i fudd-daliadau anallu ac anabledd. Rwyf yn siŵr nad fi yw'r unig Aelod Cynulliad sy'n cael pobl yn dod i'w cynghorfeydd heb yr un geiniog oherwydd bod Atos Healthcare wedi barnu eu bod yn addas i weithio ac, felly, nad ydynt yn gymwys mwyach i gael budd-daliadau anabledd. Fodd bynnag, nid ydynt yn gallu canfod eu ffordd i'r ganolfan waith i lofnodi i gael unrhyw fudd-daliadau eraill. Yng ngoleuni'r bwriad i ddiddymu'r benthyciadau argyfwng a'r cronfeydd gofal cymdeithasol cymunedol, sut y byddwn yn atal y bobl hyn rhag troi at fenthycwyr arian didrwydded?

Leighton Andrews: Rydym wedi trafod benthyciadau diwrnod cyflog yn yr wythnosau diwethaf, ac mae'r gefnogaeth rydym ni, fel Llywodraeth, yn ei rhoi i'r mudiad undebau credyd yn arbennig yn un ffordd o geisio sicrhau nad yw pobl yn gorfod talu cyfraddau llog afresymol o uchel. Rwyf yn siŵr y bydd yr Aelod dros Ganol Caerdydd, ynghyd ag Aelodau eraill, yn annog ei hetholwyr i edrych ar y cyfleoedd a ddarperir gan undebau credyd lleol. Rydym ni, fel Llywodraeth, wedi cefnogi undebau credyd dros y degawd diwethaf.

Gwyddom fod llawer o'r asesiadau addas i weithio yn cael eu herio ar apêl, ac mae llawer o'r apeliadau hynny'n llwyddo—yn aml iawn, gyda chefnogaeth gweithwyr achos a gyflogir gan Aelodau Cynulliad. Mae'n debyg ein bod i gyd wedi cael profiad o fynd drwy'r broses honno. Gall pob un ohonom weld lle mae'r problemau. Rydym yn ceisio rhoi yr hyn a allwn ar waith, drwy'r mudiad undebau credyd ac eraill, i liniaru'r effeithiau, ond cyfrifoldeb Llywodraeth y DU ydyw yn y pen draw.

Andrew R.T. Davies: Weinidog, diolch i chi am eich datganiad y prynhawn yma. Cytunaf yn llwyr ei bod yn ddyletswydd arnom ni, fel Aelodau, a'n staff i gynorthwyo pobl pan fyddant yn gweld eu bod yn cael anawsterau o ran hawlio budd-daliadau. Fodd bynnag, yr hyn y dylid ei groesawu yw symleiddio'r system fudd-daliadau, gyda chymorth yn cael ei roi i unigolion yn hytrach na'i fod yn

corporate model that looks at people collectively. The current assessment model is a Labour model. The new model will look at individuals and their needs, targeting benefits specifically to those needs, which surely has to be a welcome addition to the benefits system to assist people on an individual basis.

Leighton Andrews: Many proposals and policies introduced by the last Labour Government have made a very specific improvement in the lives of individuals, such as working families' tax credit. These were individually targeted benefits, so I am not quite sure what he meant when he said that a corporate approach was taken by the last Government. One of the problems, when people talk about the simplification of the system is that, at present, as we see the moves towards universal credit, there are still many unknowns and we are still seeking answers from the UK Government, and have been seeking answers across a range of issues since I first met with Iain Duncan Smith in 2010. There are many unanswered questions. I do not say that the lack of information that we have on some of these issues is in any way malicious; I simply think that the answers do not exist. However, that is what concerns me when I hear people talk about simplification. The reality is that, until the system is properly worked through and until the changes are properly worked through, even in areas where we might believe that a simplification might result, we will not know until they finally happen.

seiliedig ar fodel corfforaethol sy'n ystyried pobl ar y cyd. Model Llafur yw'r model asesu ar hyn o bryd. Bydd y model newydd yn ystyried unigolion a'u hanghenion, gan dargedu budd-daliadau yn benodol i'r anghenion hynny, sy'n sicr o fod yn ychwanegiad i'w groesawu i'r system fudd-daliadau er mwyn helpu pobl ar sail unigol.

Leighton Andrews: Mae nifer o'r cynigion a'r polisiâu a gyflwynwyd gan y Llywodraeth Lafur ddiwethaf wedi gwella bywydau unigolion yn sylweddol, fel y credyd treth i deuluoedd sy'n gweithio. Roedd y rhain yn fudd-daliadau a dargedwyd yn unigol; felly, nid wyf yn hollol siŵr beth oedd yn ei olygu pan ddywedodd fod ymagwedd gorfforaethol wedi ei chymryd gan y Llywodraeth ddiwethaf. Un o'r problemau, pan fydd pobl yn siarad am symleiddio'r system, wrth inni weld symud tuag at gredyd cyffredinol, yw bod nifer o ffactorau yn dal yn anhysbys ar hyn o bryd, ac rydym yn dal i chwilio am atebion gan Lywodraeth y DU, a buom yn chwilio am atebion ar amryw o faterion ers y tro cyntaf i mi gyfarfod ag Iain Duncan Smith yn 2010. Mae llawer o gwestiynau heb eu hateb. Nid wyf yn dweud bod y diffyg gwybodaeth sydd gennym ar rai o'r materion hyn yn faleisus mewn unrhyw ffordd; credaf yn hytrach nad yw'r atebion yn bodoli. Fodd bynnag, dyna beth sy'n peri pryder i mi pan glywaf bobl yn siarad am symleiddio. Y gwir amdani yw, hyd nes y bydd y system yn gweithio'n iawn a'r newidiadau'n gweithio'n iawn, hyd yn oed mewn meysydd lle y gallem gredu y bydd symleiddio, ni fyddwn yn gwybod hyd nes eu bod yn digwydd.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.26 p.m.
The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.26 p.m.*

Datganiad: Cronfa Twf Economaidd Cymru Statement: The Wales Economic Growth Fund

The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart): Since I took office last year, I have continuously taken soundings from the business community on the key issues holding back jobs and growth. One barrier has been a constant: access to finance. Businesses are struggling to finance their investment plans as bank lending remains

Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart): Ers i mi ddod i rym y llynedd, rwyf wedi gwrandao'n gyson ar farn y gymuned fusnes ar y materion allweddol sy'n rhwystr i greu swyddi a thwf. Amlygwyd un rhwystr yn gyson, sef mynediad at gyllid. Mae busnesau yn cael trafferth i ariannu eu cynlluniau buddsoddi gan fod cael benthyciadau banc yn parhau i

difficult, overdraft facilities are curtailed and lending criteria tightened. Many have been drawing on personal savings to keep their businesses going. This is not sustainable.

The recent bank lending figures show that the banks are falling short of their lending targets and I will continue to press for a breakdown of lending figures for businesses based in Wales. I do not want to see viable businesses in Wales unable to grow because of the more risk averse attitude of the banks.

That was one of the main reasons why I announced two major funding packages in November last year to support business growth across Wales. The first was the Wales SME investment fund, administered by Finance Wales on my behalf, which will be open for applications from businesses across Wales next month. This is a £40 million fund, which will complement the existing JEREMIE fund and will ensure that SMEs, including those that deal directly with consumers, can access essential finance in the form of equity and loans and are eligible for repayable capital investment. The second was the Wales economic growth fund—a £15 million non-repayable funding package to SMEs across Wales. I am taking the opportunity to provide Assembly Members with a full update on this fund today.

I launched the economic growth fund as a short-term, fast-track fund for businesses, providing immediate access to capital funding for investments. My aim is to provide financial support, where we can, to help businesses to invest and to create and safeguard jobs, which in turn will stimulate the economy, as well as bringing forward projects that would not otherwise go ahead this year. I opened the fund for applications from 12 December 2011 to the end of January 2012, to Welsh businesses, businesses looking to invest in Wales and third sector organisations that could bring forward projects with a sound business case and could demonstrate an economic benefit for Wales. Given the economic circumstances, I broadened the criteria to

fod yn anodd, cyfleusterau gorddrafft yn cael eu cwtogi a bod meini prawf benthyca wedi cael eu tynhau. Mae llawer wedi bod yn defnyddio cynilion personol i gynnal eu busnes. Nid yw hyn yn gynaliadwy.

Dengys y ffigurau diweddar ynglŷn â benthyca gan fanciau fod y banciau yn methu eu targedau benthyca, a byddaf yn parhau i bwysu am ddadansoddiad o'r ffigurau o ran benthyca i fusnesau yng Nghymru. Nid wyf am weld busnesau hyfyw yng Nghymru yn methu tyfu oherwydd yr agwedd fwy gwrth-risg a goleddir gan y banciau.

Dyna oedd un o'r prif resymau pam y cyhoeddais ddau becyn mawr o arian ym mis Tachwedd y llynedd i gefnogi twf busnesau ar draws Cymru. Y cyntaf oedd y gronfa fuddsoddi i fusnesau bach a chanolig Cymru, a weinyddir gan Cyllid Cymru ar fy rhan, ac a fydd ar agor i gael ceisiadau gan fusnesau ledled Cymru y mis nesaf. Mae hon yn gronfa sy'n werth £40 miliwn, a fydd yn ategu cronfa bresennol JEREMIE, a bydd yn sicrhau y gall busnesau bach a chanolig, gan gynnwys y rhai sy'n delio'n uniongyrchol â defnyddwyr, gael gafael ar gyllid hanfodol ar ffurf ecwiti a benthyciadau, a'u bod yn gymwys i gael buddsoddiad cyfalaf ad-daladwy. Yr ail oedd cronfa twf economaidd Cymru—pecyn gwerth £15 miliwn nad yw'n ad-daladwy i fusnesau bach a chanolig ledled Cymru. Rwyf am gymryd y cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gronfa hon i Aelodau'r Cynulliad heddiw.

Lansiais y gronfa twf economaidd fel cronfa tymor byr, llwybr carlam i fusnesau, gan ddarparu mynediad syth at gyllid cyfalaf ar gyfer buddsoddiadau. Fy nod yw darparu cymorth ariannol, lle y gallwn, i helpu busnesau i fuddsoddi ac i greu swyddi a'u diogelu, a fydd, yn ei dro, yn rhoi hwb i'r economi, yn ogystal â chyflwyno prosiectau na fyddai'n cael eu cyflwyno fel arall eleni. Agorais y gronfa i geisiadau rhwng 12 Rhagfyr 2011 a diwedd mis Ionawr 2012, gan fusnesau yng Nghymru, busnesau sy'n bwriadu buddsoddi yng Nghymru a sefydliadau trydydd sector a allai gyflwyno prosiectau sydd ag achos busnes cadarn ac a allai ddangos budd economaidd i Gymru. O ystyried yr amgylchiadau economaidd, ehangais y meini prawf i gynnwys busnesau

include businesses across the economy, and we have seen a number of applications from companies that would not necessarily have been eligible for the repayable business finance scheme because of this.

We received 498 applications with a grant request value of £155 million. With applications worth over 10 times the available funding, it is clear that there are hundreds of businesses with ambitions to grow and create and retain jobs in Wales. Around 80% of these applications were received in the final few days of the fund. The fund generated 1,757 inquiries via my business information helpline team. During week one alone, the helpline received 370 inquiries by telephone, while, during the last week of the scheme, the call volumes increased to 720.

Due to the very high levels of interest in the fund, the 14-working-day timescale for a decision to applicants had to be extended by a further 21 days. Where this would cause contractual problems, applicants have been advised to speak to their sector contact or the business advice helpline. The extra 21-day deadline will ensure that all applications are appraised fairly and with the relevant due diligence to ensure value for money to the public purse.

3.30 p.m.

We have already made offers to 41 businesses with a value of just over £12 million. These are expected to create and safeguard around 1,300 jobs in Wales. There is still a great deal of work to be done to assist the companies to undertake the projects. Businesses will be supported throughout the process to ensure that the appropriate funding is claimed and that as many of the projected jobs as possible are created or safeguarded during the 2012 calendar year. I was delighted to meet representatives of the company Drias Transnat, which will be moving to Cardiff with the immediate creation of 30 jobs. Cardiff was in competition with other parts of the UK and Europe for this investment, but the availability and intervention of the fund

ar draws yr economi, ac rydym wedi gweld nifer o geisiadau gan gwmnïau na fyddai o reidrwydd wedi bod yn gymwys i'r cynllun cyllid busnes ad-daladwy oherwydd hyn.

Cawsom 498 o geisiadau, a gwnaed ceisiadau am £155 miliwn mewn grantiau. Gan fod y ceisiadau yn werth dros 10 gwaith yn fwy na'r cyllid sydd ar gael, mae'n amlwg bod cannoedd o fusnesau ag uchelgais i dyfu ac i greu a chadw swyddi yng Nghymru. Daeth tua 80% o'r ceisiadau hyn i law yn nyddiau olaf y gronfa. Ysgogodd y gronfa 1,757 o ymholiadau drwy fy nhîm llinell gymorth gwybodaeth busnes. Yn ystod yr wythnos gyntaf yn unig, cafodd y llinell gymorth 370 o ymholiadau dros y ffôn, a chynyddodd nifer y galwadau i 720 yn ystod wythnos olaf y cynllun.

Oherwydd bod diddordeb sylweddol iawn yn y gronfa, bu'n rhaid ymestyn yr amserlen 14 diwrnod gwaith ar gyfer rhoi penderfyniad i ymgeiswyr i 21 o ddiwrnodau. Lle byddai hyn yn achosi problemau cytundebol, cynghorwyd ymgeiswyr i siarad â'r person cyswllt ar gyfer eu sector neu â'r llinell gymorth cyngor busnes. Bydd y dyddiad cau 21 diwrnod estynedig yn sicrhau bod yr holl geisiadau yn cael eu harfarnu'n deg a chyda'r diwydrwydd dyladwy perthnasol er mwyn sicrhau bod gwerth am arian i'r pwrs cyhoeddus.

Rydym eisoes wedi gwneud cynigion gwerth ychydig dros £12 miliwn i 41 o fusnesau. Disgwylir i'r rhain greu a diogelu tua 1,300 o swyddi yng Nghymru. Mae llawer iawn o waith i'w wneud i gynorthwyo cwmnïau i ymgymryd â'r prosiectau. Bydd busnesau yn cael eu cefnogi drwy gydol y broses i sicrhau bod y cyllid priodol yn cael ei hawlio a bod cymaint â phosibl o'r swyddi a ragwelir yn cael eu creu neu eu diogelu yn ystod blwyddyn galendr 2012. Roeddwn yn falch iawn o gyfarfod â chynrychiolwyr cwmni Drias Transnat, a fydd yn symud i Gaerdydd ac yn creu 30 o swyddi yn syth. Roedd Caerdydd yn cystadlu â rhannau eraill o'r DU ac Ewrop am y buddsoddiad hwn, ond sicrhaodd argaeledd ac ymyrraeth y gronfa, yn ogystal â'r dull sector, mai Caerdydd

as well as the sector approach ensured that Cardiff won the investment. The offer of funding is only a springboard for the company's plans. The company intends to create at least a further 20 jobs in the next few years. For an economic growth fund investment of just £162,000, this represents good value for the public purse.

I recently visited Tallent Automotive based in Llanelli to announce an offer of funding. A total of £12 million of investment that the parent company is making in the plant is testament to the workforce based there. I am delighted that the economic growth fund can assist with securing the medium-term future of the plant and safeguarding 302 jobs at the site. Of course, this is not the only form of financial support available; the economic growth fund complements the other services available from my department and, indeed, across the Welsh Government portfolio, where my officials and officials from the Department for Education and Skills work together on issues such as training.

Overall, the feedback we have received has been very positive, although we did receive some feedback expressing concern about the level of the grants, the short deadline for receiving applications and the match funding required. A number of Members have also raised these issues with me, and I have already made a commitment to you to take this feedback on board when considering future options around funding schemes. I recognise that the match funding requirement presents difficulties for some companies. We are unable to change the intervention rates due to state aid guidelines. However, my officials are able to signpost businesses that are having difficulty with obtaining the match funding to appropriate private sector institutions, including Finance Wales. As for the feedback on flexibility and deadlines, the short call for applications was needed to create an immediate economic stimulus. We have provided businesses with very quick access to funding, enabling them to take forward projects that will secure and create a significant number of jobs in Wales.

As a result of the high number of applications, the quality of those applications,

enillodd y buddsoddiad. Sbardun yn unig i gynlluniau'r cwmni yw'r cynnig o gyllid. Mae'r cwmni'n bwriadu creu o leiaf 20 o swyddi yn y blynnydoedd nesaf. Am fuddsoddiad o'r gronfa twf economaidd o £162,000 yn unig, mae hyn yn cynrychioli gwerth da i'r pwrs cyhoeddus.

Yn ddiweddar, ymwelais â chwmni Tallent Automotive yn Llanelli i gyhoeddi cynnig o gyllid. Mae'r buddsoddiad o £12 miliwn y mae'r rhiant-gwmni yn ei wneud yn y gwaith yn dyst i'r gweithlu yno. Rwy'n falch iawn y gall y gronfa twf economaidd helpu i sicrhau dyfodol tymor canolig y gwaith a diogelu 302 o swyddi ar y safle. Wrth gwrs, nid dyma'r unig fath o gymorth ariannol sydd ar gael; mae'r gronfa twf economaidd yn ategu'r gwasanaethau eraill sydd ar gael gan fy adran ac, yn wir, ar draws portffolio Llywodraeth Cymru, lle mae fy swyddogion a swyddogion o'r Adran Addysg a Sgiliau yn gweithio gyda'i gilydd ar faterion megis hyfforddiant.

At ei gilydd, mae'r adborth a gawsom wedi bod yn gadarnhaol iawn, er inni gael peth adborth yn mynegi pryder ynghylch lefel y grantiau, y dyddiad cau byr ar gyfer derbyn ceisiadau a'r cyllid cyfatebol sydd ei angen. Mae nifer o Aelodau hefyd wedi codi'r materion hyn gyda mi, ac rwyf eisoes wedi gwneud ymrwymiad i chi i ystyried yr adborth hwnnw wrth ystyried opsiynau yn y dyfodol ar gyfer y cynlluniau ariannu. Rwy'n cydnabod bod y gofyniad am ariannu cyfatebol yn peri anawsterau i rai cwmnïau. Ni allwn newid y cyfraddau ymyrraeth o ganlyniad i ganllawiau cymorth gwladwriaethol. Fodd bynnag, mae fy swyddogion yn gallu cyfeirio busnesau sy'n cael trafferth cael yr arian cyfatebol i sefydliadau sector preifat priodol, gan gynnwys Cyllid Cymru. O ran yr adborth ar hyblygrwydd a therfynau amser, roedd angen terfyn amser byr er mwyn creu sbardun economaidd ar unwaith. Rydym wedi darparu mynediad cyflym iawn at gyllid i fusnesau, gan eu galluogi i ddatblygu prosiectau a fydd yn sicrhau ac yn creu nifer sylweddol o swyddi yng Nghymru.

O ganlyniad i'r nifer uchel o geisiadau, ansawdd y ceisiadau hynny, a llwyddiant y

and the success of the fund, I have taken steps to identify additional funds from my budget. Today I am announcing that, from April, I will be putting an additional £15 million into this round of the Wales economic growth fund, offering support to around 70 further companies, creating and safeguarding around 1,200 further jobs over the next 14 months. I will ensure that my officials continue to look at projects that represent the best value for money as they have been doing with the offers made to date.

However, even with the additional £15 million, there will be businesses that will not receive funding under the current scheme. I am ensuring that there is someone for them to contact to explore other avenues of funding, whether that is from the Welsh Government, Finance Wales or their local authority, where applicable. For example, repayable business finance is still available via the sectors, as is the tourism investment support scheme and various innovation funding. Given the success of the scheme, I will also be exploring options for a future fund, learning the lessons from our experience of delivering this fund.

The high number of applications and the success of the scheme also illustrate the fact that many Welsh companies, particularly in the SME sector, have expansion plans and projects but are experiencing difficulties accessing the necessary capital. The number is far greater than the number that can be supported through this fund. Therefore, I urge the banks to not only take note of the unmet ambitions to grow, create and retain jobs in Wales, but to take action.

Nick Ramsay: Minister, I welcome this statement and the additional £15 million to provide businesses with the support they need at this moment. The second line of your statement went to the heart of the problem we face, namely the availability of finance and the ability of businesses, particularly those that want to grow, to gain finance at this difficult time when some banks are being less than obliging. I have three questions on three parts of your statement. First, you speak

gronfa, rwyf wedi cymryd camau i ddod o hyd i arian ychwanegol yn fy nghyllideb. Heddiw rwy'n cyhoeddi y byddaf, o fis Ebrill, yn rhoi £15 miliwn ychwanegol yn y rownd hon o gronfa twf economaidd Cymru, a fydd yn cynnig cymorth i tua 70 o gwmnïau eraill, ac yn creu a diogelu tua 1,200 o swyddi pellach dros y 14 mis nesaf. Byddaf yn sicrhau bod fy swyddogion yn parhau i edrych ar brosiectau sy'n cynrychioli'r gwerth gorau am arian fel y maent wedi bod yn ei wneud â'r cynigion a wnaed hyd yn hyn.

Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r £15 miliwn ychwanegol, ni fydd rhai busnesau yn cael cyllid o dan y cynllun presennol. Rwy'n sicrhau bod rhywun ar gael iddynt gysylltu â hwy er mwyn edrych ar ffyrdd ariannu eraill, boed hynny o Lywodraeth Cymru, Cyllid Cymru neu'r awdurdod lleol, lle bo'n berthnasol. Er enghraifft, mae cyllid busnes ad-daladwy yn parhau i fod ar gael drwy gyfrwng y sectorau, fel y mae'r cynllun cymorth buddsoddi mewn twristiaeth a chyllid arloesedd amrywiol. O ystyried llwyddiant y cynllun, byddaf hefyd yn archwilio opsiynau ar gyfer cronfa yn y dyfodol, gan ddysgu'r gwersi o'n profiad o ddarparu'r gronfa hon.

Mae nifer uchel y ceisiadau a llwyddiant y cynllun hefyd yn dangos y ffaith bod gan lawer o gwmnïau o Gymru, yn enwedig yn y sector busnesau bach a chanolig, gynlluniau a phrosiectau ehangu ond maent yn cael anawsterau i gael mynediad at y cyfalaf angenrheidiol. Mae'r nifer yn llawer uwch na'r nifer y gellir eu cefnogi drwy'r gronfa hon. Felly, rwy'n annog y banciau nid yn unig i ddiwallu uchelgais cwmnïau i dyfu ac i greu a chadw swyddi yng Nghymru, ond hefyd i weithredu.

Nick Ramsay: Weinidog, rwy'n croesawu'r datganiad hwn a'r £15 miliwn ychwanegol i ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen ar fusnesau ar hyn o bryd. Aeth ail linell eich datganiad yn syth at wraidd y broblem sy'n ein hwynebu, sef argaeledd cyllid a gallu busnesau, yn enwedig y rhai sydd eisiau tyfu, i gael cyllid ar yr adeg anodd hon pan fydd rhai banciau yn anfodlon ei roi. Mae gennyf dri chwestiwn ar dair rhan o'ch datganiad. Yn gyntaf, rydych yn dweud bod eich

about your officials looking at projects that represent the best value for money, something you say they have been doing with the offers that have been made to date. I am always interested by the term 'best value' and what it actually means. Can you tell the Chamber exactly what criteria your officials are using to determine what is best value? Best value does not always mean the cheapest option, and I am sure that it will not always be an offer based on the least amount of money. It is about ensuring that you are getting the most out of each pound spent. I would be interested to know how your officials are achieving that.

Secondly, you talk about the fact that although an additional 70 business will hopefully be supported by the new funding you have announced, there will be a large number of businesses that will have put bids in that will, understandably and regrettably, be disappointed not to receive the money that they would like to have had. You say that you will ensure that there is someone for them to contact to explore those other avenues of funding, whether that is from the Welsh Government, Finance Wales or the local authority, where applicable. Clearly, it is important for those businesses to have access to that information as quickly as possible. In my meetings with you and business people over the last few months, we have spoken about the frustration of some businesses when they feel that they are not getting the instant response that they would like. That could mean telling them that they are not going to get money, but, even so, they need to know as quickly as possible. Business moves fast, and they need civil servants to move fast as well.

Your statement mentions the risk-averse nature of some in the banking sector. Of course, there is a risk-averse nature among some civil servants as well, which businesses have often encountered. I would be interested to know how, in allocating this funding, you have ensured that something that might not seem the best bet at first but which provides innovation down the line, will receive funding. How will your civil servants ensure that they give money to a business that might

swyddogion yn edrych ar brosiectau sy'n cynrychioli'r gwerth gorau am arian, rhywbeth yr ydych yn dweud eu bod wedi bod yn ei wneud â'r cynigion a wnaed hyd yn hyn. Mae'r term 'gwerth gorau' a'r hyn y mae'n ei olygu mewn gwirionedd bob amser o ddiddordeb imi. Allwch chi ddweud wrth y Siambr yn union pa feini prawf y mae eich swyddogion yn eu defnyddio i benderfynu beth yw gwerth gorau? Nid yw gwerth gorau bob amser yn golygu'r dewis rhataf, ac rwy'n siŵr na fydd y cynnig bob amser yn seiliedig ar y swm lleiaf o arian. Mae'n ymwneud â sicrhau eich bod yn cael y mwyaf o bob punt a gaiff ei gwario. Hoffwn wybod sut y mae eich swyddogion yn cyflawni hynny.

Yn ail, rydych yn sôn am y ffaith, er y bydd 70 o fusnesau ychwanegol, gobeithio, yn cael cefnogaeth gan y cyllid newydd yr ydych wedi'i gyhoeddi, y bydd nifer fawr o fusnesau a fydd wedi cyflwyno ceisiadau, yn ddealladwy ac yn anffodus, yn siomedig o beidio â chael yr arian y byddent wedi hoffi ei gael. Rydych yn dweud y byddwch yn sicrhau bod rhywun ar gael iddynt gysylltu â hwy i archwilio ffyrdd eraill o gael cyllid, boed hynny o Lywodraeth Cymru, Cyllid Cymru neu'r awdurdod lleol, lle bo'n berthnasol. Yn amlwg, mae'n bwysig i'r busnesau hynny gael mynediad at y wybodaeth honno cyn gynted ag y bo modd. Yn fy nghyfarfodydd â chi a phobl fusnes yn ystod y misoedd diwethaf, rydym wedi siarad am rwystredigaeth rhai busnesau pan fyddant yn teimlo nad ydynt yn cael yr ymateb cyflym hwnnw y byddent yn hoffi ei gael. Gallai hynny olygu dweud wrthynt nad ydynt yn mynd i gael arian, ond, serch hynny, mae angen iddynt wybod hynny cyn gynted ag y bo modd. Mae byd busnes yn symud yn gyflym, ac mae angen i weision sifil symud yn gyflym hefyd.

Mae eich datganiad yn sôn fod rhai yn y sector bancio yn gyndyn i gymryd risgiau. Wrth gwrs, mae natur gwrth-risg ymysg rhai gweision sifil yn ogystal, sy'n rhywbeth y mae busnesau wedi dod ar ei draws yn aml. Mae gennyf ddiddordeb gwybod sut, wrth ddyrannu'r cyllid hwn, rydych wedi sicrhau bod rhywbeth nad yw'n ymddangos yn rhy addawol ar yr olwg gyntaf ond sy'n darparu arloesedd yn ddiweddarach, yn derbyn cyllid. Sut y bydd eich gweision sifil yn sicrhau eu

not seem the best option at the start, but, down the line, provides the best growth and number of jobs for people in Wales?

I also want to talk about match funding, which makes up a large part of your statement. Concerns have been raised with you about match funding; I have certainly had concerns raised with me, as have other Assembly Members. There has been a particular concern, as you know, about the need for businesses in certain parts of Wales to match fund. For example, in Cardiff, some companies had to put in £400,000 in order to have £100,000 back. In other Europe-assisted areas of Wales, it was a ratio of £100,000 to £100,000. It seems to me that if companies are coming to you with an urgent need for money, they are probably companies that are least able to put their hands in their back pocket and come up with that sort of money in the short term. I would be interested to know how you have ensured that those businesses that receive the money are those most in need and that really deserve it.

You spoke about future options. As you said at the start of your statement, the whole point of this is to provide an immediate economic stimulus. Companies out there need that financial support as soon as possible—they need it now. So, future options are probably less important, with regard to this statement, than assisting those companies that have not been able to access funding now. I would be grateful if you could tell us more about the team that you have in place to ensure that those companies are being looked after well. There is also a need to mitigate the concern raised, for example, by a businessman who applied for funding in Cardiff and who said that he felt that there was small text at the bottom of a PDF document stating that he did not meet the necessary criteria. I would be grateful to hear your response to all of these concerns.

Edwina Hart: You are always wary when you introduce a grant scheme in Government because you know that there will be disappointed applicants across the piece. We see tremendous need, as I am sure the

bod yn rhoi arian i fusnes nad yw'n ymddangos fel yr opsiwn gorau ar y dechrau, ond, yn ddiweddarach, yn rhoi'r twf a'r nifer gorau o swyddi i bobl yng Nghymru?

Rwyf hefyd eisiau siarad am arian cyfatebol, sy'n rhan fawr o'ch datganiad. Mae pobl wedi codi pryderon â chi am arian cyfatebol; yn sicr, mae pobl wedi codi pryderon â mi, ac Aelodau eraill y Cynulliad. Bu pryder arbennig, fel y gwyddoch, am yr angen i fusnesau mewn rhai rhannau o Gymru i gynnig arian cyfatebol. Er enghraifft, yng Nghaerdydd, mae rhai cwmnïau wedi gorfod rhoi £400,000 i mewn er mwyn cael £100,000 yn ôl. Mewn rhannau eraill o Gymru sy'n cael cymorth Ewropeaidd, y gymhareb oedd £100,000 i £100,000 i'w chael. Mae'n ymddangos i mi, os yw cwmnïau yn dod atoch ag angen brys am arian, mae'n debyg mai nhw yw'r cwmnïau sydd lleiaf tebygol o allu dod o hyd i'r math hwnnw o arian yn y tymor byr. Byddai gennyf ddiddordeb gwybod sut yr ydych wedi sicrhau mai'r busnesau sydd fwyaf mewn angen ac sydd wir yn ei haeddu sy'n cael yr arian.

Rydych yn sôn am opsiynau yn y dyfodol. Fel y gwnaethoch ddweud ar ddechrau eich datganiad, holl bwynt hwn yw darparu sbardun economaidd ar unwaith. Mae angen y cymorth ariannol ar gwmnïau cyn gynted ag y bo modd—maent ei angen yn awr. Felly, mae opsiynau yn y dyfodol yn debygol o fod yn llai pwysig, o ran y datganiad hwn, na chynorthwyo'r cwmnïau hynny nad ydynt wedi llwyddo i gael cyllid hyd yn hyn. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddweud mwy wrthym am y tîm sydd gennych sy'n sicrhau bod y cwmnïau yn cael gofal da. Hefyd, mae angen lleddfu ar y pryder a godwyd, er enghraifft, gan ddyn busnes a wnaeth gais am gyllid yng Nghaerdydd ac a ddywedodd ei fod yn teimlo bod testun bach ar waelod dogfen PDF yn datgan nad oedd yn bodloni'r meini prawf angenrheidiol. Byddwn yn ddiolchgar i glywed eich ymateb i bob un o'r pryderon hyn.

Edwina Hart: Mae rhywun bob tro'n wylriadwrus wrth gyflwyno cynllun grant gan y Llywodraeth oherwydd eich bod yn gwybod y bydd rhai ymgeiswyr yn cael eu siomi. Rydym yn gweld angen aruthrol, fel yr

opposition spokesperson would agree, for investment in business in these difficult times, particularly given the attitude of the banks towards some businesses. We are trying to help with the lack of business confidence out there by putting this cash in, and it helps some businesses enormously.

You referred to best value for money, and I concur with you that the cheapest option does not necessarily offer the best value for money. We have tried to get to the core and look at where we can put money in in order to secure the maximum win with regard to job retention and, possibly, job creation. I am happy to share with Members the criteria that we have been using as part of this scheme if that would be helpful.

With regard to what we have supported, I have designated officers in the teams, which means senior staff continually assessing these projects. What I have indicated is that if people are disappointed and worried about where to go next, there should be someone explicitly there for them to be able to talk to about their concerns around why they did not have the money and where else they can go. I think that we have to manage that and I concur very much with your comments on this point.

In terms of being risk averse in nature, I am now encouraging my officials to be less risk averse. As long as you are able to manage and understand the risk, I believe that it is possible to do business. It is also important to think outside the box when you are giving support, which was your other point. There are some business about which you think, 'I have never dealt with a business like this before; is it really going to do the job?' We really have to get out of that mindset, because we should give due consideration to anything that comes into Wales with an opportunity to encourage jobs.

In terms of the issues you raise, you spoke about intervention in non-assisted areas, namely Powys, Cardiff and Newport. The fund is administered under European state aid rules via the general block exemption regulation, so the intervention rate allowed under regional aid is based on the assisted

wyf yn siŵr y byddai llefarydd yr wrthblaid yn cytuno, i fuddsoddi mewn busnes yn y cyfnod anodd hwn, yn enwedig o ystyried agwedd y banciau tuag at rai busnesau. Rydym yn ceisio helpu gyda diffyg hyder busnes drwy roi'r arian hwn ac mae'n helpu rhai busnesau yn aruthrol.

Gwnaethoch gyfeirio at werth gorau am arian, ac rwy'n cytuno â chi nad yw'r opsiwn rhataf o reidrwydd yn cynnig y gwerth gorau am arian. Rydym wedi ceisio mynd i graidd y mater ac edrych ar ble y gallwn roi arian er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posibl o ran cadw swyddi ac, o bosibl, creu swyddi. Rwy'n hapus i rannu gyda'r Aelodau y meini prawf yr ydym wedi bod yn eu defnyddio fel rhan o'r cynllun hwn os byddai hynny o gymorth.

O ran yr hyn yr ydym wedi ei gefnogi, rwyf wedi dynodi swyddogion yn y timau, sy'n golygu bod uwch-aelodau o staff yn asesu'r prosiectau hyn yn barhaus. Yr hyn yr wyf wedi ei nodi yw, os yw pobl yn siomedig ac yn poeni am ble i fynd nesaf, dylai rhywun fod yno yn benodol i siarad â hwy am eu pryderon ynghylch pam nad oeddynt wedi cael yr arian a lle arall y gallant fynd. Rwy'n meddwl bod yn rhaid inni reoli hynny a chytunaf yn fawr iawn gyda'ch sylwadau ar y pwynt hwn.

O ran bod yn gyndyn i gymryd risgiau, rwy'n annog fy swyddogion yn awr i fod yn llai cyndyn i gymryd risgiau. Cyn belled â'ch bod yn gallu rheoli a deall y risg, rwy'n credu bod modd cyflawni pethau. Mae hefyd yn bwysig meddwl yn greadigol pan fyddwch yn rhoi cefnogaeth, sef eich pwynt arall. Rydych yn meddwl am rai busnesau, 'Nid wyf erioed wedi ymdrin â busnes fel hwn o'r blaen; a yw wir yn mynd i wneud y gwaith?' Mae'n rhaid inni roi'r gorau i'r meddylfryd hwnnw, oherwydd dylem roi ystyriaeth ddyledus i unrhyw beth sy'n dod i Gymru gyda chyfle i annog swyddi.

O ran y materion a godir gennych, gwnaethoch sôn am ymyrraeth mewn ardaloedd nad ydynt yn cael cymorth, sef Powys, Caerdydd a Chasnewydd. Gweinyddir y gronfa o dan reolau cymorth gwladwriaethol Ewropeaidd drwy gyfrwng y rheoliad eithriad bloc cyffredinol, felly mae'r

area status. In addition, funding for the scheme can be made via de minimis aid, which offers a higher percentage but has a limit of €200,000 in a three-year fiscal period. So, there are rules and regulations around this.

Regarding your other comment about what we do in the future, which I think is also important, I am talking about kick-starting the present, but I will be consulting with businesses to see how effective they think this grant system has been and what I might be looking to do during the rest of 2012.

Alun Ffred Jones: Diolch am y datganiad a'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun. Nid yw'n syndod bod nifer fawr o geisiadau am arian gan fusnesau; gwn fod ceisiadau o fy etholaeth i ac rwy'n gobeithio y bydd rhai ohonynt yn llwyddiannus. Fodd bynnag, fel rydych yn nodi-ac mae fy mhrofiad innau yn cadarnhau hyn-y broblem sylfaenol yw argaeledd arian ar gyfer buddsoddi. Hwn yw'r allwedd i ffyniant busnesau a chyflogaeth yng Nghymru i'r dyfodol, ac mae banciau'r stryd fawr wedi'n gadael i lawr unwaith eto, fel y nodwyd gennyh yn eich datganiad. Yn hynny o beth, rwy'n croesawu'r cadarnhad y bydd y gronfa fuddsoddi ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru, sef arian a neilltuwyd gan eich rhagflaenydd, Ieuan Wyn Jones, ar gyfer cyfalaf risg, yn parhau ac y byddwch yn defnyddio'r gronfa honno ar gyfer benthyciadau.

Mae gennyf dri chwestiwn. Er bod yr arian grant rydych wedi'i ddatgan a'i ehangu yma heddiw yn fuddiol, ni all y Gweinidog ddiwallu'r angen i gyd. Rydych yn sôn am tua 100 neu 110 o gwmnïau llwyddiannus, sy'n gadael 400 o gwmnïau sydd wedi gwneud ceisiadau ond na fydd yn llwyddiannus. Felly, beth rydych am ei wneud i sicrhau y bydd arian ar gael fel cyfalaf risg i gwmnïau fuddsoddi yn y dyfodol er mwyn cryfhau economi Cymru? Gan nodi eich geiriau chi, sef '*I urge the banks*', a oes modd ichi wneud mwy na hynny i sicrhau bod arian cyfalaf ar gael?

gyfradd ymyrraeth a ganiateir o dan gymorth rhanbarthol yn seiliedig ar statws yr ardal a gynorthwyr. Yn ogystal, gall cyllid ar gyfer cynllun gael ei wneud drwy gyfrwng cymorth de minimis, sy'n cynnig canran uwch, ond mae terfyn o €200,000 mewn cyfnod o dair blynedd ariannol. Felly, mae rheolau a rheoliadau ynghylch hyn.

O ran eich sylwadau eraill ynglŷn â'r hyn yr ydym yn ei wneud yn y dyfodol, sydd hefyd yn bwysig, rwy'n sôn am roi sbardun cychwynnol i'r presennol, ond byddaf yn ymgynghori â busnesau i weld pa mor effeithiol y maent yn credu y mae'r system grantiau hon wedi bod, ac ynglŷn â'r hyn y gallaf ystyried ei wneud yn ystod gweddill 2012.

Alun Ffred Jones: Thank you for the statement and the update on the scheme. It comes as no surprise that there are many applications for funding from businesses; I know that there are applications from my constituency and I hope that some of them will be successful. However, as you note—and my own experience confirms this—the fundamental problem is the availability of money for investment. This is key to the future success of businesses and to employment growth in Wales, and the high street banks have let us down once again, as you noted in your statement. In that regard, I welcome the confirmation that the investment fund for small and medium-sized enterprises in Wales, that is, the money that was set aside by your predecessor, Ieuan Wyn Jones, for risk capital, will continue and that you will use that fund for loans.

I have three questions. Although the grant funding that you have declared and extended here today is beneficial, the Minister cannot meet the entire need. You are talking about 100 or 110 successful companies, which will leave 400 companies that have applied that will not be successful. Therefore, what do you intend to do to ensure that funding will be available as risk capital so that companies can invest in the future to strengthen the economy of Wales? In noting your words, '*I urge the banks*', is it possible for you to do more than that to ensure that capital funding is available?

Yn ail, a yw'r Gweinidog yn dal i lynu at egwyddorion rhaglen adnewyddu'r economi neu a oes newid sylfaenol yn y polisi? Yn olaf, a fyddwch yn rhyddhau rhestr o gwmnïau sydd wedi bod yn llwyddiannus, ac, os felly, pryd rydych yn debygol o wneud hynny?

Edwina Hart: I will deal with your points in reverse order. With regard to the list of companies that have been successful, if they are happy for us to release the details, in case there might be any commercial sensitivity, I will try to ensure that a list is provided for Members when we have finished allocating money from the fund.

The economic renewal programme stands. That is what we are working against. We are tweaking it, as there is an even deeper recession than when the economic renewal programme was looked at. However, we will be keeping faith with the economic renewal programme. That goes back to the issue that, in an ideal world, we would be looking to give soft loans and not grants. So, the grants were the recognition of the very difficult economic circumstances that companies found themselves in and they were an immediate reaction to that. That is why I indicated in my response to Nick Ramsay that I will be looking at future options for how we can assist companies around where they could go for non-Government funding and what more we can do. We might be able to do more via Finance Wales and I will certainly carry on my discussions with the banks about what more they should be doing within that area.

3.45 p.m.

In terms of the applications, there was a high level of applications and there have been rejections already. We have approved 41 so far, but we have also rejected 28. Not all business plans will be up to the mark; even if I had all the finance in the world, I could not finance them all. In terms of where they are across Wales, in relation to the unitary authorities, seven have been approved in Bridgend, four in Rhondda Cynon Taf, three

Secondly, is the Minister sticking to the principles of the economic renewal programme or is there a fundamental change in policy? Finally, will you issue a list of the companies that have been successful, and, if you consent, when are you likely to do so?

Edwina Hart: Rwyf am ymdrin â'ch pwyntiau olaf yn gyntaf. O ran y rhestr o gwmnïau sydd wedi bod yn llwyddiannus, os ydynt yn fodlon inni ryddhau'r manylion, rhag ofn y gallai fod unrhyw sensitifrwydd masnachol, byddaf yn ceisio sicrhau bod rhestr yn cael ei ddarparu i Aelodau pan fyddwn wedi gorffen dyrannu arian o'r gronfa.

Mae'r rhaglen adnewyddu economaidd yn sefyll. Dyna'r hyn yr ydym yn gweithio yn ei erbyn. Rydym yn ei haddasu, gan ein bod mewn dirwasgiad dyfnach na phan sefydlwyd y rhaglen adnewyddu economaidd. Fodd bynnag, byddwn yn parhau'n ffyddlon i'r rhaglen adnewyddu economaidd. Mae hynny'n mynd yn ôl at y mater, mewn byd delfrydol, y byddem yn edrych i roi benthyciadau meddal ac nid grantiau. Felly, mae'r grantiau yn cydnabod yr amgylchiadau economaidd anodd iawn y mae cwmnïau wedi cael eu hunain ynddynt ac yn adwaith syth i hynny. Dyna pam y nodais yn fy ymateb i Nick Ramsay y byddaf yn edrych ar opsiynau yn y dyfodol ar gyfer sut y gallwn gynorthwyo cwmnïau o ran ble y gallant ddod o hyd i arian nad yw'n arian y Llywodraeth a beth arall y gallwn ei wneud. Efallai y byddwn yn gallu gwneud mwy trwy Cyllid Cymru a byddaf yn sicr yn parhau fy nhrafodaethau â'r banciau am yr hyn y dylent ei wneud yn y maes hwnnw.

O ran y ceisiadau, roedd lefel uchel ohonynt, a gwrthodwyd rhai eisoes. Rydym wedi cymeradwyo 41 hyd yma, ond rydym hefyd wedi gwrthod 28. Ni fydd pob cynllun busnes yn cyrraedd y nod; hyd yn oed pe bai gennyf yr holl gyllid yn y byd, ni allwn eu hariannu i gyd. O ran ble y maent ar draws Cymru, mewn perthynas â'r awdurdodau unedol, mae saith wedi cael eu cymeradwyo ym Mhen-y-bont ar Ogwr, pedwar yn Rhondda Cynon

in Flintshire, four in Torfaen, three in Carmarthenshire, one in the Vale of Glamorgan, two in Gwynedd, two in Swansea, one in Conwy, two in Cardiff, four in Pembrokeshire, one is not stated, because it was inward investment, one in Powys, two in Merthyr, three in Neath Port Talbot and one in Denbighshire. I will also be happy to give the details to Members in due course about in which local authority areas they have been approved. I think that it would also be useful to give details of the approved projects by sector, because the Member made reference to the economic renewal programme, which very much focused on sector activity. In terms of sector activity, 21 of the current approved projects have come from the advanced materials and manufacturing sector, four from food and farming, three from life sciences, two from construction, two from ICT, four are non-sector, two from energy and environment and two from financial and professional services. Once we have completed the analysis of all that, I will make a full report to the Chamber with all the information that I am able to put into the public domain.

Eluned Parrott: I thank the Minister for the statement and welcome the high level of applications, which shows an increase in business confidence in Wales that has to be welcomed by us all. However, I have a few questions that I hope that she will be able to address. I was disappointed that the response time for applicants has been extended by 21 days, because that means that businesses are kept in suspense for longer than we would wish. I am sure that we would all prefer that those applications were handled correctly in a moderate timescale than poorly in a hurried one; however, some grants have been announced, so can you confirm whether the additional 21 days applies only to those applicants who were not allocated funds from the first £15 million, or do they apply to all the applicants? When businesses see that grants have been announced through the scheme and they have not yet received a reply, it is a source of anxiety for them.

Taf, tri yn Sir y Fflint, pedwar yn Nhor-faen, tri yn Sir Gaerfyrddin, un ym Mro Morgannwg, dau yng Ngwynedd, dau yn Abertawe, un yng Nghonwy, dau yng Nghaerdydd, pedwar yn Sir Benfro, mae un heb ei nodi yno, oherwydd ei fod yn fuddsoddiad mewnol, un ym Mhowys, dau ym Merthyr, tri yng Nghastell-nedd Port Talbot ac un yn Sir Ddinbych. Byddaf hefyd yn hapus i roi manylion i Aelodau maes o law ynghylch yr ardaloedd awdurdod lleol y cawsant eu cymeradwyo. Credaf y byddai hefyd yn ddefnyddiol i roi manylion am y prosiectau a gymeradwywyd fesul sector, gan fod yr Aelod wedi cyfeirio at y rhaglen adnewyddu economaidd, a oedd yn canolbwyntio'n fawr iawn ar weithgarwch y sector. O ran gweithgarwch y sector, mae 21 o'r prosiectau cyfredol a gymeradwywyd wedi dod o'r sector deunyddiau datblygedig a gweithgynhyrchu, pedwar o fwyd a ffermio, tri o'r gwyddorau bywyd, dau o waith adeiladu, dau o TGCh, mae pedwar yn ddi-sector, dau o ynni a'r amgylchedd a dau o wasanaethau ariannol a phroffesiynol. Unwaith y byddwn wedi cwblhau'r dadansoddiad o hynny i gyd, byddaf yn rhoi adroddiad llawn i'r Siambr gyda'r holl wybodaeth y gallaf ei roi yn y parth cyhoeddus.

Eluned Parrott: Diolch i'r Gweinidog am y datganiad ac rwy'n croesawu'r nifer uchel o geisiadau, sy'n dangos cynnydd mewn hyder busnesau yng Nghymru y dylem oll ei groesawu. Fodd bynnag, mae gennyf ychydig o gwestiynau rwyf yn gobeithio y bydd yn gallu mynd i'r afael â hwy. Roeddwn yn siomedig bod yr amser ymateb ar gyfer ymgeiswyr wedi cael ei ymestyn o 21 diwrnod, oherwydd mae hynny'n golygu bod busnesau yn cael eu cadw ar bigau am fwy o amser nag y byddem yn ddymuno. Rwyf yn siŵr y byddai'n well gan bawb ohonom bod y ceisiadau yn cael eu trin yn gywir o fewn amserlen gymedrol na chael eu trin yn ddi-raen yn frysiog; fodd bynnag, mae rhai grantiau wedi cael eu cyhoeddi, felly allwch chi gadarnhau a yw'r 21 diwrnod ychwanegol ond yn berthnasol i'r ymgeiswyr hynny na ddyrannwyd arian iddynt o'r £15 miliwn cyntaf, neu a ydynt yn berthnasol i'r holl ymgeiswyr? Pan mae busnesau'n gweld bod grantiau wedi cael eu cyhoeddi drwy'r cynllun a'u bod heb gael ateb eto, mae'n

achosi pryder iddynt.

I also note that the statement refers to identifying £15 million of additional funds from the BETS budget. The supplementary budget that is due to be debated shortly allocates £20.4 million to BETS. Can you confirm whether this additional £15 million has come from savings made elsewhere in BETS during this year or whether it is as a result of the supplementary budget, which has yet to be agreed?

The statement identified the lack of lending by banks as a significant difficulty for business and the one that you are hoping to address here. However, as has been discussed, this is a grant programme rather than a loan programme. I welcome the comments that you have made today, Minister, in saying that you are open to ideas for ways of supporting businesses in future. Are you prepared to give consideration to the creation of something along the lines of a business credit union, which would help to give access to finance for businesses, but would be more recyclable and would perhaps be better value for money in the long term?

I note that some business areas have been excluded from the economic growth fund, including retail, which is struggling. I have also received some very heartfelt complaints from a brewer who was turned down on the basis of having pubs as part of his business. He wants to know why. It is reasonably obvious that a brewery chain will have some pubs as part of its business. If it is due to EU state aid grant restrictions, a business credit union might be able to avoid that kind of problem in the future. What assurances can you give that individual and others in the retail sector about what you can make available to them in the near future, because they are struggling now, day by day?

I have one final question—sorry that it is a bit of a bombardment today. I note that the criteria for the economic growth fund include inward investment as well as Welsh businesses. Can you tell us how many of the successful applicants have headquarters in Wales and whether you have a target for the proportion of Welsh-domiciled or Welsh-headquartered business in the grant criteria?

Nodaf hefyd fod y datganiad yn cyfeirio at £15 miliwn o arian ychwanegol o gyllideb eich adran. Mae'r gyllideb atodol sydd i'w thrafod cyn bo hir yn dyrannu £20.4 miliwn i'ch adran. A allwch gadarnhau a yw'r £15 miliwn ychwanegol hwn wedi dod o arbedion a wnaed mewn manau eraill yn eich adran yn ystod y flwyddyn, neu a yw o ganlyniad i'r gyllideb atodol, sydd eto i'w chytuno arni?

Mae'r datganiad yn nodi diffyg benthyca gan fanciau fel rhwytr sylweddol i fusnesau, a'r un rydych yn gobeithio mynd i'r afael ag ef yma. Fodd bynnag, fel y trafodwyd, mae hon yn rhaglen grant yn hytrach na rhaglen fenthyg. Croesawaf y sylwadau yr ydych wedi'u gwneud heddiw, Weinidog, sef eich bod yn barod i wrando ar syniadau am ffyrdd o gefnogi busnesau yn y dyfodol. A ydych yn barod i ystyried creu rhywbeth tebyg i undeb credyd busnes, a fyddai'n helpu busnesau i gael mynediad at gyllid, ond a fyddai'n fwy ailgylchadwy ac a fyddai o bosibl yn cynnig gwell gwerth am arian yn y tymor hir?

Nodaf fod rhai ardaloedd busnes wedi cael eu heithrio o'r gronfa twf economaidd, gan gynnwys manwerthu, sydd mewn trafferthion. Rwyf hefyd wedi cael cwynion didwyll gan fragwr a wrthodwyd ar y sail fod ganddo dafarndai'n rhan o'i fusnes. Mae am wybod pam. Mae'n weddol amlwg y bydd gan gadwyn bragdy rywffaint o dafarndai fel rhan o'r busnes. Os yw hyn oherwydd cyfyngiadau cymorth grant gwladwriaethol yr UE, gallai undeb credyd busnes osgoi'r math honno o broblem yn y dyfodol. Pa sicrwydd allwch ei roi i'r unigolyn hwnnw ac eraill yn y sector manwerthu am yr hyn y gallwch ei roi ar gael iddynt yn y dyfodol agos, gan eu bod yn cael trafferth nawr, o ddydd i ddydd?

Mae gennyf un cwestiwn olaf—mae'n ddrwg gennyf fod tipyn o lif ohonynt heddiw. Nodaf fod y meini prawf ar gyfer y gronfa twf economaidd yn cynnwys buddsoddiad mewnol yn ogystal â busnesau o Gymru. A allwch ddweud wrthym sawl un o'r ymgeiswyr llwyddiannus sydd â phencadlys yng Nghymru, ac a oes gennych darged ar gyfer cyfran y busnesau sy'n huanu o Gymru

neu sydd â phencadlys yng Nghymru ym meini prawf y grant?

Edwina Hart: To go through some of the points, the additional £15 million will allow me to approve more of the applications already received. In relation to your concerns about the additional days, I had the same concerns, but various groups of officials are assessing and going through the applications, some of whom are at quite a senior level, to ensure accuracy in how it is done. I would have liked to have kept to that deadline, but I could not. However, we have tried to ensure that, with all the applications that have come in, there is no urgency in relation to other bits of their business and other funding. If there would be problems because of delays, they have to advise us of that. We have told them to do that to see whether we can move them up, in case that causes them problems elsewhere with their finances. I do not think that you can say fairer than that.

On the £15 million from the BETS budget, this is from us looking through our current budgets and our current resources and rejigging, because I am acutely aware that the supplementary budget has not gone through. The resources that have been made available are therefore from within my budget. However, if the Assembly passes the supplementary budget, how I deal with my budget will probably change.

In terms of business credit unions, I have mooted this idea before. I think that it would be extremely helpful, particularly at the lower end of the scale of investment rather than at the higher end, because very large business credit unions would be required to fund some of what I am funding, but we will look at this.

Regarding the comments that you have made about those who have been excluded and are upset about it, I will look at that when we have finished these rounds for the £30 million pot, so that, if I decide to do something similar again, I can consider how I should open it up, what constructive criticism I should take on board, and whether I should make any changes in deciding to run something else. So, all of those reviews will

Edwina Hart: I fynd drwy rai o'r pwyntiau, bydd y £15 miliwn ychwanegol yn fy ngalluogi i gymeradwyo mwy o'r ceisiadau a ddaeth i law eisoes. Mewn perthynas â'ch pryderon am y dyddiau ychwanegol, cefais yr un pryderon, ond mae grwpiau amrywiol o swyddogion yn asesu ac yn mynd drwy'r ceisiadau, rhai ohonynt ar lefel eithaf uchel, i sicrhau ei fod yn cael ei wneud yn gywir. Byddwn wedi hoffi cadw at y terfyn amser hwnnw, ond ni allwn. Fodd bynnag, rydym wedi ceisio sicrhau, gyda'r holl geisiadau ddaeth i law, nad oes brys mewn perthynas â rhannau eraill o'u busnes a chyllid arall. Os byddai problemau oherwydd oedi, mae'n rhaid iddynt ein hysbysu am hynny. Rydym wedi dweud wrthynt am wneud hynny er mwyn gweld a allwn eu symud i fyny, rhag ofn bod hynny'n achosi problemau iddynt mewn mannau eraill gyda'u harian. Nid wyf yn meddwl y gallaf fod yn decach na hynny.

O ran y £15 miliwn o gyllideb fy adran, mae hyn yn dod gennym ni ar ôl i ni edrych drwy ein cyllidebau a'n hadnoddau presennol a'u hailwampio, oherwydd rwy'n ymwybodol iawn nad yw'r gyllideb atodol wedi mynd trwyddo. Mae'r adnoddau sydd wedi cael eu rhoi ar gael, felly, wedi dod o fy nghyllideb. Fodd bynnag, os bydd y Cynulliad yn pasio'r gyllideb atodol, mae'r modd y byddaf yn ymdrin â fy nghyllideb yn debyg o newid.

O ran undebau credyd busnes, rwyf wedi crybwyll y syniad hwn o'r blaen. Rwy'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol iawn, yn enwedig ar y raddfa is o fuddsoddiad yn hytrach nag ar y raddfa uwch, gan y byddai'n rhaid i undebau credyd busnes mawr iawn ariannu rhai o'r pethau rwyf i'n eu hariannu, ond byddwn yn edrych ar hyn.

O ran y sylwadau a wnaethoch am y rhai a eithriwyd ac sy'n anhapus am y peth, byddaf yn edrych ar hynny pan fyddwn wedi gorffen y rowndiau hyn ar gyfer y gronfa £30 miliwn, fel fy mod, os byddaf yn penderfynu gwneud rhywbeth tebyg eto, yn gallu ystyried sut y dylwn ei hymestyn, pa feirniadaeth adeiladol y dylwn ei hystyried, ac a ddylwn wneud unrhyw newidiadau wrth benderfynu cynnal rhywbeth arall. Felly, bydd yr holl

be taken forward. If Members have had any representations—I think that I have seen the same representations as those made to the Member—please pass them on to me, as I will want to discuss with my officials how, if we do go down the road of another fund, we should improve it. I am increasingly concerned about the retail aspects. I am hoping that some of the issues to do with retail will emerge from the discussions of the local zones in Powys with regard to what might be required in terms of the mix in those towns and so on.

With regard to inward investment, we have given funding to one inward investor, which I am fairly certain will be Cardiff-based. However, I will check the figures and report back if I have made an error in answering your question.

Christine Chapman: Thank you for the statement, Minister. I welcome the fact that the offers already made are expected to create and safeguard 1,300 jobs. That is very positive.

You have already given an indication of the geographical spread of applicants and successful applications. I am concerned, however, because, even in some of those areas, there are poorer areas. Could you give us some information about where there are successful applications from small companies in communities that traditionally do not always attract funding? Do you have any information on that?

I was also very pleased that, with regard to feedback for unsuccessful applicants, you are making available designated officials to support them. What lessons are being learned about the application process, in particular in relation to ensuring that businesses that are not normally reached through the usual channels can be reached with Government support? I think that this is a very positive announcement, and it reflects the ambitions that the Welsh Government has in relation to working in communities and encouraging businesses to grow.

Edwina Hart: Thank you for those comments. I think that you are right to an

adolygiadau hynny'n cael eu hystyried. Os yw'r Aelodau wedi cael unrhyw sylwadau—rwy'n meddwl fy mod wedi gweld yr un sylwadau â'r rhai a wnaed i'r Aelod—anfonwch hwy ataf, gan y byddaf am drafod gyda fy swyddogion sut, os ydym yn penderfynu cynnig cronfa arall, y dylem ei gwella. Rwy'n pryderu fwyfwy am yr agweddau manwerthu. Rwy'n gobeithio y bydd rhai o'r materion sy'n ymwneud â manwerthu yn cael eu hamlygu o'r trafodaethau am y parthau lleol ym Mhowys o ran yr hyn a allai fod ei angen o ran y gymysgedd yn y trefi hynny, ac yn y blaen.

O ran mewnfuddsoddi, rydym wedi rhoi cyllid i un mewnfuddsoddwr, yr wyf yn bur sicr y bydd wedi'i leoli yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, byddaf yn edrych ar y ffigurau ac yn adrodd yn ôl os y gwneuthum gamgymeriad wrth ateb eich cwestiwn.

Christine Chapman: Diolch i chi am y datganiad, Weinidog. Croesawaf y ffaith y disgwylir i'r cynigion a wnaed eisoes greu a diogelu 1,300 o swyddi. Mae hynny'n gadarnhaol iawn.

Rydych eisoes wedi rhoi syniad o wasgariad daearyddol yr ymgeiswyr a'r ceisiadau llwyddiannus. Rwy'n bryderus, fodd bynnag, gan fod ardaloedd tlotach hyd yn oed o fewn rhai o'r ardaloedd hynny. A allwch roi rhywfaint o wybodaeth am ble mae ceisiadau llwyddiannus gan gwmnïau bach mewn cymunedau nad ydynt, yn draddodiadol, bob amser yn denu arian? A oes gennych unrhyw wybodaeth am hynny?

O ran rhoi adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus, rwyf hefyd yn falch eich bod yn sicrhau bod swyddogion dynodedig ar gael i'w cefnogi. Pa wersi sy'n cael eu dysgu am y broses ymgeisio, yn enwedig o ran sicrhau y gellir cyrraedd busnesau nad ydynt fel arfer yn cael eu cyrraedd drwy'r ffyrdd arferol gyda chefnogaeth y Llywodraeth? Rwy'n meddwl bod hwn yn gyhoeddiad cadarnhaol iawn, ac mae'n adlewyrchu'r uchelgais sydd gan Lywodraeth Cymru i weithio mewn cymunedau ac i annog busnesau i dyfu.

Edwina Hart: Diolch i chi am y sylwadau hynny. Rwy'n meddwl eich bod yn iawn i

extent in that, when businesses are in defined sectors, and you have the sector teams working and so on, they do get to learn about the schemes that are available. Those businesses that are not traditionally in sectors are the ones in areas to which we sometimes do not get the information out.

When we first started this, I was told that the fund was too small, with too short a timescale, that nobody would know about it and that nobody would apply. I think that we have blasted that nonsense out of existence. People did find out about it and people did apply. However, there are lessons to learn, and I would be more than happy to look at the geographical spread of applications when I do a wrap-up at the end, when we have given out the grants and have assessed all the applications, so that Members can have a clear idea about that.

When it comes to money, it is rather like a dog sniffing out sausages: wherever companies are, if there is some cash on the table, they will find out about it. We did use all of the business organisations that we engage with across the piece: the chambers of commerce, the FSB, the CBI and the Institute of Directors. Certainly, when I look at the success or otherwise of the scheme, I will look at the points that you raise to see whether there is anything else that we could do to be even more successful in allowing people to access funds.

The Deputy Presiding Officer: I have four speakers left and I want to call everyone. I therefore ask the remaining speakers to please ask one question and take one minute or less.

Simon Thomas: Weinidog, diolch am y datganiad. Wrth edrych ymlaen at sut y gallwch redeg cynllun fel hwn yn y dyfodol, a fyddwch yn edrych ar osgoi unrhyw fath o loteri côd post? Mae rhai cwmnïau nad ydynt mewn sefyllfa i elwa o'r gronfa hon, er eu bod nhw'n cyflogi pobl sy'n byw yn yr ardaloedd dan sylw a chynnal busnesau eu hunain yno. Wrth wneud hynny, a fyddwch yn edrych yn enwedig ar sicrhau bod unrhyw

raddau, achos pan fydd busnesau mewn sectorau diffiniedig, ac mae gennych y timau sector yn gweithio ac yn y blaen, maent yn cael gwybod am y cynlluniau sydd ar gael. Y busnesau hynny nad ydynt yn draddodiadol mewn sectorau yw'r rhai mewn ardaloedd lle nad ydym bob amser yn cael y wybodaeth allan.

Pan y gwnaethom ddechrau ar hyn, dywedwyd wrthyf fod y gronfa'n rhy fach, gydag amserlen rhy fyr, na fyddai neb yn gwybod amdano ac na fyddai neb yn ymgeisio. Rwy'n meddwl ein bod wedi tawelu'r lol hynny'n llwyr. Cafodd pobl wybod amdano a gwnaethant gais. Fodd bynnag, mae gwersi i'w dysgu, a byddwn yn fwy na pharod i edrych ar wasgariad daearyddol y ceisiadau pan fyddaf yn bwrw golwg derfynol ar y broses, pan fyddwn wedi dosbarthu'r grantiau ac wedi asesu'r holl geisiadau, fel y gall Aelodau gael syniad clir am hynny.

Pan ddaw i arian, mae braidd fel ci yn clywed oglau selsig: lle bynnag y bo cwmnïau, os oes rhywfaint o arian ar y bwrdd, byddant yn dod i wybod amdano. Gwnaethom ddefnyddio pob un o'r sefydliadau busnes yr ydym yn ymgysylltu â hwy ar draws y maes: y siambrau masnach, y Ffederasiwn Busnesau Bach, y CBI a Sefydliad y Cyfarwyddwyr. Yn sicr, pan fyddaf yn edrych ar lwyddiant y cynllun neu fel arall, byddaf yn edrych ar y pwyntiau a godwyd gennych i weld a oes unrhyw beth arall y gallem ei wneud i fod hyd yn oed yn fwy llwyddiannus wrth alluogi pobl i gael gafael ar arian.

Y Dirprwy Lywydd: Mae gennyf bedwar siaradwr ar ôl ac rwyf am alw pawb. Gofynnaf felly i'r siaradwyr sydd ar ôl ofyn un cwestiwn a chymryd munud neu lai.

Simon Thomas: Minister, thank you for your statement. In looking forward to how you can run such a scheme in future, will you look to avoid any kind of postcode lottery? There are some companies that are not in a position to benefit from this fund, although they employ people who live in the areas that are covered and maintain businesses themselves there. In doing so, will you look in particular at ensuring that any scheme in the future, as

gynllun yn y dyfodol, a'r cynllun presennol hefyd, yn cyfateb â'r hyn yr ydych yn bwriadu ei wneud o ran y parthau menter? Gall rhoi'r ddau gyda'i gilydd wedyn yn golygu bod Cymru gyfan wedi'i chynnwys.

Edwina Hart: That is a point well made, because if I am in the lucky position of ever agreeing with the Treasury the position on capital allowances for some of the companies that might be in the enterprise zones, it would seem unfair that, if they were to have a capital allowance, they would also then perhaps be eligible to come into a scheme such as this, if we are running one. That point is well made and I take it on board.

Mike Hedges: I welcome the economic growth fund and the additional money that has been made available for it today. To highlight the need for access to capital funds for investment, it means that companies can get on with investment, which will lead to jobs. It is vital to create and safeguard jobs in Wales in the current economic situation. Will the Minister be looking to increase the funding again?

Edwina Hart: That will depend on budgetary considerations and the success of the fund. I am very much into repayable finance, which, at the end of the day, has been the solution for companies, and the Government helping in that regard. This was seen as a measure to be taken because of the difficult economic circumstances. I will need to assess, once we have allocated the £30 million, where the applications have come from, what my budget will allow and what type of policy agenda I then want to take forward. Of course, my current policy is very much based on the economic renewal programme and the sectors.

Byron Davies: Minister, I also welcome your announcement this afternoon of an additional £15 million in this round. Any investment in a growth fund for Wales must be welcomed. However, I want to sound a note of caution. This is excellent news but I am extremely concerned, as I am sure others are, about organisations such as the Regeneration Investment Fund for Wales, RIFW. It has been given a significant sum by Government,

well as the current scheme, matches what you intend to do with the enterprise zones? Putting those two things together could mean full coverage for the whole of Wales.

Edwina Hart: Mae hwnnw'n bwynt da, oherwydd os byddaf byth yn y sefyllfa ffodus o gytuno â'r Trysorlys ar y sefyllfa o ran lwfansau cyfalaf i rai o'r cwmnïau a allai fod yn yr ardaloedd menter, byddai'n ymddangos yn annheg, pe baent yn cael lwfans cyfalaf, y byddent hefyd efallai yn gymwys i fod yn rhan o gynllun fel hwn, os ydym yn cynnal un. Mae hwnnw'n bwynt da y gwnaf ei ystyried.

Mike Hedges: Croesawaf y gronfa twf economaidd a'r arian ychwanegol a ryddhawyd ar ei chyfer heddiw. Er mwyn tynnu sylw at yr angen i gael mynediad at gronfeydd cyfalaf er mwyn buddsoddi, mae'n golygu y gall cwmnïau fwrw ymlaen â'r buddsoddiad, a fydd yn arwain at swyddi. Mae creu a diogelu swyddi yng Nghymru yn hanfodol yn y sefyllfa economaidd bresennol. A fydd y Gweinidog yn ystyried cynyddu'r cyllid eto?

Edwina Hart: Bydd hynny'n dibynnu ar ystyriaethau cyllidebol a llwyddiant y gronfa. Rwy'n gredwr cryf mewn cyllid ad-daladwy, sydd, yn y pen draw, wedi bod yn ateb i gwmnïau, a chymorth gan y Llywodraeth yn hynny o beth. Gwelwyd hyn fel mesur i'w gymryd oherwydd yr amgylchiadau economaidd anodd. Bydd angen i mi asesu, unwaith y byddwn wedi dyrannu'r £30 miliwn, o ble daeth y ceisiadau, beth fydd fy nghyllideb yn ei chaniatáu a pha fath o agenda polisi y byddaf am ei datblygu. Wrth gwrs, mae fy mholisi presennol yn seiliedig i raddau helaeth ar y rhaglen adnewyddu economaidd a'r sectorau.

Byron Davies: Weinidog, rwyf innau hefyd yn croesawu eich cyhoeddiad y prynhawn yma o £15 miliwn ychwanegol yn y rownd hon. Rhaid croesawu unrhyw fuddsoddiad mewn cronfa dwf i Gymru. Fodd bynnag, rwyf am daro nodyn o rybudd. Mae hwn yn newyddion rhagorol ond rwy'n bryderus iawn, fel rwy'n siŵr mae eraill, am sefydliadau megis Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio, RIFW. Cafodd swm

but, to date, no investment has been made by it. In fact, RIFW's actions in proposing unrealistic lending rates—they are indeed unrealistic—induce a lack of drive and ambition in terms of regenerating Wales and provide a negative picture of Wales. I believe that, if your Government is serious about economic growth, these funds should have a common cause or theme and be easily accessed. Will you take the opportunity of this announcement today to look at the projects, funds, strategies, initiatives and growth partners and draw them together? To keep it brief, in a nutshell, while I welcome the investment, I deplore the anti-business sentiment that RIFW presents. Will you please review its approach to business opportunities in Wales?

Edwina Hart: Obviously, there is no anti-business sentiment on this side of the Chamber in how we want to deal with matters. I assure you that, with my colleagues in all areas, whether regeneration or anything else, we look at the issues around the importance of jobs and the economy. I note your comments regarding RIFW and will discuss the matters raised with my officials.

Russell George: Thank you for your announcement today, Minister; it is very welcome indeed. I am pleased that you will have officials on hand to speak to potential applicants. I have had representations made to me about the criteria in relation to some businesses just being outside those criteria or some being in a position where it is a matter of opinion as to whether they sit within those criteria or not. I would appreciate it if you could expand on comments about flexibility being incorporated into this. You have largely answered my question and I will let my constituent know, but, if you could expand further, I would be grateful.

Edwina Hart: If your constituent requires detailed feedback and you want it from me as the Minister, I would be more than happy to ensure that you have a comprehensive reply. However, I think that the issue that you raise perhaps goes wider than the issue of your constituent and is about the interpretation of

sylweddol gan y Llywodraeth, ond, hyd yma, nid oes buddsoddiad wedi ei wneud ganddi. Yn wir, mae'r cyfraddau benthyg afrealistig y mae RIFW yn eu cynnig—maent wir yn afrealistig—yn arwain at ddiffyg ymdrech ac uchelgais o ran adfywio Cymru ac yn rhoi darlun negyddol o Gymru. Rwyf i'n credu, os yw eich Llywodraeth o ddifrif am dwf economaidd, y dylai'r cronfeydd hyn gael achos neu thema gyffredin ac y dylent fod o fewn cyrraedd rhwydd. A wnewch chi gymryd y cyfle yn sgîl y cyhoeddiad hwn heddiw i edrych ar y prosiectau, y cyllid, y strategaethau, y mentrau a'r partneriaid twf a'u tynnu at ei gilydd? Yn gryno, er fy mod yn croesawu'r buddsoddiad, rwy'n gresynu at y teimlad gwrth-fusnes y mae RIFW yn ei gynrychioli. A wnewch chi os gwelwch yn dda adolygu ei ymagwedd at gyfleoedd busnes yng Nghymru?

Edwina Hart: Yn amlwg, nid oes teimlad gwrth-fusnes ar yr ochr hon i'r Siambr yn y ffordd yr ydym am ymdrin â materion. Gallaf eich sicrhau, gyda fy nghydweithwyr ym mhob maes, boed ym maes adfywio neu unrhyw beth arall, ein bod yn edrych ar y materion sy'n ymwneud â phwysigrwydd swyddi a'r economi. Nodaf eich sylwadau ynghylch RIFW a byddaf yn trafod y materion a godwyd gyda'm swyddogion.

Russell George: Diolch am eich cyhoeddiad, heddiw, Weinidog; mae cryn groeso iddo. Rwyf yn falch y bydd gennych swyddogion wrth law i siarad â darpar ymgeiswyr. Rwyf wedi cael sylwadau am y meini prawf o ran y ffaith bod rhai busnesau ychydig y tu allan i'r meini prawf neu bod rhai mewn sefyllfa lle mae'n fater o farn a ydynt o fewn y meini prawf hynny ai peidio. Byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech ymhelaethu ar sylwadau am ymgorffori hyblygrwydd yn hyn. Rydych wedi ateb fy nghwestiwn i raddau helaeth, a byddaf yn gadael i fy etholwr wybod, ond, pe gallech ymhelaethu, byddwn yn ddiolchgar.

Edwina Hart: Os yw eich etholwr am gael adborth manwl ac rydych am iddo'i gael gennyf i, y Gweinidog, byddwn yn fwy na pharod i roi ateb cynhwysfawr. Fodd bynnag, credaf fod y mater yr ydych yn ei godi o bosibl yn mynd ymhellach nag eich etholwr ac yn ymwneud â'r dehongliad o'r meini

the criteria. With anything that you put together there will always be somebody on the edge of the criteria. I suppose that your worry is whether everybody else who is accessing funds is absolutely solid in the way that they administer the criteria. I will certainly take those points back. Some issues have been raised with me about flexibility and this £100,000 minimum. The microbusiness task and finish group made a lot of points about giving support to small businesses, so I will certainly been taking back that discussion around the criteria issues in light of the microbusiness report.

prawf. Gydag unrhyw beth yr ydych yn roi at ei gilydd, bydd bob amser rhywun ar ymylon y meini prawf. Mae'n debyg mai eich pryder yw a yw pawb arall sy'n cael mynediad at arian yn gwbl gadarn yn y modd y maent yn gweinyddu'r meini prawf. Byddaf yn sicr yn rhoi ystyriaeth i'r pwyntiau hynny. Codwyd rhai materion â mi ynghylch hyblygrwydd a'r lleiafswm o £100,000 o dan sylw. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen ar ficrofusnesau wedi gwneud llawer o bwyntiau ar roi cymorth i fusnesau bach, felly byddaf yn sicr yn rhoi ystyriaeth i'r drafodaeth ar faterion meini prawf yng ngoleuni'r adroddiad microfusnesau.

4.00 p.m.

Y Fframwaith Iechyd Rhyngwladol Drafft The Draft International Health Framework

Y Dirprwy Lywydd: Rwyf wedi dethol gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw William Graham a gwelliant 4 yn enw Peter Black.

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendments 1, 2 and 3 in the name of William Graham and amendment 4 in the name of Peter Black.

Cynnig NDM4922 Jane Hutt

Motion NDM4922 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn ystyried y Fframwaith Iechyd Rhyngwladol drafft, a anfonwyd at yr Aelodau drwy e-bost ar 20 Chwefror 2012; a

1. Considers the draft International Health Framework, which was emailed to Members on 20 February 2012; and

2. Yn nodi'r hyn sydd yn y Fframwaith ynghylch:

2. Notes the Framework's approach to:

a) cryfhau cysylltiadau iechyd Cymru o fewn y gymuned iechyd ryngwladol; a

a) strengthening Wales' health links within the international health community; and

b) sicrhau bod cymuned iechyd ehangach Cymru yn cael mwy o amlygrwydd y tu hwnt i'n ffiniau.

b) heightening the visibility of the wider Welsh health community beyond our borders.

The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths): I move the motion.

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths): Cynigiau y cynnig.

I am pleased to present the draft international health framework, 'Health within and beyond Welsh borders', today. This is an important and exciting document that will provide direction and guidance to support Welsh health staff and institutions when engaging

Heddiw, rwy'n falch o gyflwyno drafft o'r fframwaith iechyd rhyngwladol, 'Iechyd yng Nghymru a thu hwnt i'w ffiniau'. Mae hon yn ddogfen bwysig a chyffrous a fydd yn rhoi cyfeiriad ac arweiniad i gefnogi staff iechyd Cymru a sefydliadau wrth ymgysylltu â'r

with the wider international health community. The framework will build on the existing good work of our NHS staff in international health engagement, promoting their excellence and highlighting the benefits we gain in Wales through their engagement with the wider international health community.

However, it is not only the NHS that has a role to play in international health engagement. One of the hallmarks of our approach is the work being done at a community level. In sub-Saharan Africa, volunteers working with charities such as PONT or Dolen Cymru in Lesotho have helped foster community-to-community links. These links, along with those of the NHS and our universities, represent a clear commitment of our support for the millennium development goals. This work will continue to be supported.

Another hallmark of our approach to international health engagement is the way it is firmly grounded in principles reflecting our country. Wales is renowned for being the crucible of the NHS, which has attracted worldwide praise for its principles of efficiency, equity and fairness in helping people achieve good health. It is important for all of our international health work to promote these principles, sharing them with partners and using them as a basis for our practice and relationships in the international sphere.

Amendment 1 from the Welsh Conservatives asks for the motion to be amended so that it,

‘calls on the Welsh Government to recognise the importance of attracting the best international health minds to Wales through world class higher education research activities.’

I support this amendment because, as well as sharing our knowledge and skills with others, the framework recognises that we have much to learn from others. Indeed, if we are to realise the ambition of a world-class health system that I set out in ‘Together for Health’, learning and applying the knowledge and

gymuned iechyd ehangach yn rhyngwladol. Bydd y fframwaith yn adeiladu ar waith da presennol staff ein GIG ym maes ymgysylltu ag iechyd rhyngwladol, gan hybu eu rhagoriaeth ac amlygu'r manteision i Gymru drwy eu hymwneud â'r gymuned iechyd ehangach yn rhyngwladol.

Fodd bynnag, nid y GIG yn unig sydd â rôl wrth ymwneud ag iechyd yn rhyngwladol. Un o nodweddion ein dull o weithio yw'r gwaith a wneir ar lefel gymunedol. Yn Affrica is-Sahara mae gwirfoddolwyr sy'n gweithio gydag elusennau megis PONT neu Dolen Cymru yn Lesotho wedi helpu i feithrin cysylltiadau rhwng cymunedau. Mae'r cysylltiadau hyn, ynghyd â chysylltiadau'r GIG a'r prifysgolion, yn dangos ymrwymiad clir o'n cefnogaeth i amcanion datblygu'r mileniwm. Bydd y gwaith hwn yn parhau i gael cefnogaeth.

Nodwedd amlwg arall o'n dull o weithio ym maes ymgysylltu iechyd rhyngwladol yw'r modd y mae ein dull wedi ei wreiddio'n ddwfn mewn egwyddorion sy'n adlewyrchu ein gwlad. Mae Cymru'n adnabyddus am fod yn grud y GIG, sydd wedi denu canmoliaeth ledled y byd am ei hegwyddorion o fod yn effeithlon, yn gyfiawn ac yn deg wrth helpu pobl i fod yn iach. Mae'n bwysig i'n holl waith iechyd rhyngwladol ein bod yn hyrwyddo'r egwyddorion hyn, gan eu rhannu â'n partneriaid a'u defnyddio yn sail i'n harfer a'n cysylltiadau yn y maes rhyngwladol.

Mae gwelliant 1 y Ceidwadwyr Cymreig yn gofyn i'r cynnig gael ei ddiwygio er mwyn iddo,

‘gydnabod pwysigrwydd denu'r deallusion rhyngwladol gorau ym maes iechyd i Gymru drwy gyfrwng gweithgareddau ymchwil addysg uwch o'r radd flaenaf.’

Rwy'n cefnogi'r gwelliant hwn oherwydd, yn ogystal â rhannu ein gwybodaeth a'n sgiliau ag eraill, mae'r fframwaith yn cydnabod bod gennym lawer i'w ddysgu oddi wrth eraill. Yn wir, os ydym yn mynd i wireddu'r uchelgais o gael system iechyd o'r radd flaenaf a nodais yn ‘Law yn Llaw at Iechyd’,

skills from high-performing systems elsewhere will be crucial in improving the health and wellbeing of our own citizens. This includes encouraging and supporting participation in academic alliances and networks. Through these alliances and networks, we can increase our access to the best minds in the world, and the cutting-edge knowledge they hold to support health outcomes in Wales. For example, when developing the 1,000 Lives campaign, we drew upon the innovative work being developed by the Institute for Healthcare Improvement in Boston to manage change in clinical practice. This has been instrumental in helping us to improve patient care and to reduce avoidable harm.

We will continue to review and consider examples of best practice from around the world to ensure that we achieve health outcomes in Wales to equal the best. For this reason, I support amendment 4 to the motion, tabled by the Welsh Liberal Democrats, calling for,

‘the Welsh Government to use its links with the international health community to investigate options for a programme to reduce hospital admissions as has been successfully trialled in Camden, New Jersey.’

In taking our international health engagement forward, I believe that there are further opportunities for us to develop two-way exchanges and partnerships and to maximise the benefits for Wales and beyond. Our international commitments will continue to be supported and have, in fact, been enhanced through excellent cross-Government work with colleagues in the European and external affairs division. This cross-ministerial support has enabled us to double the investment in the Wales for Africa health links grant scheme. I therefore oppose amendment 2 from the Welsh Conservatives. It is unhelpful because, as I have repeatedly made clear, we are not cutting the health budget.

To further strengthen our international health

bydd dysgu a defnyddio gwybodaeth a sgiliau gan systemau sy'n perfformio'n uchel mewn mannau eraill yn hanfodol wrth wella iechyd a lles ein dinasyddion. Mae hyn yn cynnwys annog a chefnogi cyfranogiad mewn cynghreiriau academaidd a rhwydweithiau. Drwy'r cynghreiriau a'r rhwydweithiau hyn gallwn gynyddu ein mynediad at ddeallusion gorau'r byd, a'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ganddynt i gefnogi canlyniadau iechyd yng Nghymru. Er enghraifft, wrth ddatblygu'r ymgyrch 1,000 o Fywydau, bu inni ddefnyddio gwaith arloesol sy'n cael ei ddatblygu gan y Sefydliad Gwella Gofal Iechyd yn Boston i reoli newid mewn ymarfer clinigol. Mae hyn wedi bod yn allweddol wrth ein helpu i wella gofal cleifion a lleihau niwed y gellir ei osgoi.

Byddwn yn parhau i adolygu ac ystyried enghreifftiau o arfer gorau o bedwar ban y byd i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau iechyd gorau yng Nghymru. Am y rheswm hwn, rwyf yn cefnogi gwelliant 4 i'r cynnig, a gyflwynwyd gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, sy'n galw ar,

‘Lywodraeth Cymru i ddefnyddio'i chysylltiadau yn y gymuned iechyd ryngwladol i archwilio'r dewisiadau ar gyfer rhaglen i leihau'r niferoedd sy'n cael eu derbyn mewn ysbyty, yn debyg i'r rhaglen sydd wedi'i threialu'n llwyddiannus yn Camden, New Jersey.’

Wrth ddatblygu ein hymgysylltiad iechyd rhyngwladol, credaf fod cyfleoedd pellach inni ddatblygu cyfnewidiadau a phartneriaethau dwyffordd ac i sicrhau'r manteision gorau i Gymru a thu hwnt. Bydd ein hymrwymiaidau rhyngwladol yn parhau i gael eu cefnogi ac maent, mewn gwirionedd, wedi gwella trwy waith rhagorol ar draws y Llywodraeth gyda chydweithwyr yn yr adran materion Ewropeaidd ac allanol. Mae'r cymorth hwn gan Weinidogion wedi ein galluogi i ddyblu buddsoddiad yng nghynllun grantiau cysylltiadau iechyd Cymru o Blaid Affrica. Felly, rwyf yn erbyn gwelliant 2 gan y Ceidwadwyr Cymreig. Nid yw'n ddefnyddiol oherwydd, fel yr wyf wedi egluro dro ar ôl tro, nid ydym yn torri'r gyllideb iechyd.

Er mwyn cryfhau ein hymgysylltiad iechyd

engagement, the framework identifies four key actions to achieve. These are to empower the Welsh health community to be global citizens; to strengthen Welsh international health links; to improve Wales's international profile, promoting our expertise and values; and to provide Wales with the knowledge and intelligence to compare our health against a range of international indicators. An essential element of this new approach will be the enhancing of the strategic leadership from the Welsh Government, through the creation of an international health strategy group within the Welsh Government, led by my department. The group will be responsible for creating, reviewing and informing on the strategic direction for Welsh international health engagement, in collaboration with colleagues in the European and external affairs division.

We will also create an international health co-ordination centre within Public Health Wales to act as a focal point for Welsh international activity. This new centre will be commissioned to conduct a review of all international health activity conducted by the Welsh Government, NHS Wales and associated health organisations. This will involve conducting a stocktake of what we are already doing and also the creating of a register of Welsh health workers engaged in international work. It will involve working with Welsh higher education institutes to assess current teaching levels on global health, defining standards for health links and building on successes, such as the Wales for Africa grant scheme and annual conferences.

The co-ordination centre will be central to raising Wales's international profile, with particular importance being placed on raising our profile in Europe. I will be looking to the centre to build up partnerships across Europe, so that we will be better placed to bid for European funding. We will also need to work with the UK Government and our colleagues in Scotland and Northern Ireland to strategically influence European health policy, and to hold regular bilateral meetings with the European Commission to ensure that the interests of Wales are represented at a

rhyngwladol ymhellach, mae'r fframwaith yn nodi pedwar cam gweithredu allweddol i'w cyflawni. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi pŵer i'r gymuned iechyd yng Nghymru i fod yn ddinasyddion byd-eang; cryfhau cysylltiadau iechyd rhyngwladol Cymru; gwella proffil rhyngwladol Cymru, gan hyrwyddo ein harbenigedd a'n gwerthoedd; a rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth i Gymru i gymharu ein hiechyd ag ystod o ddangosyddion rhyngwladol. Elfen hanfodol o'r dull newydd hwn fydd cyfoethogi arweiniad strategol Llywodraeth Cymru drwy greu grŵp strategaeth iechyd rhyngwladol i'w arwain gan fy adran i. Bydd y grŵp yn gyfrifol am greu, adolygu a llywio cyfeiriad strategol ar gyfer ymgysylltiad iechyd rhyngwladol Cymru mewn cydweithrediad â chydweithwyr yn yr adran materion Ewropeaidd ac allanol.

Byddwn hefyd yn creu canolfan cydlynu iechyd rhyngwladol yn rhan o Iechyd Cyhoeddus Cymru i weithredu fel canolbwynt i weithgarwch rhyngwladol Cymru. Bydd y ganolfan newydd hon yn cael ei chomisiynu i gynnal adolygiad o holl weithgarwch rhyngwladol iechyd Lywodraeth Cymru, GIG Cymru a sefydliadau iechyd cysylltiedig. Bydd hyn yn golygu cynnal cyfrif stoc o'r hyn yr ydym eisoes yn ei wneud a chreu cofrestr o weithwyr iechyd Cymru sy'n ymwneud â gwaith rhyngwladol. Bydd yn golygu gweithio â sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i asesu lefelau addysgu presennol ar iechyd byd-eang, diffinio safonau cysylltiadau iechyd ac adeiladu ar lwyddiannau, er enghraifft cynllun grantiau Cymru o Blaid Affrica a chynadleddau blynyddol.

Bydd y ganolfan gydlynu yn ganolog i godi proffil rhyngwladol Cymru, a rhoddir pwysigrwydd ar godi ein proffil yn Ewrop yn benodol. Byddaf yn disgwyl i'r ganolfan ddatblygu partneriaethau ar draws Ewrop, er mwyn sicrhau ein bod mewn gwell sefyllfa i wneud cais am arian Ewropeaidd. Bydd angen inni weithio â Llywodraeth y DU a'n cydweithwyr yn yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd i ddylanwadu ar bolisi strategol iechyd Ewropeaidd ac i gynnal cyfarfodydd ar y cyd yn rheolaidd â'r Comisiwn Ewropeaidd i sicrhau bod

European level.

The new arrangements will help us improve the governance of our international health work. I expect the international health strategy group to report annually to me on the international health activity undertaken in Wales, highlighting the benefits that Wales accrues from this engagement. Through this new approach to international health, we will continue to develop and utilise our international connections, not only to share knowledge and skills, but also to ensure that we continue to build on the improvements in the health and life expectancy that we have seen in the Welsh population. We are taking positive actions to improve health outcomes in Wales and will continue to do so, in line with 'Our Healthy Future', 'Fairer Health Outcomes For All' and 'Together for Health'. I therefore oppose amendment 3, tabled by the Welsh Conservatives, expressing regret that,

'Wales' health "lags behind the regions and countries of the world that achieve the very best health outcomes".

Regrets are backward-looking—a bit like the Welsh Conservatives. We are committed to looking forward to working with our international health partners. I therefore commend this draft international health framework and hope that all Members will lend support to its aim of strengthening the benefits of international health engagement for Wales.

Gwelliant 1 William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydnabod pwysigrwydd denu'r deallusion rhyngwladol gorau ym maes iechyd i Gymru drwy gyfrwng gweithgareddau ymchwil addysg uwch o'r radd flaenaf.

Gwelliant 2 William Graham

buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli ar lefel Ewropeaidd.

Bydd y trefniadau newydd yn ein helpu i wella trefn lywodraethol ein gwaith iechyd rhyngwladol. Rwy'n disgwyl i'r grŵp strategaeth iechyd rhyngwladol adrodd yn ôl ataf yn flynyddol ar y gweithgaredd iechyd rhyngwladol a wnaed yng Nghymru, gan amlygu'r manteision y mae Cymru'n eu cronni drwy'r ymgysylltu hwn. Drwy'r dull newydd hwn o weithio ym maes iechyd rhyngwladol, byddwn yn parhau i ddatblygu a defnyddio ein cysylltiadau rhyngwladol, nid yn unig i rannu gwybodaeth a sgiliau, ond i sicrhau ein bod yn parhau i wella'r gwelliannau i iechyd a disgwyliad oes yr ydym wedi eu gweld yn y boblogaeth yng Nghymru. Rydym yn gweithredu'n gadarnhaol i wella canlyniadau iechyd yng Nghymru a byddwn yn parhau i wneud hynny, yn unol â 'Ein Dyfodol Iach', 'Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb' a 'Law yn Llaw at Iechyd'. Felly, rwy'n erbyn gwelliant 3, a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig, a oedd yn gresynu bod,

'iechyd yng Nghymru ar ei hôl hi o'i gymharu â rhanbarthau a gwledydd y byd sy'n cyflawni'r canlyniadau iechyd gorau oll'.

Mae gresynu at bethau fel edrych i'r gorffennol—ychydig fel y Ceidwadwyr Cymreig. Rydym wedi ymrwmo i edrych ymlaen at weithio â'n partneriaid iechyd rhyngwladol. Felly, cymeradwyaf y fframwaith iechyd rhyngwladol drafft hwn ac rwy'n gobeithio y bydd pob Aelod yn fodlon cefnogi ei nod o atgyfnerthu manteision ymgysylltu ag iechyd rhyngwladol i Gymru.

Amendment 1 William Graham

Add as new point at end of motion:

Calls on the Welsh Government to recognise the importance of attracting the best international health minds to Wales through world class higher education research activities.

Amendment 2 William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu gwneud toriadau o 8.4 y cant mewn termau real i GIG Cymru ac y gallai hyn lesteirio'i allu i greu mwy o gysylltiadau rhyngwladol a'u gwella.

Gwelliant 3 William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod iechyd yng Nghymru ar ei hôl hi o'i gymharu â rhanbarthau a gwledydd y byd sy'n cyflawni'r canlyniadau iechyd gorau oll.

Darren Millar: I move amendments 1, 2 and 3 in the name of William Graham.

I am glad that this is a draft document, because it is littered with mistakes throughout in terms of the typing and grammar and does not read well on pages 2, 4 and 14 either. There are all sorts of errors within it. That said, I welcome the fact that it has been published and that we have the opportunity to debate it today.

Everyone in this Chamber aspires to improve international health links, and it is laudable that the Welsh Government is reaching out to different parts of the world in trying to share knowledge and experience. I am aware only too well of some of the health needs in some parts of sub-Saharan Africa, therefore, I particularly welcome the good and varied work of the Wales for Africa programme on this front. I also welcome the fact that the Welsh Government has put more cash into that programme over the past few years. However, the Welsh Government's case regarding the international sharing of best practice would be stronger if health outcomes within the Welsh NHS were better, and that is why we have tabled these amendments.

Our amendment 1, which the Government is accepting, calls upon the Welsh Government to recognise the importance of attracting the best international health minds to Wales,

Add as new point at end of motion:

Regrets that the Welsh Government has decided to implement 8.4% real terms cuts on the Welsh NHS which may inhibit its ability to increase and improve international links.

Amendment 3 William Graham

Add as new point at end of motion:

Regrets that Wales' health 'lags behind the regions and countries of the world that achieve the very best health outcomes'.

Darren Millar: Cynigiau welliannau 1, 2 a 3 yn enw William Graham.

Rwy'n falch mai dogfen ddrafft yw hon, gan ei bod yn frith o gamgymeriadau teipio a gramadeg drwyddi draw ac nid yw tudalennau 2, 4 a 14 yn darllen yn dda chwaith. Mae pob math o wallau ynnddi. Wedi dweud hynny, rwy'n croesawu'r ffaith ei bod wedi ei chyhoeddi a bod cyfle inni ei thrafod heddiw.

Mae pawb yn y Siambr hon am weld gwelliannau mewn cysylltiadau iechyd rhyngwladol, ac mae'n ganmoladwy bod Llywodraeth Cymru yn troi at wahanol rannau o'r byd i rannu gwybodaeth a phrofiad. Rwy'n ymwybodol iawn o rai o anghenion iechyd rhai rhannau o Affrica is-Sahara, felly, rwy'n croesawu gwaith da ac amrywiol rhaglen Cymru o Blaid Affrica yn arbennig yn hyn o beth. Yn ogystal, rwy'n croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi mwy o arian i'r rhaglen yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, byddai achos Llywodraeth Cymru o ran rhannu arfer gorau yn rhyngwladol yn gryfach pe bai canlyniadau iechyd GIG Cymru yn well, a dyna'n rheswm dros gyflwyno'r gwelliannau hyn.

Mae gwelliant 1, y mae'r Llywodraeth yn ei dderbyn, yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydnabod pwysigrwydd denu'r deallusion rhyngwladol gorau i Gymru, drwy addysg

through world-class higher education and research activities. This is a huge opportunity for Wales that we must not miss. The framework mentions the good work that is being done through the partnership between Swansea University and the University of Ibadan. We want to see more of those sorts of partnerships being developed in future. It is disappointing that there is not a single Welsh higher education institution in the world top-100. We need to raise our game in that respect, and I think that these international links can help us to do so. It is certainly the case that world-class research can attract inward investment, and I am sure that it would deliver some improvements in health outcomes for the people of Wales. We would like to see a more detailed focus in the document on the future of academic health research and international links.

Our second amendment, which I am disappointed that the Government is not accepting, because it is simply a statement of fact, is that the Welsh Government is cutting 8.4% from the Welsh NHS budget in real terms—over £0.5 billion-worth over the next few years. We know that these cuts are already causing problems. We have seen minor injuries units being closed temporarily and local communities that are nervous about their accident and emergency units and the future of their hospitals. It is disappointing that the Welsh Government does not see the fact that it has cut the budget as a barrier to improving those international links and laudable aims that are in the framework.

Amendment 3 talks about the fact that the health of our nation,

‘lags behind regions and countries of the world that achieve the very best health outcomes.’

We are behind the UK average, for example, in terms of life expectancy. The information in our amendment is a simple quote from the framework, so I am not sure why you do not accept that either, Minister, given that you are asking us to endorse a document with that phrase in it; it seems rather odd. We have seen improvements to health outcomes—we have seen a reduction in deaths from heart

uwch a gweithgaredd ymchwil o'r radd flaenaf. Dyma gyfle enfawr i Gymru na ddylwn ei golli. Mae'r fframwaith yn sôn am y gwaith da sy'n cael ei wneud drwy bartneriaeth rhwng Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Ibadan. Rydym am weld mwy o'r mathau hyn o bartneriaethau yn datblygu yn y dyfodol. Mae'n siomedig nad oes un sefydliad addysg uwch o Gymru yn y 100 uchaf. Mae angen inni wella ein perfformiad yn hynny o beth, a chredaf y gall y cysylltiadau rhyngwladol hyn ein helpu i wneud hynny. Mae'n sicr yn wir y gall ymchwil o'r radd flaenaf ddenu buddsoddiad o'r tu allan, ac rwy'n siŵr y byddai'n cyflawni rhai gwelliannau i ganlyniadau iechyd pobl Cymru. Hoffem weld mwy o ffocws manwl yn y ddogfen ar ddyfodol ymchwil ym maes iechyd academiaidd a chysylltiadau rhyngwladol.

Ein hail welliant, yr wyf yn siomedig nad yw'r Llywodraeth yn ei dderbyn, oherwydd, yn syml, datganiad o ffaith ydyw, yw bod Llywodraeth Cymru yn torri 8.4% o gyllideb GIG Cymru mewn termau real—gwerth dros £0.5 biliwn yn ystod y blynyddoedd nesaf. Rydym yn gwybod bod y toriadau hyn eisoes yn peri problemau. Rydym wedi gweld unedau mân anafiadau yn cau dros dro a chymunedau lleol yn nerfus am eu hunedau damweiniau ac achosion brys a dyfodol eu hysbytai. Mae'n siomedig nad yw Llywodraeth Cymru yn gweld y ffaith ei bod wedi torri'r gyllideb yn rhwystr i wella'r cysylltiadau rhyngwladol a'r amcanion clodwiw sydd yn y fframwaith.

Mae gwelliant 3 yn sôn am y ffaith,

‘bod iechyd yng Nghymru ar ei hôl hi o'i gymharu â rhanbarthau a gwledydd y byd sy'n cyflawni'r canlyniadau iechyd gorau oll’.

Rydym ar ei hôl hi o safbwynt cyfartaledd y DU, er enghraifft, o ran disgwyliad oes. Mae'r wybodaeth yn ein gwelliant yn ddyfyniad syml o'r fframwaith, felly nid wyf yn siŵr pam nad ydych yn derbyn hwnnw chwaith, Weinidog, o ystyried eich bod yn gofyn inni gymeradwyo dogfen â'r ymadrodd hwnnw ynddo; mae hynny'n ymddangos yn rhyfedd. Rydym wedi gweld gwelliannau i

disease, which has been welcomed, and we have also seen improved cancer outcomes and an increase in life expectancy—however, we are still lagging too far behind many other nations in the world. In fact, life expectancy is lower in Wales than the UK average, as I said earlier, and there have been claims that life expectancy in Merthyr is lower than in Haiti or Iraq. Those are very concerning statistics, and we would like to see the Welsh Government raising its game when it comes to these particular matters.

We will also be supporting amendment 4, tabled in the name of Peter Black. It is important to learn from best practice, wherever it is in the world. Clearly, there has been some good work in New Jersey, and no doubt there will be lessons for us to learn from that. In conclusion, we welcome the publication of this document. We want to see better international links between our health service and those of other countries. However, we want to see more of an emphasis on research in future.

Gwelliant 4 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio'i chysylltiadau yn y gymuned iechyd ryngwladol i archwilio'r dewisiadau ar gyfer rhaglen i leihau'r niferoedd sy'n cael eu derbyn mewn ysbyty, yn debyg i'r rhaglen sydd wedi'i threialu'n llywyddiannus yn Camden, New Jersey.

Peter Black: I move amendment 4 in my name.

I welcome the fact that Welsh Government is keen to co-operate and learn about how things are done abroad, both in the European Union and further afield. It is also to be welcomed that the framework sets out co-operation that happens on a series of different levels, from intergovernmental co-operation between the Welsh Government and the Catalan Government to intercommunity links, such as the Jump4Timbuktu

ganlyniadau iechyd—rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer y marwolaethau o ganlyniad i glefyd y galon, sydd wedi ei groesawu, ac rydym wedi gweld canlyniadau canser gwell a chynnydd mewn disgwyliad oes—fodd bynnag, rydym yn dal ar ei hôl hi o lawer o gymharu â llawer o genhedloedd eraill y byd. Yn wir, mae disgwyliad oes yn is yng Nghymru na chyfartaledd y DU, fel y soniais eisoes, a bu honiadau bod disgwyliad oes ym Merthyr yn is nag yn Haiti ac Irac. Dyna ystadegau sy'n peri pryder mawr, a hoffem weld Llywodraeth Cymru'n gwella ei pherfformiad o safbwynt y materion penodol hyn.

Byddwn hefyd yn cefnogi gwelliant 4, a gyflwynwyd yn enw Peter Black. Mae'n bwysig dysgu o'r arferion gorau, ble bynnag y maent yn y byd. Yn amlwg, bu rhywfaint o waith da yn New Jersey, ac nid oes amheuaeth y bydd gwersi i'w dysgu o hynny. I gloi, rydym yn croesawu cyhoeddi'r ddogfen hon. Rydym am weld cysylltiadau rhyngwladol gwell rhwng ein gwasanaeth iechyd a gwasanaethau gwledydd eraill. Fodd bynnag, rydym am weld mwy o bwyslais ar waith ymchwil yn y dyfodol.

Amendment 4 Peter Black

Add as new point at end of motion:

Calls on the Welsh government to use its links within the international health community to investigate options for a programme to reduce hospital admissions as has been successfully trialled in Camden, New Jersey.

Peter Black: Cynigiau welliant 4 yn fy enw i.

Croesawaf y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i gydweithredu a dysgu am sut y mae pethau'n cael eu gwneud dramor, yn yr Undeb Ewropeaidd a thu hwnt. Mae hefyd i'w groesawu bod y fframwaith yn sôn am gydweithio sydd yn digwydd ar amryw o wahanol lefelau, o gydweithredu rhynglywodraethol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Catalonia i gysylltiadau rhyng-gymunedol, er enghraifft

partnership based in Hay on Wye, and individual links, with significant numbers of volunteers having offered to lend their skills to developing and enhancing capacity. These partnerships allow for an exchange of information and an opportunity for Welsh individuals to use their expertise to help in places where health services are not as developed as our own.

Despite improvements in the nation's health, it is indicative that the Government's framework highlights that it still lags behind the regions and countries of the world that achieve the best health outcomes. Whether you regret it or not, or whether you look back or not, there is still the fact that that is the case, which of course needs to be addressed.

Our amendment refers to an exciting and innovative project being undertaken in Camden, New Jersey, by a not-for-profit organisation called the Camden Coalition of Healthcare Providers. The coalition is a community clinic made up of doctors, nurses and social workers. The clinic devotes its time to looking after high-end patients, namely those patients with complex multiple or long-term illnesses. The scheme was established by a local doctor, who compiled medical insurance data from a six-year period to map the city in relation to its healthcare costs. Camden is a poor city with severe health inequalities: 1% of the population accounts for around a third of all medical costs in the city. The sophisticated data mapping was even able to attribute the highest medical costs to two individual buildings—one high-rise block of flats and a large nursing home. The data were used to identify patients who made frequent hospital visits and, as a result, account for a higher share of medical spending than other people. The clinic is targeted at those patients.

4.15 p.m.

The clinic is made up of doctors, nurses and social workers and the approach is to have regular contact with the patients at the clinic, their homes or over the telephone. In addition to resolving and treating medical issues in the usual way, there is much greater focus on

partneriaeth Jump4Timbuktu yn y Gelli Gandryll, a chysylltiadau unigol, gyda nifer sylweddol o wirfoddolwyr wedi cynnig eu sgiliau i ddatblygu a gwella gallu. Mae'r partneriaethau hyn yn caniatáu ar gyfer cyfnewid gwybodaeth ac yn rhoi cyfle i unigolion Cymru ddefnyddio eu harbenigedd i helpu mewn mannau lle nad yw gwasanaethau iechyd wedi datblygu i'r un graddau â'n gwasanaeth ni.

Er gwaethaf gwelliannau yn iechyd y genedl, mae'n arwyddocaol bod fframwaith y Llywodraeth yn amlygu ei bod ar ei hôl hi o'i gymharu â rhanbarthau a gwledydd y byd sy'n sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau. Pa un a ydych yn difaru neu beidio, neu pa un a ydych yn edrych yn ôl neu beidio, dyma yw'r gwir ac mae angen mynd i'r afael â hyn.

Mae ein gwelliant yn cyfeirio at brosiect cyffrous ac arloesol yn Camden, New Jersey, gan sefydliad di-elw o'r enw Cynghrair Darparwyr Gofal Iechyd Camden. Mae'r gynghrair yn glinig cymunedol sy'n cynnwys meddygon, nyrsys a gweithwyr cymdeithasol. Mae'r clinig yn gofalu am gleifion ag anghenion mawr, sef y rhai ag afiechydon cymhleth, lluosog, neu hirdymor. Sefydlwyd y cynllun gan feddyg lleol, a gasglodd ddata am yswiriant meddygol am gyfnodo chwe blynedd er mwyn mapio'r ddinas mewn perthynas â'i chostau gofal iechyd. Mae Camden yn ddinas dlawd ag anghydraddoldebau iechyd difrifol: mae 1% o'r boblogaeth yn cyfrif am tua thraean o gostau meddygol y ddinas. Roedd y mapio data soffistigedig hyd yn oed yn gallu priodoli'r costau meddygol uchaf i ddau adeilad—un bloc uchel o fflatiau a chartref nyrsio mawr. Defnyddiwyd y data i adnabod cleifion a oedd yn ymweld â'r ysbyty yn aml ac a oedd, o ganlyniad, yn cyfrif am gyfran uwch o wariant meddygol na phobl eraill. Mae'r clinig yn targedu'r cleifion hynny.

Mae'r clinig yn cynnwys meddygon, nyrsys a gweithwyr cymdeithasol ac mae'r dull yn golygu cael cyswllt rheolaidd â'r cleifion yn y clinig, yn eu cartrefi neu dros y ffôn. Yn ogystal â datrys a thrin materion meddygol yn y ffordd arferol, mae llawer mwy o

work in the community to ensure that medication is taken and that it is working, to provide advice about preventive care, to assist in traditional social work activities that have a knock-on effect for the patient's health, and to advise about benefit entitlement and housing issues.

The results in Camden speak for themselves. Since the coalition clinic was established, there has been a massive reduction in both the number of hospital visits and the cost of looking after patients, even after accounting for the additional cost of nurses and social workers. Before the clinic was set up, the identified patients were averaging 62 hospital visits per month; that went down to 37, which represents a 40% reduction. The monthly hospital bill for these patients was \$1.2 million before the clinic was established; this is now down to \$500,000 per month, which is a 56% reduction.

In Wales, there is currently no mechanism for identifying high-cost NHS users. In the US, this is more straightforward, since medical insurance records are kept. However, it is still possible for local health boards to identify the cost of various forms of treatment and care. When she was the Minister for health, Edwina Hart said that most LHBs have plans to introduce systems to improve their understanding of the cost of individual treatments in more detail. Once this has been done, the information could be used to find smarter methods of treatment for patients with multiple illnesses or with complex, long-term conditions. At a time when NHS finances are tight, interesting projects like this should be considered by the Government. Not only does it have the potential to save the NHS money, it also has the potential to free up hospital beds and reduce waiting times. Most importantly of all, a scheme such as this provides excellent all-round care for the people who need it the most. If the Government is serious about learning from international experience, we hope that it will consider this New Jersey experiment to see how much of this could be applicable in Wales.

I certainly welcome the fact that the Minister

bwyslais ar waith yn y gymuned er mwyn sicrhau bod pobl yn cymryd eu meddyginiaeth a'i bod yn gweithio, ar ddarparu cyngor am ofal ataliol, ar gynorthwyo mewn gweithgareddau gwaith cymdeithasol traddodiadol sy'n cael effaith gynyddol ar iechyd y claf, ac ar roi cyngor am hawlio budd-daliadau a materion tai.

Mae'r canlyniadau yn Camden yn siarad drostynt eu hunain. Ers sefydlu clinig y gynghrair, bu gostyngiad enfawr yn nifer yr ymweliadau ysbyty a'r gost o ofalu am gleifion, hyd yn oed ar ôl cyfrif am y gost ychwanegol o ddarparu nyrsys a gweithwyr cymdeithasol. Cyn i'r clinig gael ei sefydlu, roedd y cleifion a oedd wedi cael eu hadnabod yn ymweld â'r ysbyty 62 o weithiau'r mis ar gyfartaledd; lleihaodd hynny i 37, sy'n ostyngiad o 40%. Y bil ysbyty misol ar gyfer y cleifion hyn oedd \$1.2 filiwn cyn i'r clinig gael ei sefydlu; bellach mae hyn wedi gostwng i \$500,000 y mis, sef gostyngiad o 56%.

Nid oes dull yng Nghymru ar hyn o bryd o adnabod defnyddwyr sy'n costio llawer i'r GIG. Yn yr Unol Daleithiau, mae hyn yn fwy syml oherwydd bod cofnodion yswiriant meddygol yn cael eu cadw. Fodd bynnag, mae'n dal yn bosibl i fyrddau iechyd lleol nodi cost gwahanol fathau o driniaeth a gofal. Pan oedd Edwina Hart yn Weinidog dros iechyd, dywedodd fod gan fwyaftrif y byrddau iechyd lleol gynlluniau i gyflwyno systemau i wella eu dealltwriaeth o gost triniaethau unigol yn fwy manwl. Unwaith y bydd hyn wedi'i wneud, gallai'r wybodaeth gael ei defnyddio i ddod o hyd i ddulliau gwell o drin cleifion â sawl salwch neu gyflyrau cymhleth, hirdymor. Ar adeg pan fo cyllid yn dynn yn y GIG, dylai'r Llywodraeth ystyried prosiectau diddorol fel hwn. Nid yn unig mae ganddo'r potensial i arbed arian i'r GIG, mae ganddo hefyd y potensial i ryddhau gwelyau ysbyty a lleihau amseroedd aros. Yn bwysicaf oll, mae cynllun fel hwn yn darparu gofal cyffredinol ardderchog i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Os yw'r Llywodraeth o ddifrif am ddysgu o brofiadau rhyngwladol, rydym yn gobeithio y bydd yn ystyried yr arbrawf hwn yn New Jersey er mwyn gweld faint ohono allai fod yn berthnasol yng Nghymru.

Rwy'n sicr yn croesawu'r ffaith bod y

has accepted the amendment and is prepared to look at that. I hope that that acceptance can now be turned into a proper study of what has been going on in order to see how it can be applied in Wales.

Vaughan Gething: I am pleased to have the opportunity to speak in this debate. I welcome the draft of the international health framework that has been laid before us, which we are debating today. The framework sets out a strong two-way commitment to learn from health services in the rest of the UK, Europe and the wider world. This is about applying the lessons and new skills learned through exchange programmes—for example, here in Wales—while also ensuring that NHS professionals in Wales have opportunities to contribute to improving global health. That is a particularly important issue for a number of my constituents, and I particularly welcome the Wales for Africa health links network, which represents a unique response to addressing the millennium development goals by harnessing our expertise and commitment in the NHS in Wales and working with partners in disadvantaged communities in Africa as they work to provide support and improve their health.

I welcome the fact that the Welsh Government has provided funding for hospital and health link work in Africa through the NHS health links fund. In 2010-11, the Welsh health links trained nearly 1,000 front-line health workers, including 570 community health workers and 130 midwives, in essential care. In my constituency, there has been a particular benefit from the Wales-Somaliland communities' link. Somaliland is a beacon for that part of the world, as it is a stable and democratic part of Africa. The link received £9,800 for a health professional from Cardiff to train 40 new midwives and nurses from the six regions of Somaliland. The aim is to train midwives to identify and help to deal with problems in childbirth and pregnancy. I know from a number of matters that have been brought to my attention—not only in relation to this part of the world, but other parts of Africa—that there are particular problems in

Gweinidog wedi derbyn y gwelliant ac yn barod i edrych ar hynny. Gobeithiaf y gall hynny yn awr arwain at astudiaeth briodol o'r hyn sydd wedi bod yn digwydd er mwyn gweld sut y gellir ei ddefnyddio yng Nghymru.

Vaughan Gething: Rwy'n falch o gael y cyfle hwn i siarad yn y ddadl. Croesawaf y drafft o'r fframwaith iechyd rhyngwladol sydd wedi ei osod ger ein bron, ac yr ydym yn ei drafod heddiw. Mae'r fframwaith yn nodi ymrwymiad deublyg i ddysgu gan wasanaethau iechyd yng ngweddill y DU, Ewrop a'r byd ehangach. Mae hyn yn ymwneud â chymhwysu'r gwersi a'r sgiliau newydd a ddysgwyd drwy raglenni cyfnewid—er enghraifft, yma yng Nghymru—gan sicrhau ar yr un pryd fod gweithwyr proffesiynol y GIG yng Nghymru yn cael cyfleoedd i gyfrannu at wella iechyd byd-eang. Mae hwnnw'n fater neilltuol o bwysig i nifer o fy etholwyr i, ac rwy'n croesawu'n arbennig rwydwaith cysylltiadau iechyd Cymru o Blaid Affrica, sy'n cynrychioli ymateb unigryw i fynd i'r afael ag amcanion datblygu'r mileniwm drwy fanteisio ar ein harbenigedd a'n hymrwymiad yn y GIG yng Nghymru a gweithio gyda phartneriaid mewn cymunedau difreintiedig yn Affrica wrth iddynt weithio i ddarparu cefnogaeth a gwella'u hiechyd.

Croesawaf y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i waith yn Affrica sy'n ymwneud â chysylltiadau iechyd a rhwng ysbytai drwy gronfa cysylltiadau iechyd y GIG. Yn 2010-11, rhoddodd cysylltiadau iechyd Cymru hyfforddiant mewn gofal hanfodol i bron 1,000 o weithwyr iechyd rheng flaen, gan gynnwys 570 o weithwyr iechyd cymunedol a 130 o fydwragedd. Yn fy etholaeth i, cafwyd budd penodol o'r cysylltiad cymunedol rhwng Cymru a Somaliland. Mae Somaliland yn enghraifft ddisglair i'r rhan honno o'r byd, gan ei bod yn rhan sefydlog a democrataidd o Affrica. Cafodd y cyswllt £9,800 i weithiwr iechyd proffesiynol o Gaerdydd hyfforddi 40 o fydwragedd a nyrsys newydd o chwe rhanbarth Somaliland. Y nod yw hyfforddi bydwragedd i nodi problemau yn ystod genedigaeth a beichiogrwydd ac i'w hyfforddi i helpu o ran ymdopi â hwy. Rwy'n gwybod o ganlyniad i nifer o faterion a

dealing with childbirth and pregnancy, and we should be proud to help to overcome these. In fact, this Thursday, two of my constituents, Musa Yousuf and Abdirahman Ahmed, are leading a health delegation from Butetown as part of the Horn Health Concern group, with public health specialists Dr Mahad Omar and Dr Ali Qasim, to Somaliland to deliver essential medical supplies and as part of the exchange of ideas and information that we wish to see fostered. This is not a Wales for Africa project but it shows the sort of community-led initiative that can be supported and fostered by this activity. I believe that it is important that we have strong links and collaborate with the international health community. There are clear benefits for Wales and the rest of the world and we should all be proud of the work that we are doing.

Elin Jones: Rwy'n falch o gael y cyfle i drafod ein gwasanaethau iechyd yn y cyddestun rhyngwladol. Mae'r fframwaith sydd o'n blaenau heddiw yn nodi nifer o gynlluniau bach a phwysig sy'n weithredol rhwng ambell i gorff cyhoeddus neu grŵp cymunedol yng Nghymru a chynlluniau sy'n gweithredu yn bennaf yng ngweddill Ewrop neu yn Affrica. Nid oes dwywaith nad yw'n beth cyfiawn ac yn beth da i weld arbenigeddau ein NHS ni, ac unigolion o'i fewn, yn cael eu defnyddio i hyrwyddo iechyd a lleihau afiechyd mewn cymdeithasau a gwledydd sy'n llai ffodus na'n rhai ni. Mae hefyd yn beth da— amlinellir hyn yn y fframwaith—nad yw'r Llywodraeth hon yn chwilio i recriwtio i'n gwasanaeth iechyd ni o wledydd lle mae mawr angen y doctoriaid a'r nyrsys hynny. Mae trafferthion recriwtio'r gwasanaeth iechyd yma yn wybyddus i bob un ohonom—maent wedi'u trafod eisoes y prynhawn yma—ond, er bod y trafferthion recriwtio hyn yn bodoli yn ein gwasanaeth iechyd ni, rwyf o'r farn ei bod yn bwysig iawn cadw at bolisi recriwtio moesegol. Yn fy marn i, ni ddylid recriwtio yn fwriadol o gwbl o unrhyw wlad sydd â phrinder capasiti iechyd. Yn y fframwaith o'n blaenau y prynhawn yma, mae recriwtio felly yn cael ei ganiatáu, ond mae angen ad-dalu'r gwledydd y daw'r staff

ddygydd i'm sylw—nid yn unig mewn perthynas â'r rhan hon o'r byd, ond mewn rhannau eraill o Affrica—bod problemau penodol o ran genedigaeth a beichiogrwydd, a dylem fod yn falch i helpu i'w goresgyn. Yn wir, ddydd Iau, bydd dau o fy etholwyr, sef Musa Yousuf a Abdirahman Ahmed, yn arwain dirprwyaeth iechyd o Butetown fel rhan o grŵp Horn Health Concern, gyda Dr Mahad Omar a Dr Ali Qasim, arbenigwyr iechyd cyhoeddus, i Somaliland i gyflenwi cyflenwadau meddygol hanfodol ac fel rhan o'r broses o gyfnewid syniadau a gwybodaeth yr ydym am ei gweld yn datblygu. Nid yw hwn yn brosiect Cymru o Blaid Affrica ond mae'n dangos y math o fenter gymunedol y gellir ei chefnogi a'i meithrin gan y gweithgaredd hwn. Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod gennym gysylltiadau cryf a'n bod yn cydweithio gyda'r gymuned iechyd ryngwladol. Mae manteision clir i Gymru a gweddill y byd, a dylem i gyd fod yn falch o'r gwaith yr ydym yn ei wneud.

Elin Jones: I am pleased to have the opportunity to discuss our health services in the international context. The framework before us today notes a number of small and important schemes taking place between community groups and so on in Wales and schemes that are mainly in the rest of Europe or Africa. There is no doubt that it is right and good to see the expertise of the NHS and individuals within the NHS being used to promote health and to reduce ill health in societies and countries less fortunate than ours. It is also a good thing, as outlined in the framework, that this Government is not looking to recruit to our health service from countries where there is a great need for those doctors and nurses. There have been problems in terms of recruitment for the health service that are known to us all in the Chamber—they have been discussed already this afternoon—but although problems with recruitment exist in our health service here, I am of the opinion that it is important to keep to an ethical recruitment policy. In my view, we should not deliberately recruit from any country that has a shortage of capacity in health terms. In the framework before us this afternoon, recruitment of this kind is permitted but repayment must be made to those countries from where the staff are taken. The emphasis is a little different to

hynny ohonynt. Mae'r pwyslais ychydig yn wahanol i'r hyn y byddwn yn dymuno ei weld.

Dylai fod yn destun pryder i bob un ohonom bod rhai clefydau a ddiflannodd o'n gwlad ni flynyddoedd yn ôl yn dal i ladd pobl bob dydd mewn gwledydd eraill. Mae'r rhain yn cynnwys clefydau fel TB. Mae clefydau eraill y gellid eu trin, fel malaria a HIV, yn gofyn am ymdrech ac adnoddau i leihau nifer y marwolaethau. Mae prifysgolion Cymru yn gwneud gwaith pwysig ar iechyd cyhoeddus byd-eang. Mae'n bwysig bod y gwaith hwnnw yn cael ei hyrwyddo. Dyna pam fy mod yn barod i gefnogi gwelliant 1 yn enw William Graham. Yn ogystal â'r fframwaith hwn, rwy'n gobeithio y gwnaiff y Llywodraeth ddefnyddio ei dylanwad yn lle bynnag y bo modd, gyda Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol neu'r Undeb Ewropeaidd, i annog pawb i gydweithio i estyn rhaglenni imiwneiddio ac i wella systemau iechyd cyhoeddus yn y gwledydd mwyaf anghenus.

Rwy'n cefnogi'r cynnig. Mae'r fframwaith yn synhwyrol o fewn adnoddau a phwerau cyfyngedig y Cynulliad a'r Llywodraeth. Mae'n bwysig inni gofio pa mor ffodus yr ydym o gael ein geni yng Nghymru, ac o fyw yma. Mae ffigur 1 yn y fframwaith o'n blaenau yn ein hatgoffa o hynny. Mae disgwyliad oes unigolyn o'i eni yng Nghymru yn bron i 80 mlynedd; hanner hynny yw'r disgwyliad oes yn Simbabwe neu Affganistan. Dyna'r targed a fydd, gobeithio, yn ein huno i gyd y prynhawn yma: i gyrraedd sefyllfa lle bydd gennych gyfle cyfartal am fywyd hir a llawn, lle bynnag yn y byd rydych yn cael eich geni.

Mick Antoniw: It is not uncommon these days to hear comments that we should not be bothering with other countries and that we should focus only on our own. I have heard this many times. I disagree strongly with those sentiments. I believe that, as citizens of the world, we have a duty to our fellow human beings. One way that we try to achieve this is through international health development and partnership. Therefore, I was pleased that one subject of this report is the exciting work of Partnerships Overseas Networking Trust, which is based in my constituency of Pontypridd. It is worth

what I would like to see.

It should be a matter of concern to us all that some diseases that disappeared from our country many years ago still kill people every day in other countries. These include diseases such as TB. On other illnesses that are treatable, such as malaria and HIV, effort and resource is needed to reduce the number of deaths. Universities here in Wales are undertaking important work on public health on a global level. It is important that this work is promoted. That is why I am willing to support amendment 1 in the name of William Graham. In addition to this framework, I hope that Government will use its influence, wherever that can be done, with the UK Government or with the European Union, to encourage everyone to collaborate to extend these programmes and to improve public health programmes in the countries that need it most.

I support the proposal. The framework is sensible within the limited resources and powers of the Assembly and the Government. It is important that we remind ourselves how fortunate we are to have been born and to live in Wales. Figure 1 of the framework before us reminds us of that. The life expectancy of an individual born in Wales is nearly 80 years. Life expectancy is half that for those born in Zimbabwe or Afghanistan. That is the target that I hope will unite us all this afternoon: to reach a position where, wherever in the world you are born, you have an equal chance of a long and full life.

Mick Antoniw: Nid yw'n anghyffredin y dyddiau hyn i glywed sylwadau na ddylem fod yn trafferthu â gwledydd eraill ac y dylem ganolbwyntio arnom ni ein hunain yn unig. Rwyf wedi clywed hyn droeon. Rwy'n anghytuno'n llwyr â'r sylwadau hynny. Credaf fod gennym ni, fel dinasyddion y byd, ddyletswydd i'n cyd-ddyn. Un ffordd yr ydym yn ceisio cyflawni hyn yw drwy ddatblygu iechyd rhyngwladol a phartneriaethau rhyngwladol. Felly, rwy'n falch bod un pwnc yn yr adroddiad hwn yn sôn am waith cyffrous yr Ymddiriedolaeth Rhwydweithio Partneriaethau Tramor, neu

looking at what is being achieved by the PONT-Mbale connection. PONT was set up in 2005, with the aim of connecting Pontypridd and the Ugandan town of Mbale, by linking professionals and organisations. Shortly afterwards, the whole of Rhondda Cynon Taf was twinned with the wider Mbale district, expanding the partnership to a regional level of some 750,000 people.

The concepts behind PONT started as far as back as the Ethiopian famine of 1985, when volunteers from Pontypridd went to work in the refugee camps and in Sudan. In 2002, volunteers made their first visit to Mbale, which is a town of similar size to Pontypridd, serving a region of 760,000 people, with the majority living in poor rural villages. The people of Mbale district are among the poorest in Africa, with average incomes of less than \$1 a day, average life expectancy of 46 and mortality rates for children of 200 per 1,000. Since then, PONT has been involved in training Ugandans in conjunction with local government and at all levels to develop and manage the provision of health services. The key steps have been to identify trustworthy individuals already doing a good job and then to build relationships with them before jointly identifying worthwhile projects. Only then does PONT seek to raise funds, which are always specifically targeted at pre-casted projects.

In 2008, as the report says, the partnership was awarded two United Nations gold star awards in recognition of its important work. It is one of only two projects in the world to receive such an award. In November 2011, PONT took a team of 31 doctors, nurses, midwives and engineers to Mbale to help develop the integrated health service, combining primary care, ambulance transfers and hospitals upgrades. The volunteers involved have trained 100 village health workers, with approximately 700 people in each village, which is 70,000 people, having access to primary healthcare services, or village healthcare as it is known in Mbale. In addition, PONT has also trained over 430 community health promoters and, as a

PONT, sydd wedi'i lleoli ym Mhontypridd yn fy etholaeth i. Mae'n werth edrych ar yr hyn sy'n cael ei gyflawni gan gyswllt PONT-Mbale. Cafodd PONT ei sefydlu yn 2005, gyda'r nod o gysylltu Pontypridd â thref Mbale yn Uganda, drwy gysylltu gweithwyr proffesiynol a sefydliadau. Yn fuan wedyn, cafodd Rhondda Cynon Taf i gyd ei gefeillio ag ardal ehangach Mbale, gan ehangu'r bartneriaeth ar lefel ranbarthol i gynnwys rhyw 750,000 o bobl.

Dechreuodd y syniad y tu ôl i PONT cyn belled yn ôl â newyn Ethiopia ym 1985, pan aeth gwirfoddolwyr o Bontypridd i weithio mewn gwersylloedd ffoaduriaid ac yn Swdan. Yn 2002, aeth gwirfoddolwyr ar eu hymweliad cyntaf â Mbale, sydd yn dref o faint tebyg i Bontypridd, ac sy'n gwasanaethu ardal o 760,000 o bobl, gyda'r mwyafrif yn byw mewn pentrefi gwledig a thlawd. Mae pobl ardal Mbale ymysg y tlotaf yn Affrica, gydag incwm cyfartalog o lai na \$1 y dydd, disgwyliad oes cyfartalog o 46 a chyfraddau marwolaethau plant o 200 fesul 1,000. Ers hynny, mae PONT wedi bod yn hyfforddi pobl yn Uganda ar y cyd â llywodraeth leol ac ar bob lefel er mwyn datblygu a rheoli'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd. Y camau allweddol fu nodi unigolion dibynadwy a oedd eisoes yn gwneud gwaith da, adeiladu perthynas â hwy a nodi prosiectau gwerth chweil ar y cyd. Dim ond wedyn y mae PONT yn ceisio codi arian, sydd bob tro'n cael ei dargedu'n benodol at brosiectau sydd eisoes wedi pennu eu costau.

Yn 2008, fel y dywed yr adroddiad, enillodd y bartneriaeth ddwy o wobrwyon seren aur y Cenedloedd Unedig fel cydnabyddiaeth o'i gwaith pwysig. Mae'n un o ddim ond dau brosiect yn y byd i gael gwobr o'r fath. Ym mis Tachwedd 2011, aeth PONT â thîm o 31 o feddygon, nyrsys, bydwagedd a pheirianwyr i Mbale i helpu i ddatblygu'r gwasanaeth iechyd integredig, sy'n cyfuno gofal sylfaenol, trosglwyddiadau ambiwlans ac uwchraddio ysbytai. Mae'r gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan wedi hyfforddi 100 o weithwyr iechyd pentrefi; mae oddeutu 700 o bobl ym mhob pentref, sy'n golygu bod gan 70,000 o bobl fynediad at wasanaethau gofal iechyd sylfaenol, neu ofal iechyd pentref fel y'i gelwir yn Mbale. Yn ogystal, mae PONT

consequence of these two initiatives, over 400,000 people in Mbale district benefit from a primary healthcare service. Backing these services, PONT has also introduced a new motorbike ambulance service—there are five motorbikes at the moment, but a further 24 will be rolled out over the next 18 months. As for secondary healthcare, an endoscopy unit has been installed in Mbale by Royal Glamorgan Hospital staff. This is only the second endoscopy unit in Uganda, proving immensely valuable.

All in all, it is very clear to see that PONT is making a significant contribution to the people of Mbale, who, in turn, are helping Welsh professionals develop their skills, which prove beneficial to this country. PONT is a working example of the real difference to human lives that can be made through our international work and connections. I am sure that the Assembly and the Welsh Government would wish to commend the work being carried out by PONT, which is contributing so much to the fulfilment of the Welsh Government's international aspirations.

Janet Finch-Saunders: I, too, welcome this draft international health framework, while also acknowledging that Wales needs to attract medical intelligence, good practice and developments in health. I welcome the commitment in this draft to shared learning; therefore I support amendment 1, tabled in the name of William Graham. I will go on to say that I am also supporting amendments 2 and 3 tabled in the name of William Graham and amendment 4 tabled in the name of Peter Black.

I am proud that, as recognised in the draft framework, during the time of John Major's Government in 1993, the World Health Organization Collaborating Centre for Chemical Incidents—the only one of its kind in the world—was established at the University of Wales Institute, Cardiff. I am also proud of the community link programmes between Africa and places across Wales, including those in my constituency—Conwy and Tanzania and

wedi hyfforddi dros 430 o hyrwyddwyr iechyd cymunedol ac, o ganlyniad i'r ddwy fenter, mae dros 400,000 o bobl yn ardal Mbale yn elwa o wasanaeth gofal iechyd sylfaenol. I gefnogi'r gwasanaethau hyn, mae PONT hefyd wedi cyflwyno gwasanaeth ambiwlans beic modur newydd—mae pum beic modur i'w cael ar hyn o bryd, ond bydd 24 arall yn cael eu cyflwyno dros y 18 mis nesaf. O ran gofal iechyd eilaidd, mae uned endosgopi wedi cael ei sefydlu yn Mbale gan staff Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Hon yw'r ail uned endosgopi yn unig yn Uganda, sy'n profi'n hynod werthfawr.

Ar y cyfan, mae'n amlwg bod PONT yn gwneud cyfraniad sylweddol i bobl Mbale, sydd, yn eu tro, yn helpu gweithwyr proffesiynol Cymru i ddatblygu eu sgiliau, sy'n fuddiol i'r wlad hon. Mae PONT yn enghraifft ymarferol o'r gwahaniaeth gwirioneddol y gellir ei wneud i fywydau pobl drwy ein gwaith a'n cysylltiadau rhyngwladol. Rwy'n siŵr y byddai'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru am ganmol y gwaith a wneir gan PONT, sy'n cyfrannu cymaint i gyflawni dyheadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru.

Janet Finch-Saunders: Rwyf innau hefyd yn croesawu'r fframwaith iechyd rhyngwladol drafft hwn, gan gydnabod hefyd fod angen i Gymru ddenu gwybodaeth feddygol, arfer da a datblygiadau ym maes iechyd. Croesawaf yr ymrwymiad yn y drafft i ddysgu a rennir; felly, rwy'n cefnogi gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw William Graham. Byddaf hefyd yn mynd ymlaen i ddweud fy mod yn cefnogi gwelliannau 2 a 3 a gyflwynwyd yn enw William Graham a gwelliant 4 a gyflwynwyd yn enw Peter Black.

Rwy'n falch, fel y mae'r fframwaith drafft yn ei gydnabod, fod Canolfan Cydweithredu ar Ddigwyddiadau Cemegol Sefydliad Iechyd y Byd—yr unig un o'i math yn y byd—wedi cael ei sefydlu, yn ystod cyfnod Llywodraeth John Major ym 1993, yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd. Rwyf hefyd yn falch o'r rhaglenni cysylltiadau cymunedol rhwng Affrica a lleoedd ledled Cymru, gan gynnwys y rhai yn fy etholaeth i—Conwy a Tanzania a Deganwy a Ghana. Hoffwn pe bai mwy o'r

Deganwy and Ghana. I would like for more of these programmes from all over Wales to be recognised; not just the 35% of health links funded by a grant from the Welsh Government or the Tropical Health and Education Trust, but those created through community initiative. All health systems feature a mix of private and public provision. We must seek to work with Governments, the voluntary sector and the private sector worldwide to achieve the millennium development goals.

4.30 p.m.

The Conservatives in Westminster advocate a results-focused approach and this is what we must do in Wales. However, I have concerns that the draft framework admits that Wales's health lags behind that of the regions and countries of the world that achieve the very best outcomes. For this reason, I will be supporting amendments 2 and 3 tabled in the name of William Graham AM and amendment 4 tabled in the name of Peter Black. Arguments for the sharing of clinical and operational best practice in international fora would be much stronger if the health outcomes of the Welsh NHS were better. The 8.4% real-terms cut that the Welsh Government is imposing on the Welsh NHS—that is £246 million this year alone and the biggest year-on-year cut to the health budget since the Assembly began—will severely inhibit our ability to increase and improve international links. Shockingly, Wales ranks in the bottom third of OECD nations for female life expectancy. Infant mortality figures are an excellent barometer of the condition of a nation's healthcare system. However, the latest figures from 2009 show that, in Wales, the infant mortality rate stands at 4.8 deaths per 1,000 live births, which is higher than the UK average. We have the highest overall cancer incidence rate for males in the UK and, in 2010, it was found that the incidence of alcohol-related deaths for males, which was 18.9 per 100,000, and for females, was significantly higher than the rates in England. The 2010 Welsh health survey classified 57% of adults in Wales, which is more than half, as being overweight.

rhaglenni hyn o bob cwr o Gymru yn cael eu cydnabod, nid dim ond y 35% o'r cysylltiadau iechyd a ariennir gan grantiau gan Lywodraeth Cymru neu'r Ymddiriedolaeth Iechyd ac Addysg Trofannol, ond y rhai a wnaed trwy fenter gymunedol. Mae'r holl systemau iechyd yn cynnwys cyfuniad o ddarpariaeth breifat a chyhoeddus. Mae'n rhaid i ni geisio gweithio gyda Llywodraethau, y sector gwirfoddol a'r sector preifat ledled y byd i gyflawni amcanion datblygu'r mileniwm.

Mae'r Ceidwadwyr yn San Steffan yn hybu dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, a dyna beth sy'n rhaid i ni ei wneud yng Nghymru. Fodd bynnag, mae gennyf bryderon fod y fframwaith drafft yn cyfaddef bod iechyd Cymru ar ei hôl hi o ran rhanbarthau a gwledydd y byd sy'n cyflawni'r canlyniadau gorau. Oherwydd hyn, byddaf yn cefnogi gwelliannau 2 a 3 a gyflwynwyd yn enw William Graham AC a gwelliant 4 a gyflwynwyd yn enw Peter Black. Byddai'r dadleuon o blaid rhannu arfer gorau clinigol a gweithredol mewn fforymau rhyngwladol yn llawer cryfach pe bai canlyniadau iechyd GIG Cymru yn well. Mae'r toriad o 8.4% mewn termau real y mae Llywodraeth Cymru yn ei orfodi ar GIG Cymru—mae hynny'n cyfateb i £246 miliwn eleni yn unig a'r toriad mwyaf flwyddyn ar ôl blwyddyn i'r gyllideb iechyd ers dechrau'r Cynulliad—yn llesteirio ein gallu i gynyddu a gwella cysylltiadau rhyngwladol yn ddifrifol. Mae'n frawychus bod Cymru yn nhraean isaf cenedloedd OECD ar gyfer disgwyliad oes menywod. Mae ffigurau marwolaethau babanod yn ffon fesur wych o gyflwr system gofal iechyd cenedl. Fodd bynnag, dengys y ffigurau diweddaraf o 2009 gyfradd marwolaeth babanod yng Nghymru o 4.8 o farwolaethau i bob 1,000 o enedigaethau byw, sy'n uwch na chyfartaledd y DU. Mae gennym y gyfradd gyffredinol uchaf o ganser ymysg dynion yn y DU ac, yn 2010, canfuwyd fod cyfradd y marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol ymysg dynion, sef 18.9 i bob 100,000, a'r gyfradd i fenywod, yn sylweddol uwch na'r cyfraddau yn Lloegr. Dywedodd arolwg iechyd Cymru yn 2010 fod 57%, sef mwy na hanner, o oedolion yng Nghymru dros bwysau.

Our Wales for Africa health links scheme is working to address millennium development goal 6 to combat HIV, AIDS, malaria and other diseases, yet in my own constituency, the only HIV respite centre in Wales, Tyddyn Bach, has had to put its respite provision on hold due to a lack of Welsh Government funding. These are the concerns that we should be addressing as a priority and these are just some of the reasons that we should be protecting our own health budget and focusing our resources on getting the Welsh NHS in order. Learning from other nations can work; in fact, the Labour MP Ben Bradshaw has admitted that, as a result of reform, the health improvements in England, compared with Wales, have seen much better outcomes from proportionately less money. David Miliband has said that where reform was missing in Wales, the improvement was far slower. The 2010 Nuffield report concluded that the NHS in England spends less, has fewer doctors, nurses and managers per head of the population than the health service in Wales, but made better use of the resources—

Mick Antoniw: Do you agree, though, that on the basis of the report, we should be developing and encouraging international connections on health?

Janet Finch-Saunders: I most certainly do, but I also think that we need to get the health system here working for the benefit of our residents. The cut that you have imposed will certainly not help us to do that.

Month after month, this party remains disappointed by the waiting time figures in Wales. In particular, the report found that pressure on NHS bodies in England through public reporting of performance had led to significant productivity gains. Let us not forget to learn from our closest neighbours. What matters are results. We must not be prescriptive about how these are achieved, but rather harness the energies of both the public and private sectors in order to realise our goal. We must certainly work towards building our international links on health across the world.

Mae ein cynllun cysylltiadau iechyd, Cymru o Blaid Affrica, yn gweithio i fynd i'r afael â nod 6 o nodau datblygu'r mileniwm, sef brwydro'n erbyn HIV, AIDS, malaria a chlefydau eraill, ac eto yn fy etholaeth i, bu'n rhaid i'r unig ganolfan seibiant HIV yng Nghymru, Tyddyn Bach, ohirio ei darpariaeth seibiant oherwydd diffyg cyllid gan Lywodraeth Cymru. Dyma'r pryderon y dylem fod yn mynd i'r afael â hwy fel blaenoriaeth a dyma rai o'r rhesymau pam y dylem fod yn diogelu ein cyllideb iechyd ein hunain a chanolbwyntio ein hadnoddau ar gael GIG Cymru mewn trefn. Gall dysgu o wledydd eraill weithio; yn wir, cyfaddefodd yr Aelod Seneddol Llafur Ben Bradshaw, o ganlyniad i ddiwygiadau, fod gwelliannau iechyd yn Lloegr, o'u cymharu â Chymru, wedi arwain at ganlyniadau llawer gwell am lai o arian mewn cymhariaeth. Dywedodd David Miliband pan fo diwygio ar goll yng Nghymru, mae'r gwelliant yn llawer arafach. Daeth adroddiad Nuffield yn 2010 i'r casgliad bod y GIG yn Lloegr yn gwario llai, fod ganddo lai o feddygon, nyrsys a rheolwyr fesul pen o'r boblogaeth na'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, ond ei fod yn gwneud gwell defnydd o'r adnoddau—

Mick Antoniw: A ydych yn cytuno, fodd bynnag, y dylem ar sail yr adroddiad, fod yn datblygu ac annog cysylltiadau rhyngwladol ar iechyd?

Janet Finch-Saunders: Ydw wir, ond rwyf hefyd yn meddwl bod arnom ni angen cael y system iechyd yma yn gweithio er lles ein trigolion. Ni fydd y toriad rydych wedi ei orfodi yn ein helpu i wneud hynny o gwbl.

Fis ar ôl mis, mae'r blaid hon yn parhau i gael ei siomi gan y ffigurau amseroedd aros yng Nghymru. Yn arbennig, canfu'r adroddiad fod y pwysau a roddir ar gyrff y GIG yn Lloegr drwy gyhoeddi adroddiadau cyhoeddus ar eu perfformiad wedi arwain at gynnydd sylweddol yn eu cynhyrchiant. Gadewch inni beidio ag anghofio dysgu o'n cymdogion agosaf. Canlyniadau sydd bwysicaf. Rhaid inni beidio â bod yn rhagnodol ynghylch sut y mae'r rhain yn cael eu cyflawni, ond yn hytrach ffrwyno egni'r sectorau cyhoeddus a phreifat er mwyn gwireddu ein nod. Yn bendant, mae'n rhaid

inni weithio i adeiladu ein cysylltiadau rhyngwladol ar iechyd ar draws y byd.

Suzy Davies: Thank you, Minister, for this draft document. With all the other challenges facing the Welsh NHS at this time, I was a little surprised to see that we are devoting a debate to this subject at this time. However, it is an interesting summary of existing examples of engagement and it reminded us of a few important points. We should be upfront and proud of any steps we make towards achieving the millennium development goals, including Wales for Africa and PONT. If we can export useful experience, knowledge and skills, then we must do that, as all the contributors have indicated so far. However, we need to be clearer about what we expect regarding benefits coming the other way. I absolutely do not dismiss the global citizenship aims of some of the examples given in the paper, but they must fit into a bigger picture of competing demands.

Suzy Davies: Diolch, Weinidog, am y ddogfen ddrافت. Gyda'r holl heriau eraill sy'n wynebu GIG Cymru ar hyn o bryd, roeddwn yn synnu rhywfaint o weld ein bod yn cynnal dadl ar y pwnc hwn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n grynodedd diddorol o'r enghreifftiau presennol o ymgysylltu, ac mae'n ein hatgoffa o ambell bwynt pwysig. Dylem fod yn agored ac yn falch o unrhyw gamau rydym yn eu cymryd i gyflawni amcanion datblygu'r mileniwm, gan gynnwys Cymru o Blaid Affrica a PONT. Os gallwn allforio profiad, gwybodaeth a sgiliau defnyddiol, mae'n rhaid inni wneud hynny, fel mae'r holl gyfranwyr wedi nodi hyd yn hyn. Fodd bynnag, mae angen i ni fod yn gliriach am yr hyn a ddisgwyliwn o fuddiannau o'r cyfeiriad arall. Nid wyf yn diysturu amcanion dinasyddiaeth fyd-eang rhai o'r enghreifftiau a roddir yn y papur, ond mae'n rhaid iddynt gyd-fynd â darlun ehangach o ofynion sy'n cystadlu.

Being good to the world is an unconditional given, but we need to see how the world is good for us too. Health administration links with Brittany are all very well, but how have they improved health, how have they saved the health service money and how are those savings being used? I know that this is only a framework document, so it is thin on such useful detail, but we get the point about sharing, partnership and collaboration, words that clutter up this draft like the detritus on a teenager's bedroom floor. It would have helped us to assess the value of some aspects of our international health engagement and this framework if we had had just a couple of case studies in an appendix instead.

Mae gweithio er lles y byd yn rhywbeth digwestiwn, ond mae angen i ni weld sut mae'r byd yn gweithio er ein lles ni hefyd. Mae cysylltiadau gweinyddu iechyd â Llydaw yn iawn yn eu lle, ond sut maent wedi gwella iechyd, sut maent wedi arbed arian i'r gwasanaeth iechyd a sut mae'r arbedion hynny'n cael eu defnyddio? Gwn mai dim ond dogfen fframwaith yw hon, felly mae'n brin o fanylion defnyddiol, ond rydym yn deall y pwynt am rannu, partneriaeth a chydweithio, geiriau sy'n frith draphlith dros y drafft hwn fel llanastr ar lawr ystafell wely rhywun yn ei ardegau. Byddai wedi bod o fudd i asesu gwerth rhai agweddau ar ein hymrwymiad iechyd rhyngwladol a'r fframwaith hwn pe baem wedi cael, yn hytrach, un neu ddau o astudiaethau achos mewn atodiad.

Nevertheless, there are some aspects of engagement that clearly have achieved something, for our expertise or improved health. I am talking about the World Health Organization's centre of excellence for the management of chemical incidents, which is in Cardiff, and the 1000 Lives programme, which was introduced after working with the Institute for Healthcare Improvement in

Serch hynny, mae rhai agweddau ar ymgysylltu yn amlwg wedi cyflawni rhywbeth, o ran ein harbenigedd neu well iechyd. Rwyf yn sôn am ganolfan ragoriaeth Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer rheoli digwyddiadau cemegol, sydd yng Nghaerdydd, a'r rhaglen 1000 o Fywydau, a gyflwynwyd ar ôl gweithio gyda'r Sefydliad Gwella Gofal Iechyd yn Boston. Fodd

Boston. However, I am not clear about how, overall, direct governmental international engagement has improved public health, made our health services more efficient and made our expertise an economically valuable asset. For example, how has working on health inequalities elsewhere in the world made any difference to the stark health inequalities that split the city of Swansea—the difference between life expectancy in the east and west is 13 years, and that is despite apparent access to the same services?

I see that the framework aims to heighten the visibility of NHS Wales and Welsh health communities. It claims that we already have a significant and trusted voice, a reputation that we need to capitalise and build upon, and that can be hard to understand when we look at the Welsh NHS today, both from within and without. Are we such a model of excellence in the eyes of the developed world with our longer waiting lists, longer waiting times, missed ambulance targets and rising incidence of obesity, diabetes and alcohol abuse? Would an emerging nation really be convinced to take guidance from a health service where the Welsh Government guaranteed redundant managers' pay for 10 years but will not fund a dedicated facility for veterans' healthcare in north Wales, which will not fund LHBs sufficiently to run scanners on the weekend, and which allows cuts in the number of hospital beds before solving the problems of bedblocking and ambulance queues? All this talk of professional development for staff in the NHS and international health champions to promote the benefits of engaging in international work is only likely to irritate when we see hospitals closing, not enough ambulances and the absence of a cancer drugs fund.

Julie Morgan: I wonder whether Suzy Davies has ever met any of the health professionals who have been on these visits and who have been absolutely inspired by what they have seen and the help they been able to give, which has enabled them to put much more into their efforts here on their

bynag, nid wyf yn glir ynghylch sut, ar y cyfan, mae ymgysylltu rhyngwladol uniongyrchol gan y Llywodraeth wedi gwella iechyd y cyhoedd, wedi gwneud ein gwasanaethau iechyd yn fwy effeithlon a'n harbenigedd yn ased economaidd gwerthfawr. Er enghraifft, sut mae gweithio ar anghydraddoldebau iechyd mewn mannau eraill yn y byd wedi gwneud unrhyw wahaniaeth i'r anghydraddoldebau iechyd mawr sy'n rhannu dinas Abertawe—mae'r gwahaniaeth rhwng disgwyliad oes yn y dwyrain a'r gorllewin yn 13 mlynedd, serch y ffaith yr ymddengys fod yr un mynediad i'w gael at yr un gwasanaethau?

Gwelaf fod y fframwaith yn anelu at gynyddu gweledd GIG Cymru a chymunedau iechyd Cymru. Mae'n honni bod gennym eisoes lais sylweddol yr ymddiriedir ynddo, enw da y mae angen inni fanteisio ac adeiladu arno, ond gall hynny fod yn anodd i'w ddeall pan edrychwn ar GIG Cymru heddiw, o'r tu fewn ac allan. A oes gennym y fath fodel o ragoriaeth yn llygaid y byd datblygedig gyda'n rhestrau aros hwy, amseroedd aros hwy, targedau ambiwlans a fethwyd, a chynnydd mewn gordewdra, clefyd siwgr a cham-drin alcohol? A fyddai gwlad sy'n dod i'r amlwg yn cael ei gwir argyhoeddi i gymryd arweiniad gan wasanaeth iechyd lle mae Llywodraeth Cymru yn gwarantu cyflog rheolwyr segur am 10 mlynedd ond ddim yn ariannu cyfleuster pwrpasol ar gyfer gofal iechyd cyn-filwyr yn y gogledd, ddim yn ariannu byrddau iechyd lleol ddigon i gynnwyl sganwyr ar y penwythnos, ac sy'n caniatáu toriadau yn nifer y gwelyau ysbyty cyn datrys problemau blocio gwelyau a chiwiau ambiwlans? Nid yw'r holl sôn yma am ddatblygiad proffesiynol ar gyfer staff yn y GIG a hyrwyddwyr iechyd rhyngwladol i hyrwyddo'r manteision a ddaw yn sgîl ymgysylltu mewn gwaith rhyngwladol yn mynd i wneud dim ond cythruddo pan welwn ysbytai'n cau, prinder ambiwlansys a diffyg cronfa cyffuriau canser.

Julie Morgan: Tybed a yw Suzy Davies wedi erioed cwrdd ag unrhyw un o'r gweithwyr iechyd proffesiynol a fu ar yr ymweliadau hyn ac sydd wedi cael eu hysbrydoli'n llwyr gan yr hyn y maent wedi ei weld a'r cymorth maent wedi gallu ei roi, sydd wedi sbarduno eu hymdrech ar ôl iddynt

return and to look at things in a global way, not in this nit-picking, inward-looking way that I fear she is looking at them.

Suzy Davies: That was a slightly long intervention. I have met people, and, in particular, people working in Rwanda. I said at the beginning of my contribution that I do not dismiss the value of global citizenship in the debate that we are having today.

The draft document is right when it says that international engagement is not a luxury, but we need to be absolutely clear about what is a priority and when that is the case. I agree with the other contributors that the role of our higher education institutions should be a priority. If our reputation for life sciences is strong, then the potential for our knowledge economy as well as health improvement across the globe is strong. I hope that when the framework talks about our international work being ‘grounded in Welsh principles’, it does not mean that Wales will refuse to accept the place of the private sector in other parts of the world. We cannot kneecap our higher education institutions like that. Welsh principles are not the same as Welsh Government dogma, an inconvenient truth that needs to be faced up to if we are to remain a significant and trusted voice in the wider world.

I also want to mention recruitment briefly. Do I have a few extra minutes, Deputy Presiding Officer?

The Deputy Presiding Officer: You will be told when you have run out of time.

Suzy Davies: One of the most important things we have gained from our international involvement is recruitment, which, as Elin Jones said, is a serious issue in Wales, and one that is perhaps a bit more important than the agreements on health and wellbeing in Patagonia. Minister, your framework introduces an institute of public health for Wales, an international health strategy group with its own director and an international health co-ordination centre, but they are laid

ddychwelyd, ac i edrych ar bethau mewn ffordd fyd-eang, ac nid yn y ffordd gweld bai, a mewn blyg y mae arnaf ofn ei bod hi'n edrych arnynt.

Suzy Davies: Roedd hwnnw'n ymyriad ychydig yn hirfaith. Rwyf wedi cwrdd â phobl, ac, yn benodol, pobl sy'n gweithio yn Rwanda. Dywedais ar ddechrau fy nghyfraniad nad wyf yn diystyru gwerth dinasyddiaeth fyd-eang yn y ddadl yr ydym yn ei chael heddiw.

Mae'r ddogfen ddrafft yn gywir wrth nodi nad yw ymgysylltu rhyngwladol yn beth moethus, ond mae angen i ni fod yn gwbl glir ynghylch yr hyn sy'n flaenoriaeth a phryd mae hynny'n berthnasol. Cytunaf â'r cyfranwyr eraill y dylai rôl ein sefydliadau addysg uwch fod yn flaenoriaeth. Os yw ein henw da am wyddorau bywyd yn gryf, yna mae'r potensial i'n heconomi wybodaeth yn ogystal â gwella iechyd ar draws y byd yn gryf. Gobeithio, pan fydd y fframwaith yn sôn bod ein gwaith rhyngwladol yn 'seiliedig ar egwyddorion Cymreig', nad yw hynny'n golygu y bydd Cymru yn gwrthod derbyn lle'r sector preifat mewn rhannau eraill o'r byd. Ni allwn lesteirio ein sefydliadau addysg uwch yn y fath fodd. Nid yw egwyddorion Cymreig yr un fath â dogma Llywodraeth Cymru, sy'n wirionedd anghyfleus y mae angen ei wynebu os ydym am barhau i fod yn llais sylweddol yr ymddiriedir ynddo yn y byd ehangach.

Rwyf hefyd am sôn yn fyr am recriwtio. A oes gennyf ychydig o funudau ychwanegol, Ddirprwy Lywydd?

Y Dirprwy Lywydd: Byddaf yn rhoi gwybod ichi pan fydd eich amser wedi dod i ben.

Suzy Davies: Un o'r pethau pwysicaf rydym wedi ei ennill o'n cyfranogiad rhyngwladol yw recriwtio, sydd, fel y dywedodd Elin Jones, yn fater difrifol yng Nghymru, ac yn un sydd efallai ychydig yn bwysicach na'r cytundebau ar iechyd a lles ym Mhatagonia. Weinidog, mae eich fframwaith yn cyflwyno sefydliad iechyd y cyhoedd i Gymru, grŵp strategaeth iechyd rhyngwladol gyda'i gyfarwyddwr ei hun a chanolfan cydlynu iechyd ryngwladol, ond maent yn cael eu

before us without any basic reference to cost and, again, any indication of how their effectiveness is to be monitored and evaluated.

The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths): I am grateful for the comments from Members this afternoon, and I will ask my officials to take on board those comments when producing the final version of the international health framework, which, along with the consultation summary report, will be published on the Welsh Government website in May. I also thank the health professional bodies, community organisations, education institutes and members of the public, who have played an important role in developing the draft international health framework.

Turning to some of the comments, Peter Black mentioned the international engagement that we are looking at on several levels. That is a very important point. He gave an excellent example of the programme in Camden, New Jersey, and I will ask officials to look at that. However, you will be aware that the USA does not have the primary care service that we have in Wales, so any improvement from a lower base would be easier as we look at that.

Vaughan Gething spoke about the excellent support given by several of his constituents. You made reference to two of your constituents, Vaughan, who are going to Somaliland later this week. I have certainly met many Welsh people who have taken their expertise overseas, so it is very much a two-way thing. Only yesterday, Carl Sargeant, the Minister for local government, and I met Professor Jonathan Shepherd, a professor in maxillofacial and oral surgery here in Cardiff, who has done some fantastic work overseas.

Elin Jones asked if I would continue to work with the UK Government and with Scotland and Northern Ireland to encourage more international collaboration. That will certainly be the way forward, and it is very good that she reminded us of how lucky we are to live in Wales.

gosod ger ein bron heb unrhyw gyfeiriad sylfaenol at gost ac, unwaith eto, unrhyw syniad o sut bydd eu heffeithiolrwydd yn cael ei fonitro a'i werthuso.

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths): Rwy'n ddiolchgar am y sylwadau gan yr Aelodau y prynhawn yma, a byddaf yn gofyn i fy swyddogion ystyried y sylwadau hynny wrth iddynt lunio y fersiwn derfynol o'r fframwaith iechyd rhyngwladol, a gaiff ei gyhoeddi, ar wefan Llywodraeth Cymru ym mis Mai, ynghyd ag adroddiad cryno yr ymgynghoriad. Diolch hefyd i'r cyrff iechyd proffesiynol, sefydliadau cymunedol, sefydliadau addysg ac aelodau'r cyhoedd, sydd wedi chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu'r fframwaith iechyd rhyngwladol drafft.

I droi at rai o'r sylwadau, soniodd Peter Black am yr ymgysylltu rhyngwladol rydym yn edrych arno ar sawl lefel. Mae hwnnw'n bwynt pwysig iawn. Rhoddodd enghraifft ardderchog o'r rhaglen yn Camden, New Jersey, a byddaf yn gofyn i swyddogion edrych ar hynny. Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol nad oes gan yr UDA y gwasanaeth gofal sylfaenol sydd gennym ni yng Nghymru, felly byddai unrhyw welliant o sylfaen is yn haws wrth i ni edrych ar hynny.

Siaradodd Vaughan Gething am y cymorth rhagorol a roddir gan nifer o'i etholwyr. Cyfeiriasoch at ddau o'ch etholwyr, Vaughan, sy'n mynd i Somaliland yn ddiweddarach yr wythnos hon. Rwy'n sicr wedi cyfarfod llawer o Gymry sydd wedi mynd â'u harbenigedd dramor, felly mae'n broses ddwy ffordd yn bendant. Dim ond ddoe, cyfarfu Carl Sargeant, y Gweinidog dros lywodraeth leol, a minnau â'r Athro Jonathan Shepherd, athro mewn llawdriniaeth yr wyneb a'r genau yma yng Nghaerdydd, sydd wedi gwneud gwaith gwych dramor.

Gofynnodd Elin Jones os byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU a chyda'r Alban a Gogledd Iwerddon i annog mwy o gydweithio rhyngwladol. Honno'n sicr fydd y ffordd ymlaen, ac mae'n dda o beth ei bod wedi ein hatgoffa o ba mor lwcus ydym i fyw yng Nghymru.

Health is a global issue and we cannot protect and support the health of the population in Wales in isolation from the rest of the world. We depend on the economic development, stability and security of the rest of the world, and this involves developing key relationships with other countries and organisations, and strong links and collaboration with the international health community can only serve to enhance and complement health outcomes in Wales so that they equal the best in the rest of the world. This point seems to have been missed by all of the Welsh Conservatives' speakers—Julie Morgan raised a very important point with Suzy Davies. You only have to meet somebody like Angela Gorman—I read her book over Christmas and learnt that she has done fantastic work in Africa—to know how important it is. I am therefore very surprised, Suzy Davies, that you are surprised that I brought this very important issue to the Chamber this afternoon.

Mick Antoniw, you talked about PONT, and that is probably one of the best schemes. It is just fantastic. It shows how we must help our fellow citizens. I would certainly commend the work of everybody from Pontypridd who does such fantastic work in Mbale.

It is very satisfying to know that our Welsh legacy is as the birthplace of the NHS and that the contribution it makes continues through the dedication and commitment of Welsh NHS staff, community and third sector organisations, education establishments and many others from Wales. I think that this contribution is extremely important, because there are many parts of the world where health is poorer than it is in Wales, and in these regions, Wales can make a major contribution to global health priorities, such as the millennium development goals, by sharing knowledge and expertise to help countries to improve and sustain better health. Of course, as I have said, we can learn from other regions and countries of the world that enjoy the very best health outcomes. In 'Together for Health', I set out the ambition for a world-class health system for Wales. To support us in achieving this, and to continue to improve and protect the health of our

Mae iechyd yn fater byd-eang ac ni allwn ddiogelu a chefnogi iechyd y boblogaeth yng Nghymru ar wahân i weddill y byd. Rydym yn dibynnu ar ddatblygiad economaidd, sefydlogrwydd a diogelwch y gweddill y byd, ac mae hyn yn golygu datblygu perthnasau allweddol â gwledydd a sefydliadau eraill, a chysylltiadau cryf a chydweithio â'r gymuned iechyd rhyngwladol, sy'n fodd o wella ac ategu canlyniadau iechyd yng Nghymru fel eu bod yn gyfartal â'r gorau yng ngweddill y byd. Ymddengys fod y pwynt wedi ei golli gan holl siaradwyr y Ceidwadwyr Cymreig—cododd Julie Morgan bwynt pwysig iawn gyda Suzy Davies. Nid oes raid i chi ond cwrdd â rhywun fel Angela Gorman—darllenais ei llyfr dros y Nadolig a chanfod ei bod wedi gwneud gwaith gwych yn Affrica—i wybod pa mor bwysig ydyw. Felly, rwy'n synnu'n fawr, Suzy Davies, eich bod chi'n synnu fy mod i wedi dod â'r mater pwysig iawn hwn i'r Siambr y prynhawn yma.

Mick Antoniw, soniasoch am PONT, sydd mae'n debyg, yn un o'r cynlluniau gorau. Mae'n ardderchog. Mae'n dangos sut y mae'n rhaid i ni helpu ein cyd-ddinasyddion. Byddwn yn sicr yn canmol gwaith pawb o Bontypridd sy'n gwneud gwaith mor rhagorol ym Mbale.

Mae'n rhoi cryn foddhad gwybod bod ein hetifeddiaeth Gymreig fel man geni y GIG, a bod y cyfraniad y mae'n ei wneud yn parhau drwy ymroddiad ac ymrwymiad staff GIG Cymru, sefydliadau cymunedol a sefydliadau'r trydydd sector, sefydliadau addysg a llawer o rai eraill o Gymru. Credaf fod y cyfraniad hwn yn bwysig iawn, oherwydd mae llawer rhan o'r byd lle mae iechyd yn waeth nag ydyw yng Nghymru, ac, yn y rhanbarthau hyn, gall Cymru wneud cyfraniad mawr i flaenoriaethau iechyd byd-eang, megis nodau datblygu'r mileniwm, drwy rannu gwybodaeth ac arbenigedd i helpu gwledydd i wella a chynnal iechyd gwell. Wrth gwrs, fel y dywedais, gallwn ddysgu o ranbarthau a gwledydd eraill y byd sy'n mwynhau'r canlyniadau iechyd gorau. Yn 'Law yn Llaw at Iechyd', nodais yr uchelgais am system iechyd o'r radd flaenaf i Gymru. Er mwyn ein cefnogi i wireddu hyn, ac i barhau i wella a diogelu iechyd ein

population, I believe that it is absolutely vital that we develop collaborative partnerships within the health community globally. The framework sets out to ensure that there are mutual benefits to Wales and other international partners, and it gives a commitment to evidence-based practice and shared learning.

Y Dirprwy Lywydd: Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes, felly derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1.
Amendment 1 agreed.*

Y Dirprwy Lywydd: Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 2. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod, felly gohiriaf bob pleidlais arall o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.
Voting deferred until voting time.*

Adroddiad Blynyddol Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru The Equality and Human Rights Commission Wales's Annual Report

Y Dirprwy Lywydd: Rwyf wedi dethol gwelliannau 1 a 2 yn enw William Graham a gwelliant 3 yn enw Peter Black.

Cynnig NDM4921 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru 'Ateb yr Her, Arwain y Newid'.

The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt): I move the motion.

4.45 p.m.

I am pleased to bring forward this debate in order to discuss and commend the Equality and Human Rights Commission's work in Wales. The commission's annual review, 'Meet the challenge, lead the change', sets out its priorities for the year ahead and also

poblogaeth, credaf ei bod yn gwbl hanfodol ein bod yn datblygu partneriaethau ar y cyd o fewn y gymuned iechyd fyd-eang. Bwriad y fframwaith yw sicrhau bod manteision i Gymru a phartneriaid rhyngwladol eraill, ac mae'n rhoi ymrwymiad i arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a rhannu'r gwersi a ddysgir.

The Deputy Presiding Officer: The question is that amendment 1 be agreed. Are there any objections? I see that there are none, therefore amendment 1 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

The Deputy Presiding Officer: The question is that amendment 2 be agreed. Are there any objections? I see that there are. Therefore, voting on this item will be deferred until voting time.

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendments 1 and 2 in the name of William Graham and amendment 3 in the name of Peter Black.

Motion NDM4921 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales:

Notes the Equality and Human Rights Commission Wales' Annual Report 'Meet the Challenge, lead the change'.

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt): Cynigiaf y cynnig.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r ddadl hon er mwyn trafod a chymeradwyo gwaith y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru. Mae adolygiad blynyddol y comisiwn, 'Ateb yr her, arwain y newid', yn nodi ei flaenoriaethau am y flwyddyn sydd i

shows the significant steps that have been taken and the progress towards creating a fairer Wales. The Welsh Government has a positive relationship with the commission in Wales and I know that that is reflected across the Chamber. The commission and its Wales committee offer authoritative advice and act as a critical friend. Confirmation of that was captured at an event with stakeholders on the reform of the Equalities and Human Rights Commission, with many commenting on the work of the commission in Wales and saying that its work been woven into the fabric of equality in Wales.

The achievements and work carried out by the commission in Wales over the past year are numerous. Attention was drawn last week in the debate on the Communities, Equality and Local Government Committee's report on disability-related hate crime to the commission's recent report, 'Hidden in plain sight', which has given us valuable insight into what the next steps should be to tackle disability-related harassment in Wales. The report's recommendations were central to our new framework to tackle hate crime and were discussed at the first meeting of the race forum last week.

The commission also commissioned research to establish the extent of inequality in Wales, including the report 'How fair is Wales?', and the Wales Institute of Social and Economic Research, Data and Methods report, 'An Anatomy of Economic Inequality in Wales'. The commission's report 'How fair is Wales?' has given us real insight into the greatest inequalities in Wales. Its evidence was invaluable to a number of public sector organisations, including the Welsh Government, in the development of its strategic equality objectives. The ground-breaking report 'An Anatomy of Economic Inequality in Wales', provides further valuable evidence on the impact of background and birth on life chances, which has fed into our tackling poverty action plan.

ddod a hefyd yn dangos y camau sylweddol a gymerwyd a'r cynnydd a wnaed i greu Cymru decach. Mae gan Lywodraeth Cymru berthynas gadarnhaol gyda'r comisiwn yng Nghymru a gwn fod hynny'n cael ei adlewyrchu ar draws y Siambr. Mae'r comisiwn a'i bwyllgor yng Nghymru yn cynnig cyngor awdurdodol ac yn gweithredu fel cyfaill beirniadol. Cadarnhawyd hynny mewn digwyddiad gyda rhanddeiliaid ar ddiwygio'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, gyda llawer yn dweud fod gwaith y comisiwn yng Nghymru yn rhan annatod o gydraddoldeb yng Nghymru.

Mae'r cyflawniadau a'r gwaith a wnaed gan y comisiwn yng Nghymru dros y flwyddyn ddiwethaf yn niferus. Yn y ddadl yr wythnos diwethaf ar adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar droseddau casineb sy'n gysylltiedig ag anabledd, tynnwyd sylw at adroddiad diweddar y comisiwn, 'O'r golwg yng ngolwg pawb', a roddodd gipolwg gwerthfawr i ni ar y camau nesaf y dylid eu cymryd o ran mynd i'r afael ag aflonyddu ar sail anabledd yng Nghymru. Roedd argymhellion yr adroddiad yn ganolog i'n fframwaith newydd i fynd i'r afael â throseddau casineb ac fe'u trafodwyd yng nghyfarfod cyntaf y fforwm hil yr wythnos diwethaf.

Mae'r comisiwn hefyd wedi comisiynu gwaith ymchwil i sefydlu hyd a lled anghydraddoldeb yng Nghymru, gan gynnwys yr adroddiad 'Pa mor deg yw Cymru?', ac adroddiad Sefydliad Ymchwil, Data a Dulliau Cymdeithasol ac Economaidd Cymru, 'Dadansoddiad o anghydraddoldeb economaidd yng Nghymru'. Mae 'Pa mor deg yw Cymru?' wedi rhoi darlun gwirioneddol o'r anghydraddoldebau mwyaf yng Nghymru. Roedd ei dystiolaeth yn werthfawr iawn i nifer o sefydliadau sector cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, o ran datblygu ei amcanion cydraddoldeb strategol. Mae'r adroddiad arloesol 'Dadansoddiad o anghydraddoldeb economaidd yng Nghymru' yn rhoi rhagor o dystiolaeth werthfawr ar effaith cefndir a genedigaeth ar gyfleoedd bywyd, sydd wedi cyfrannu at ein cynllun gweithredu i fynd i'r afael â thlodi.

The commission has provided guidance to Welsh public authorities on equality impact assessments to ensure that we advance equality, eliminate discrimination and foster good relations during these challenging economic times. As Minister for Finance and Leader of the House with responsibility for equalities, I was determined to ensure that the Welsh Government undertook an annual equality impact assessment of our budgets. As the report says, that led to a consideration of the impact of the draft budget on vulnerable people, resulting in an extra £35 million for social services in 2010. I welcome the commission's analysing our equality impact assessment as one of its priorities for this year, as we want to learn lessons to ensure that we cement good practice into this process.

The commission's report and campaign, 'Who runs Wales?', provides evidence about the lack of women and people from other under-represented groups in positions of power in Wales and the need for business and political leaders to take action to remedy this. That can be seen in our emerging equality objectives, which have been published on our website for consultation. Its report 'Not just another statistic' gave a voice to people facing the most prejudice and isolation in Wales, such as Gypsy and Traveller communities, asylum seekers and refugees, people with mental health conditions, and transgender people.

The commission is also taking issues such as domestic abuse and mental health in the workplace into key business fora, showing that equality policies make economic sense through reduced absence, for example, as well as being socially just. A strong and distinct equality and human rights agenda is taking shape in Wales and the commission is contributing significantly to this. Welsh solutions are being sought to Welsh problems.

In its programme for government, the Welsh Government commits to exploring how

Mae'r comisiwn wedi darparu canllawiau i awdurdodau cyhoeddus Cymru ar asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb i sicrhau ein bod yn hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a meithrin cysylltiadau da yn ystod y cyfnod economaidd anodd hwn. Fel y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, sydd â chyfrifoldeb am gydraddoldeb, roeddwn yn benderfynol o sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad blynyddol o effaith ein cyllidebau ar gydraddoldeb. Fel y dywed yr adroddiad, arweiniodd hynny at ystyried effaith y gyllideb ddrafft ar bobl sy'n agored i niwed, gan arwain at roi swm ychwanegol o £35 miliwn i wasanaethau cymdeithasol yn 2010. Croesawaf y ffaith y bydd y comisiwn yn dadansoddi ein hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb fel un o'i flaenoriaethau am eleni, gan ein bod eisiau dysgu gwersi er mwyn sicrhau ein bod yn ymgorffori arferion da yn y broses hon yn gadarn.

Mae adroddiad ac ymgyrch y comisiwn, 'Pwy sy'n rhedeg Cymru?', yn darparu tystiolaeth am y diffyg menywod a phobl o grwpiau eraill heb gynrychiolaeth ddigonol sydd mewn safleoedd o bŵer yng Nghymru a'r angen i arweinwyr busnes a gwleidyddol gymryd camau i unioni hyn. Gellir gweld hynny yn ein hamcanion cydraddoldeb sydd ar fin cael eu cyhoeddi, a gyhoeddwyd ar ein gwefan ar gyfer ymgyngori arnynt. Mae ei adroddiad 'Nid ystadegyn arall yn unig' yn rhoi llais i bobl sy'n wynebu'r rhagfarn fwyaf ac sydd wedi'u hynysu fwyaf yng Nghymru, fel cymunedau Sipsiwn a Theithwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, pobl â chyflyrau iechyd meddwl, a phobl drawsrywiol.

Mae'r comisiwn hefyd yn mynd â materion fel cam-drin domestig ac iechyd meddwl yn y gweithle i mewn i fforymau busnes allweddol, gan ddangos fod polisiau cydraddoldeb yn gwneud synnwyr economaidd drwy gael llai o absenoldeb, er enghraifft, yn ogystal â bod yn gyfiawn yn gymdeithasol. Mae agenda cydraddoldeb a hawliau dynol cryf a gwahanol yn cael ei lunio yng Nghymru, ac mae'r comisiwn yn cyfrannu'n sylweddol at hyn. Mae atebion Cymreig yn cael eu ceisio i broblemau Cymreig.

Yn ei rhaglen lywodraethu, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i archwilio sut y gellir

stronger Welsh accountability for equality and human rights legislation, including enforcement of Wales-specific duties, can be achieved. I have asked the commission's Wales committee to advise on what opportunities and challenges there are in Wales in taking this forward. The commission will regulate the Wales-specific equality duties, which were passed unanimously in this Chamber. We need a strong and distinct regulator to make the duties work. We are exploring how we can ensure that the commission remains able to do this in the most effective manner. At the heart of the Wales-specific duties is the requirement to have outcome-focused, evidence-based equality objectives, putting the spotlight on the practical differences that we need to make to people's lives. These duties are unique to Wales and offer a great opportunity to tackle the greatest inequalities across our nation.

The commission's role as a regulator will be to hold public authorities to account by monitoring and ensuring that the new duties make a real impact. It is not about ticking boxes or spending lots of extra money. It is about being smarter in providing services that meet people's needs, rather than making assumptions about what is needed. The commission in Wales has priorities for the coming year, which include promoting and enforcing the Equality Act 2010 and the public sector equality duties for Wales, promoting and protecting human rights in Wales, including publishing its first human rights review, publishing its disability harassment inquiry report, and ensuring fairness in the current economic climate by promoting the use of equality impact assessments across the public sector.

We know that there are equality and human rights challenges ahead for Wales. The UK Government's reform of the commission, including cuts to staff and services, is a major concern that I have raised with my ministerial counterparts in Westminster. Understanding these challenges and having the evidence to

